Y DRYSORFA.

Rhif. 719.] MEDI, 1890. [Llyfr LX.

PREGETH JUBILI Y GENADAETH DRAMOR.

A draddodwyd yn Nghapel Holloway, Llundain, Gorphenaf 6, 1890.)

GAN Y PARCH. W. RYLE DAVIES, LLUNDAIN.

Esaiah xl. 5: "A gogoniant yr Arglwydd a ddadguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel; canys genau yr Arglwydd a lefarodd hyn."

Heddyw, mewn llawer, os nad yn y rhan fwyaf o'n capelau fel enwad, fe genir emynau cenadol, fe bregethir pregethau cenadol, ac fe offrymir gweddïau, mewn modd neillduol, ar ran ein Cenadaeth Dramor, oblegid heddyw ydyw y Sabbath a nodwyd gan y Gymanfa Gyffredinol i fod yn Sabbath *Jubili* y Genadaeth Dramor.

Ac y mae rhyw arwyddion eisoes, yn ein plith, fel Cyfundeb, ein bod megys yn sylweddoli fod yr Arglwydd yn dywedyd wrthym, fel wrth yr hen genedl gynt, "Sancteiddiwch y ddegfed flwyddyn a deugain"—hon yw blwyddyn *Jubili* eich Cenadaeth Dramor. Y mae yn weddus iawn i ni, fel Cyfundeb, i gymeryd mantais ar yr achlysur presennol i fendithio Duw am ei arweiniad rhyfedd i ni, ei amddiffyn mawr drosom, a'i fendith amlwg ar ein llafur cenadol o'i ddechreuad hyd yn awr; i gymeryd cysur oddiwrth lwyddiant amlwg y gorphenol; ac i ymadnewyddu, addunedu, ac ymroddi fwy fwy eto, yn y dyfodol, nag erioed, yn ngwasanaeth ein Duw, ynglŷn â'r Genadaeth Dramor. Nid oes dim yn fwy amlwg oddiwrth gychwyniad ein gwaith cenadol, fel a geir yn Nghofiant tra gwerthfawr y diweddar Barchedig Henry Rees, gan Dr. Owen Thomas, nag fod rhai o'n prif arweinwyr yn edrych, nid "yn dawel" ond mewn ammheuaeth, ar Fryniau Khasia fel

"Y bryniau tywyll niwliog,"

a'u bod yn dechreu y gwaith "trwy ofn a dychryn," ac, megys, "yn myned allan heb wybod i ba le yr oeddynt yn myned." Ond, er iddynt hwy gychwyn trwy anialwch ansicrwydd a phryder mawr, fe'u cyfarwyddwyd, fe'u hamddiffynwyd, ac fe'u harweiniwyd i mewn i Ganaan o lwyddiant mawr, yn yr ystyr byr hwn, fel y gallwn ni, y flwyddyn hon, ganu yn galonog yn yr ystyr hon:—

"Dy, fe wawriodd
Blwyddyn hyfryd Jubili."

Y mae o'r pwys mwyaf fod holl aelodau ein Cyfundeb yn cymeryd dyddordeb mawr yn y gwaith Cenadol yn ei wahanol agweddau.

Y mae yn bwysig iawn ein bod yn teimlo dyddordeb mawr yn ein Cenadon a'u teuluoedd—ein hanwyl frodyr a'n chwïoryd, ar y maes Cenadol, ac yn cymeryd mantais ar eu hymweliadau â ni i'n awr ac eilwaith, er ennyn a dwysáu ein teimladau da tuag atynt. Mantais anmhrisiadwy i'n Cenadaeth yn yr ystyron uchaf fyddai i aeloda ein Cyfundeb weled,

ac adnabod ein hanwyl frodyr a'n chwïorydd sydd wedi gadael pobpeth oedd anwyl ganddynt yn ngwlad eu genedigaeth, ac wedi ymaberthu i'r gwaith Cenadol—yn treulio eu hunain allan, yn llwyr, yn y gwaith, fel y mae marwolaeth sydyn ac annysgwyliadwy y brawd, a'r cenadwr anwyl, y diweddar Barchedig Thomas Jerman Jones, un o'r cenadon goreu fu ar y maes, tra ar ei ffordd i'w hen wlad er ceisio adferiad iechyd, yn profi yn eglur iawn. Ond, yn lle myned i Gymru i gael adferiad iechyd, flwyddyn y Jubili, fe gafodd ef sylweddoli ystyr uchaf y Jubili—ei ryddhau oddiwrth bechod a phoen byth—ei alw adref i "dderbyn anniflanedig goron gogoniant." Y mae Duw, fel hyn, yn newid ei weithwyr—yn eu galw at eu gwobr, cnd yn cario ei waith ymlaen.

Y mae yn hollol naturiol dysgwyl i ni feddu zel yn mhlaid y Genadaeth Dramor—y cenadon eu llafur diflino, a'r llwyddiant mawr sydd wedi bod ar y gwaith, fel ein gwaith ein hunain yn ngwasanaeth Duw. Y fath ddyddordeb y mae plant y byd hwn yn ei gymeryd mewn mrhyw weithfa, os bydd ganddynt hwy ran o hono! Yn sicr, y mae absennoldeb zel a brwdfrydedd gyda'r gwaith Cenadol yn dangos diffyg pwysg yn ein crefydd. Ni ellir teimlo yn briodol tuag at y gwaith Cenadol heb ymgydnabyddu â hanes ein Cenadaeth. Ac er nad ydym wedi bod heb raddau o fantais, trwy y blynydloedd, trwy yr Adroddiad Cenadol yr y Drysorfa, i ymgydnabyddu â hanes ein Cenadaeth, y mae yn gysuus meddwl fod yn mryd y Cyfundeb ddwyn allan hanes cyflawn ein Cenadaeth Dramor eleni, ac, yn ddiau, gellir dysgwyl i hyn beri adnewyddiad mawr gyda'r gwaith. Ond, er fodyn bwysig iawn i ni ymgydnabyddu âhanes y Genadaeth, y mae un peth yn fwy pwysig o awer na hyny. Y me yn annhraethol fwy pwysig i ni wybod am amcanion mawrion y Genadaeth, yr egwyddion, y rhesymau, a'r cymhellion, yn ol pa rai y mae ein Cenadaeth—a phob Cenadaeth arall wirioneddol, yn cael ei dwyn ymlaen yn y byd. Heb hyn, ni ellir dysgwyl i ni wneyd ein rhan er cynnorthwyo y gwaith Cenadol. Ac o'r ochr arall drachefn, pe byddai yn bosibl ein dwyn i sylweddoli, i raddau, amcanion mawrion y Genadaeth, fod y gwaith Cenadol yn gorphwys ar seiliau cedyrn a sefydlog, ac yn cael ei ddwyn ymlaen gan gymhellion grymus a pharhaol yn eu heffeithiau, ni fyddai llawer o berygl na byddai ein hymdrechion ar ran y Genadaeth, ymhob modd, yn llawer mwy cyffredinol, angerddol, ac effeithiol.

Hyn ydoedd mewn golwg wrth ddarllen adnod y testyn: "A gogoniant yr Arglwydd a ddadguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel; canys genau yr Arglwydd a lefarodd hyn."

Y mae adnod y testyn yn cynnwys un o'r prophwydoliaethau, os nad *y* brophwydoliaeth fwyaf pell-gyrhaeddol yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Dyma addewid sydd yn cynnwys ynddi ei hun yr holl "addewidion mawr iawn a gwerthfawr" sydd yn cynnwys "pobpeth a berthyn i fywyd a duwioldeb"—holl adnoddau cysur pobl yr Arglwydd, dros byth—oblegid "*trwy* (i) ogoniant a rhinwedd" y galwyd ni i feddiant o honynt. Ië, y mae y brophwydoliaeth hon yn cynnwys trysorau "i'r tywysogaethau a'r awdurdodau yn y *nefolion leoedd*," ac yn ymestyn ymlaen i'r tragywyddol di-ddiwedd, pan y bydd "Duw oll yn oll." Yn awr, y gwaith Cenadol yw un o'r prif offerynau i gario allan y brophwydoliaeth fawr hon i'w chyflawniad eithaf.

Ceir desgrifiad yn yr adnodau blaenorol o'r gwaith Cenadol, ei amcanion goruchel a'i gymhellion priodol:—"Parotowch ffordd yr Arglwydd, un-

ionwch lwybr i'n Duw ni yn y diffaethwch. Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a bryn a ostyngir; y gŵyr a wneir yn uniawn, a'r anwastad yn wastadedd." Y mae rhywbeth yn y rhagbarotoadau hyn yn peri i ni feddwl am ammodau prydferthwch naturiol, a'u cyferbynu âg ammodau perffeithrwydd prydferthwch ysbrydol. Y mae prydferthwch naturiol yn gofyn am y bryn a'r pant, y mynydd a'r ddôl. A ydym i feddwl fod pethau yn wahanol gyda pherffeithrwydd prydferthwch ysbrydol? Nac ydym, yn sicr. Dylid cofio mai am fynydd a bryn, "yn y diffaethwch," y mae yr adnodau hyn yn son. Rhaid gostwng gorthrwm a thrais, rhaid uniawni camweddau y cenedloedd, a gwastadhau anghyfiawnder oesoedd, a rhaid codi a dyrchafu rhinwedd a daioni. Ond, pan gyrhaeddir perffeithrwydd prydferthwch ysbrydol—pan "ddadguddir gogoniant yr Arglwydd," ac y bydd "pob cnawd ynghyd" yn ei weled,—fe geir gweled mynyddoedd o gyfiawnder, dyffrynoedd o ostyngeiddrwydd, gwastadeddau o rinwedd a daioni, a moroedd o gariad tragywyddol yn rhedeg allan yn ffrydiau grasusol, dros byth, i gadw eu gwyrddlesni tragywyddol, a'u harddunedd dwyfol. Gadewch i ni aros am ychydig amser i syllu ar y brophwydoliaeth fawr hon.

Fe welir, ar unwaith, fod adnod y testyn yn cynnwys prophwydoliaeth, a sicrwydd am ei chyflawniad. Sylwer yn gyntaf ar

I. Y Brophwydoliaeth: "A gogoniant yr Arglwydd a ddadguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel."

1. *Swn dadguddiad sydd yma.* Yr Arglwydd yn dadguddio, trwy y prophwyd, ei fod ef am ddadguddio ei ogoniant i bob cnawd ynghyd.

Nid oes berygl i ni roddi gormod o bwyslais ar hyn, mewn oes sydd yn amlygu llawer o duedd i geisio cau allan y goruwchnaturiol, ac felly, bob dadguddiad neillduol—tuedd i edrych ar y Bibl fel llyfrau eraill, yn gynnyrch naturiol meddwl ei ysgrifenwyr, ac i redeg i un o'r ddau eithafion cyfeiliornus, sef fod pobpeth yn ddadguddiad ac yn ddwyfol, fel eu gilydd, neu nad oes dim felly o gwbl.

Y mae Natur yn dadguddio, "Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Duw" (er nad yn ystyr adnod y testyn), "a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef," &c. Ac y mae Duw trwy ei Ysbryd yn "tywys i *bob* gwirionedd," yn ystyr eangaf yr ymadrodd. Ac eto, y mae hyn oll yn berffaith gyson â dadguddiad neillduol a goruwchnaturiol o eiddo Duw i ddyn trwy ei Ysbryd sanctaidd. Nid yn unig dyma yr hyn a ddysgir yn y Bibl, o berthynas i'r gwahaniaeth sydd rhwng yr hyn a ddysgir gan Dduw trwy Natur a'r hyn a ddysgir trwy ysbrydoliaeth a dadguddiad goruwchnaturiol, eithr dyma yr unig olygiad a'n galluoga ni i ddeall cynnydd graddol y dadguddiad dwyfol, ac a'n gwared oddiwrth y cyfeiliornad dychrynllyd sydd yn cau allan yn hollol y gwirionedd o ddadguddiad, o Dduw yn dadguddio, ïe, ac o Dduw *i* ddadguddio!

Nid wedi dyfod i'r hyn ydynt yn awr, ac yn myned i'r hyn fyddant eto, y mae pethau, trwy ddadblygiad o ryw rym cynhenid mewn mater neu natur pethau, eithr Duw sydd wedi creu gwahanol fathau o fywyd—y naill yn dechreu lle mae dadblygiad y blaenorol yn terfynu—ac wedi rhoddi gwahanol fathau o ddadguddiad, yn hollol yn ol yr un egwyddor. Duw, fel Creawdydd, roddodd bob gwawr o oleuni i'r byd, trwy wareiddiad, diwylliant, dysg, a gwybodaeth. "Nid oes iaith nac ymadrodd lle ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt." Y mae goleuni creadigaeth "yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd." Ond yn y dadguddiad ysbrydoledig wele belydr o'r tu hwnt i derfyngylch

creadigaeth, oddiwrth Dduw fel Achubydd—pelydr o drysorau anfeidrol ei gariad tragywyddol, yn ymddangos mewn ffurf addewid i fyd colledig, yr hon addewid ydoedd yn ddechreuad dadguddiad sydd i derfynu yn nghyflawniad adnod y testyn:—"A gogoniant yr Arglwydd a ddadguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel."

2. *Yr hyn a ddadguddir*—"gogoniant yr Arglwydd."

Y mae y gair "gogoniant," yn sicr, yn un o'r geiriau o ystyron a chymhwysiad mwyaf amrywiol yn y Bibl. Golyga y gair a gyfieithir "gogoniant" syniad, cydnabyddiaeth, anrhydedd, ymddangosiad, ffurf, dysgleirdeb, ysblander. Cyfaddasir y gair gogoniant at bethau a phersonau, y creadur a'r Creawdwr! Y mae un peth yn bur eglur yn y defnydd a wneir o'r gair at bethau a phersonau (os priodol dyweyd hyn mewn ymadrodd sydd yn golygu Duw a dynion), sef ei fod yn cael ei ddefnyddio i osod pob peth allan ar ei oreu. Os sonir am le ar ei oreu, rhaid son am dano fel "y gogoniant." Os sonir am ddyn, fel creadur, ar ei oreu, rhaid crybwyll am "holl ogoniant dyn," er nad yw ond "fel blodeuyn y glaswelltyn." Os sonir am brydferthwch y lili, rhaid dyweyd na "wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn." Os sonir am harddwch y goedwig, rhaid son am "ogoniant Libanus." Gogoniant y ddaear, gogoniant yr haul, gogoniant y ser, &c. Yr un modd, wrth son am yr ystad uchaf i'r saint, ac am y gwobrwyon a'r anrhydedd uchaf, rhaid defnyddio y gair "gogoniant." Dywedir am y saint eu bod yn myned "o ogoniant i ogoniant;" eu bod "gydag Ef mewn gogoniant;" "fel y gwelont fy ngogoniant;" yn derbyn "coron gogoniant;" ac yn cael eu cymhwyso i ddal "tragywyddol bwys gogoniant." Hefyd, fe ddywedir am Iesu Grist fod rhywrai "wedi gweled ei ogoniant;" fod yn "rhaid iddo fyned i'w ogoniant;" ei fod wedi ei adgyfodi o feirw "trwy ogoniant;" iddo dderbyn "parch a gogoniant;" ei fod yn gofyn am "y gogoniant oedd iddo ef gyda'r Tad, cyn bod y byd;" iddo "esgyn i ogoniant;" y daw efe "yr ail waith yn ngogoniant ei Dad, gyda nerth a gogoniant mawr," ac yr eistedd efe "ar orsedd ei ogoniant;" a gelwir Iesu Grist yn "Frenin y gogoniant," "Arglwydd y gogoniant," ac "yn ddysgleirdeb gogoniant y Tad."

Wrth son am "ogoniant Duw," gelwir Duw yn "Dad y gogoniant," "gogoniant yr anllygredig," "Duw y gogoniant," "y mawr ragorol ogoniant," ac yn y testyn "gogoniant yr Arglwydd."

Yn awr, beth yw "gogoniant yr Arglwydd" yn y testyn? *Yn gyntaf*, Nid dim all creadur roddi iddo. Y mae holl lu y nef "yn rhoddi i'r Arglwydd ogoniant," "yn rhoddi gogoniant i Dduw"—yn cydnabod yn addolgar, fod y Duw mawr yn Drindod sanctaidd o bersonau, yn meddu gogoniant hanfodol, anfeidrol, ac anghyfranogol. Y mae y nefoedd ar dân—os goddefir yr ymadrodd, gan ogoniant yr Arglwydd, yn yr ystyr hon—"annedd ei sancteiddrwydd a'i ogoniant" ydyw.

Yn ail, Nid dim sydd yn cael ei roddi gan Dduw ydyw. Un o'r ymadroddion cyflawnaf i osod allan drueni dyn yw ei fod "wedi myned yn ol am ogoniant Duw." Ac o'r tu arall, un o'r ymadroddion cyflawnaf i osod allan wynfydedigrwydd pobl yr Arglwydd yw mai "Duw yw gogoniant ei bobl." Y mae Duw yn rhoddi llawer i'w bobl! Y mae "golud gogoniant ei etifeddiaeth ef yn y saint" yn fawr! Y mae yn eu nerthu "yn ol cadernid ei ogoniant." Y mae yn eu galw i "dragywyddol ogoniant," ac yn eu cymhwyso i ddal "tragywyddol bwys gogoniant!" Ac wrth gyfodi

Iesu Grist o feirw "trwy ogoniant," yr oeddynt hwythau yn cyfodi gydag ef. Pan yr esgynodd yr Iesu, nid yn unig fe roddwyd iddo "barch a gogoniant," megys "yn y mynydd sanctaidd," eithr fe dderbyniodd ei ogoniant Cyfryngol; ac fe gaiff y saint, mewn rhan, gyfranogi o hono byth. Ond y mae hyn oll, ïe, y mae *pobpeth* yn gryno yn yr ymadrodd. Eto nid yr hyn a gyfrenir gan Dduw i'w greaduriaid sanctaidd, na'r hyn a gydgyfranogir ganddynt â Duw, a olygir wrth yr ymadrodd "gogoniant yr Arglwydd" yn y testyn. Nid meddyliau tragywyddol Duw, nid "cynghor ei ewyllys, yn ol yr arfaeth dragywyddol," nid ei briodoleddau dwyfol a'i gariad anfeidrol a feddylir! Fe ddadguddir y rhai hyn oll "er mawl i'w ogoniant ef." Beth ynte? Dywedai Philo: "*The unfolded fulness of the divine δύναμεις*" (cyflawnder annadguddiedig y pwerau dwyfol). Dywed un o brif dduwinyddion yr oes hon: "*God's consciousness of his own infinite perfections*" (ymwybyddiaeth Duw o'i berffeithderau anfeidrol). Beth a ddywedwn? Y mae deffiniad yn pallu, a'r meddwl yn myned yn ddirym wrth geisio agosâu ato! Rhyw ardderchogrwydd, rhyw ysblander dwyfol yr hwn a ddadguddir fel canlyniad dadguddiad yr holl briodoleddau fel y maent mewn cydgordiad tragywyddol â'u gilydd!

Ac felly y mae dyweyd fod y saint "wedi eu nerthu â phob nerth yn ol *cadernid gogoniant* Duw," ac fod Iesu Grist wedi ei gyfodi o feirw "*trwy ogoniant* y Tad," yn golygu cadernid a nerth yr holl briodoleddau dwyfol mewn gweithrediad â'u gilydd. "A gogoniant yr Arglwydd a ddadguddir!"

3. *Cyflawniad y brophwydoliaeth:* "A phob cnawd ynghyd a'i gwel."

Yn sicr yr olwg briodol i'w chymeryd ar ddadguddiad Natur a'r dadguddiad Ysbrydoledig, ynghyd a'u holl ddadblygiad graddol, ydyw fel gwahanol yrfäau yn nadguddiad "gogoniant yr Arglwydd." Ystyr eithaf "bydded" y greadigaeth, yn ogystal a'r addewid gyntaf yn Eden, ydoedd "a ddadguddir." Ystyr eithaf pob darganfyddiad a phob diwygiad yn hanes y byd ydyw "a ddadguddir." Y mae dymuniad Moses—"Dangos i mi, attolwg, dy ogoniant," yn cyfodi o ddyfnderoedd natur pethau; ac, o'r un dyfnderoedd, trwy fyrdd o leisiau, fe atebir ystyr y testyn, "a ddadguddir."

Ond, gallem feddwl fod y testyn a'i gysylltiadau yn cyfeirio at ddau gyfnod yn neillduol.

Yn gyntaf, fe gyfeirir yn ddiau at oruchwyliaeth yr Efengyl—at ymddangosiad Duw yn y cnawd. Fe ddywed Ioan mai efe yw "llef un yn llefain," y prophwyd Esaiah, yn adn. 4; ac felly fod prophwydoliaeth Esaiah yn cael ei chyflawni yn mherson yr Arglwydd Iesu Grist,—"Ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr Unig-anedig oddiwrth y Tad," &c. Yr oedd gan Fab y Dyn ogoniant ydoedd yn cyfateb i'w berthynas Fabaidd â'i Dad, hyd yn nod wedi ymwaghau o'r gogoniant oedd iddo fel Mab Duw erioed. Ond yr oedd yn rhaid iddo ef gael ei ogoneddu—"myned i mewn i'w ogoniant," mewn trefn i "ogoniant yr Arglwydd" gael ei ddadguddio!

Yn ail, y mae yn bur eglur fod adnod y testyn yn edrych ymlaen at adeg y bydd *ideal* yr ymgnawdoliad wedi ei gwbl hau yn weithredol yn hanes yr eglwys. Fel yr oedd gwahanol amlygiadau cynnyddol o "ogoniant yr Arglwydd" dan yr Hen Oruchwyliaeth yn "parotoi ffordd yr Arglwydd," ac i derfynu yn ymddangosiad gogoniant megys yr Unig-anedig oddiwrth y Tad," felly y bydd gogoniant Duw trwy y Mab—yr hwn ogoniant ydoedd yn ymddangos trwy ffiachiadau o ogoniant Crist ar adegau

neillduol yn hanes yr Iesu, ac sydd eto yn hanes yr Eglwys—yn terfynu mewn dadguddiad cyflawn o "ogoniant yr Arglwydd" yn hanes yr Eglwys: "Pan adeilado yr Arglwydd Sion y gwelir ef yn ei ogoniant." Pan y bydd y deml fawr ysbrydol wedi ei chwblhau—yr holl feini bywiol wedi eu cyd-gysylltu yn un deml ysbrydol, ac wedi cynnyddu i berffeithrwydd, mewn undeb â'r sylfaen a'r pen conglfaen ysbrydol—a holl briodoleddau y Duw mawr, yn Drindod Sanctaidd o bersonau, wedi eu dadguddio i holl greadigaeth Duw, yna "y gwelir ef yn ei ogoniant;" oblegid "gogoniant yr Arglwydd a ddadguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel."

II. Y Sicrwydd a roddir am gyflawniad y Brophwydoliaeth: "Canys genau yr Arglwydd a lefarodd hyn." Rhaid i sicrwydd hollol cyflawniad unrhyw beth fod yn cynnwys sicrwydd ynghylch pob peth o'r bwriad hyd y cwblhad eithaf.

Y mae genym y sicrwydd mwyaf posibl. Sylwer arno am ychydig fynydau o ddau gyfeiriad.

Yn gyntaf, *Sylwer ar y sicrwydd sydd genym o ochr Duw.*

1. Y mae yn sicrwydd sydd yn gorphwys ar natur Duw—ar ei wirionedd a'i ffyddlondeb i'w air. "Duw y gwirionedd" yw yr Arglwydd. "Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd." "A ddywedodd efe, ac oni chyflawna? a lefarodd efe, ac oni chwyra?" Y mae genym addewid 'y digelwyddog Dduw" y cwblheir hyn oll. "Ffyddlawn yw Duw, y mae yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog." Na, na,

> "Pob sill erioed a dd'wedodd Ef,
> Sydd siwr o dd'od i ben."

2. Y mae holl waith Duw mewn creadigaeth, prynedigaeth, a hanes yr eglwys hyd heddyw, yn sicrhau y cwblheir hyn oll. Byddai yn rhaid i Dduw fyned yn groes i'w arfaethau tragywyddol, yn groes i amcanion eithaf yr ymgnawdoliad, bywyd, angeu, ac adgyfodiad Iesu Grist i beidio cwblhau y gwaith! "Fel yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd, y gallai grynhoi ynghyd yn Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear, ynddo ef; yn yr hwn y'n dewiswyd hefyd, wedi ein rhagluniaethu yn ol arfaeth yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun, fel y byddem *ni er mawl i'w ogoniant Ef*, y rhai o'r blaen a obeithiasom yn Nghrist."

3. Y mae dadguddiad "gogoniant yr Arglwydd," ar ol esgyniad yr Arglwydd Iesu Grist, yn sicrwydd ffyddlondeb y Tad i'r Mab. Dyma ganlyniad gwobr ei ufudd-dod "hyd angeu, ie angeu y groes." "O herwydd paham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion a than-ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd er *(i* neu *tuag at)* ogoniant Duw Dad." "Canys genau yr Arglwydd a lefarodd hyn."

Yn ail, *Sylwer eto ar y sicrwydd sydd genym o gyfeiriad yr Eglwys.*

Yma yr ydym â'n hwyneb tuag at y wedd ymarferol sydd i'r pwnc goruchel hwn. Nid yn unig trwy berffeithiad yr eglwys—"trwy yr eglwys," yn yr ystyr hon, yn unig, fel y sylwyd eisoes, "y gwelir ef yn ei ogoniant," ond "trwy yr eglwys" hefyd fel offeryn, neu fel llawforwyn Duw, y cwblheir hyn oll. Y mae rhai yn myned mor bell a dyweyd mai trwy y ddynoliaeth—trwy undeb y Mab â'r ddynoliaeth—y buasai "gogoniant yr Arglwydd" yn cael ei ddadguddio, pe na buasai y ddynoliaeth wedi syrthio trwy bechod. Hyn a wyddom trwy ddadguddiad, nad oedd yn bosibl cael trefn i gadw dyn heb offerynoliaeth y ddynoliaeth; ac y mae yn

hollol gyson â hyny—yn wir y mae yn ganlyniad anocheladwy—mai trwy ddyn y mae y drefn hono i gael ei dadguddio i'r byd. Y mae delw yr oll ar bob rhan o'r prynedigaeth—y dwyfol a'r dynol ymhob gwedd arni! Arfera rhai ddyweyd wrth annog yr eglwys i ffyddlondeb, y gallasai Duw ddwyn ei waith ymlaen hebom ni; ond, yn sicr, mwy cywir yw meddwl fel arall, sef fod Duw yn dwyn ei waith ymlaen y ffordd oreu sydd yn bosibl, ïe, a'r unig ffordd bosibl! Gwyn fyd na sylweddolai yr eglwys hyn i raddau helaethach yn y dyddiau hyn! Byddwn yn aml yn ein gweddïau megys yn cwyno ger bron Duw, fel pe baem ni yn llawer mwy parod na'r Anfeidrol i gadw dyn, yn gresynu na chai'r byd wybod am yr efengyl, ac yn canu mewn teimlad,

"Pam bydd poen addfwyn Oen,
Am dano 'n eitha 'r byd heb son?"

heb feddwl, neu o leiaf, heb sylweddoli mai gwaith eglwys Dduw ydyw hyny. Na, na, pe byddai holl gariad yr eglwys yn y nef ac ar y ddaear, ïe, holl gariad holl greaduriaid sanctaidd Duw ynghyd, ni byddai yn ddim wrth gariad Anfeidrol Duw, a'i barodrwydd i achub dyn! Y mae Duw yn brysio i achub y byd, ac i ddadguddio ei ogoniant!

Y mae pobpeth yn galw ar yr eglwys i weithio.

1. Y mae holl ragfynegiadau Duw am dani, a'i holl addewidion iddi, yn galw arni i weithio: "Dring rhagot, yr efengyles Sïon, i fynydd uchel: dyrcha dy lef trwy nerth, O efengyles Jerusalem . . . . wele yr Arglwydd Dduw a ddaw yn erbyn y cadarn, ei fraich a lywodraetha drosto; wele ei wobr gydag ef, a'i waith o'i flaen."

2. Y mae perthynas yr eglwys â Christ fel ei Phen, ei pherthynas â dynoliaeth ogoneddedig yn y nef, a'i pherthynas â dynoliaeth lygredig ar y ddaear, yn galw arni i weithio: "Yr hon yw ei gorff Ef, ei gyflawnder Ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll."

3. Y mae Crist wedi gorphen ei waith, ac y mae Duw wedi ymddiried cwblhau y gwaith i'r eglwys trwy ei air a'i Ysbryd. Y mae yr hyn a addawyd trwy y prophwyd Joel wedi ei gyflawni, ac Ysbryd yr Arglwydd wedi ei dywallt ar bob cnawd. Ac onid yw hyn oll, ynghyd a hanes yr eglwys trwy yr oesoedd, nid yn unig yn galw ar yr eglwys i weithio, ond hefyd yn sicrwydd y bydd iddi gyflawni ei milwriaeth, er ei holl rwystrau a'i gelynion ysbrydol, ac y gwelir pob pant wedi ei gyfodi, a phob mynydd a bryn wedi ei ostwng: y gwyr wedi ei wneyd yn uniawn, a'r anwastad yn wastadedd? Ydyw, ydyw; ac y mae yr oll yn adseinio, "Canys genau yr Arglwydd a lefarodd hyn." Ond a yw bywyd-waed yr eglwys fawr, ei chariad at Dduw a dyn mewn ysbryd cenadol, yn treiddio trwy ein Cyfundeb, a thrwy yr eglwys hon, fel ag i beri i'w gweithgarwch gynnyrchu ymwybyddiaeth o'r sicrwydd sydd yn y testyn?

Y mae ein dyledswydd yn eglur. Os byddwn yn wybod meddwl Duw, fe ddylai hyny ein gwneyd yn barod i wneud ein dyledswydd, pa beth bynag fydd ein hanhawsderau. Y mae dyledswydd eglwys Dduw, gan hyny, yn eglur hyd nes y byddo yr adeg ddedwydd y sonir am dani yn y testyn wedi gwawrio: "Hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist."

Cyn terfynu, gadawer i ni geisio ateb y cwestiwn canol, yr hwn a ofynir yn fynych gyda y mater hwn: *Pa beth a ddysgwyr i ni wneyd?*

1. Y mae yn ddyledswydd arnom i feddwl, cynllunio, ac ymdrechu ar ran y gwaith Cenadol ymhob modd trwy ddysgu, annog a dangos yr ysbryd

Cenadol ymhob cylch—mewn gair, ail-fyw bywyd Iesu Grist yn y byd!

Ac O! mor hyfryd yw meddwl fod y chwïorydd yma, ac yn Nghymru, yn deffro gyda y gwaith Cenadol. Pan y mae merched yn prysur ddringo i enwogrwydd mewn dysg—merch ieuanc eleni yn uwch na'r uchaf! yn uwch na'r *senior wrangler* yn Nghaergrawnt! —mor hyfryd eu gweled yn ymroddi gyda gwahanol genadaethau y byd! Y mae merched America wedi synu y byd gyda'r gwaith Cenadol y blynyddoedd diweddaf; ac ni ryfeddem pe synid Cymru gan ymdrechion y chwïorydd ar flwyddyn Jubili ein Cenadadaeth Dramor.

2. Y mae yn ddyledswydd arnom weddïo yn barhaus ar i Dduw, trwy ei Ysbryd, lwyddo ymdrechion ei bobl. "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd l, medd yr Arglwydd."

3. Y mae yn ddyledswydd arnom oll aberthu, ar ran y Genadaeth. Dylai y rhieni feithin parodrwydd i roddi eu plant i'r gwaith Cenadol, yn gystal a meithrin ysbryd cenadol yn y plant, fel y byddo ein meibion a'n merched ieuainc yn ymgysegru, ac yn rhoddi eu hunain i'r gwaith Cenadol. Ac, yn enwedig, dylem *oll* roddi arian tuag at gario y gwaith ymlaen. Byddwn, yn aml, y ddigon parod i ammheu purdeb en dymuniadau, gwirioneddolrwydd en gweddïau, ac uniondeb ein hamanion. Dylem wneyd yr hyn a allan gyda chasgliadau y Genadaeth, oblegid y mae yma le i ddyn fod *a sicr* ei fod yn hyrwyddo y gwaith ac os na fyddwn yn gwneyd ein goreugyda hyn, y mae lle cryf i ni ammheu gwerth a gwirioneddolrwydd pobph arall a ystyrir genym yn fwy ysbdol. Y mae yn ddyledswydd ar *bobn* roddi, a rhoddi yn ol yr un rheol. Y cyfoethogion i roddi llawer. Ac O! mor swynol yw hanes ein brodyanwyl yn rhoddi eu cannoedd a'u lloedd! Y bobl gyffredin a'r tlodion i roddi cymaint ag a allant; pawb i roddi nes teimlo ei fod yn rhoddi, a phawb i roddi yn llawen.

Yr Arglwydd a dywallto ei Ysbryd arnom fel Cyfundeb yn helaeth y flwyddyn hon, ac ar yr eglwys yn gyffredinol, fel y "parotoer ffordd yr Arglwydd, ac yr unioner llwybr i'n Duw ni yn y diffaethwch!" "A gogoniant yr Arglwydd a ddadguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel; canys genau yr Arglwydd a lefarodd hyn."

YMWELIAD A BELFAST.

CYMANFA JUBILI UNDEB PRESBYTERIAID YR IWERDDON.

Yn y Gymanfa Gyffredinol a gynnaliwyd mis Mai diweddaf yn Liverpool, penodwyd pedwar o frodyr i fyned i Belfast i gynnrychioli Methodistiaid Calfinaidd Cymru yn Nghymanfa Jubili y Presbyteriaid. Am unwaith yn hanes Methodistiaeth aeth y pedwar a benodwyd, cyrhaeddasant Belfast mewn pryd, arosasant yno cyhyd ag yr oedd yn anghenrheidiol, cawsant dderbyniad hynod o garedig a chroesawgar, a diau eu bod oll wedi dysgu llïaws o bethau buddiol ar eu taith. Un o honynt, pa un ni waeth, sydd yn ysgrifenu yr hanes hwn, trwy ddealltwriaeth gyda y gweddill, fel un dull o ddadgan eu diolchgarwch i'r Methodistiaid am osod yr anrhydedd hwn arnynt, gan obeithio hefyd y gall yr adroddiad fod yn ddifyr, beth bynag am adeiladol.

Mae amrywiol ffyrdd i gyrhaedd Belfast o Ogledd Cymru, sef y gyflymaf a'r ddrutaf, trwy Gaergybi, Kingston, Dublin, a chyda'r rheilffordd i Belfast; yr ail trwy Gaergybi i Greenore, ac oddiyno gyda'r rheilffordd i Belfast; a'r lleill trwy Liverpool yn uniongyrchol, neu trwy Barrow-in-Furness neu Fleetwood. I'r rhai na raid iddynt arswydo rhag y môr, trwy Fleetwood ydyw y ffordd oreu o ddigon. Mae y cychod yn rhai newydd, cyflym, cryf, a hynod gysurus, ac er bod y pellder uwchlaw chwech ugain milldir, croesir drosodd mewn tuag wyth awr a hanner.

Ni wiw ymdroi i roddi hanes dinas Belfast ei hun, ond awn i mewn yn ddioed i gyfarfod cyntaf y Gymanfa ddydd Mawrth, Gorph. 9fed. Cynnelid y Gymanfa eleni yn Eglwys Rosemary Street—adeilad mawr pedair-ongl, mwy, ni a gredwn, na chapel y Tabernacl, Aberystwyth, neu Moriah, Caernarfon. Yr oedd yn rhaid esgyn tuag ugain o risiau llydain i gyrhaedd y drws allan o heol gul a thywyll Rosemary, yna elid trwy *bassage* i *lobby* eang, a thrwy ddrws arall i fewn i'r capel, yr hwn a ymddangosai braidd yn henafol a thrymaidd. Yr oedd y *gallery* yn neillduol o lydan neu ddofn, yn cynnwys cymaint a chwech neu saith o seti. Sylwasom fod yr holl seti trwy y capel wedi eu gwneuthur o bren *mahogany* prydferth. Tu cefn i'r pulpud yr oedd drws bychan fel yn nghapel Llangeitho, ac nid oedd mynediad uniongyrchol i'r lle hwnw o'r sêt fawr. Yr oeddys wedi gwneyd esgynlawr, a'i gorchuddio â gwlanen goch, dros y sêt fawr, ac ar hwn yr eisteddai y Llywydd—*Moderator* fel y gelwid ef,—a bwrdd o'i flaen, ar ba un yr oedd pwysi prydferth o flodau yn cael eu gosod bob dydd. Wrth ei ochr yr oedd yr Ysgrifenydd—*Clerk*—wedi ei amgylchu â llyfrau gleision, a llyfrau trymion y gyfraith rhwymedig mewn croen llo. Hwy ill dau oeddynt unig drigianwyr parhaol yr esgynlawr; dringai hwn a'r llall i fyny pan yn traddodi anerchiadau neillduol neu yn cyflwyno adroddiadau. Teimlem yn chwith weled y tadau ar y llawr yn gydradd â'r distadlaf. Y fath chwyldroad a barai trefniant cyffelyb mewn aml Gyfarfod Misol, lle y mae henuriaid y sêt fawr yn teyrnasu â gwïalen haiarn! Enw y llywydd oedd y Parch. William Park, M.A., gweinidog yr eglwys lle y cynnelid y Gymanfa. Gŵr byr, gwynebgoch, ond pryd tywyll, yw Mr. Park. Llefarai yn gyflym a lled bendant yn ei ddull, ac ni welsom neb erioed yn fwy medrus ar ei waith, na neb yn ei gyflawni gyda mwy o ddeheurwydd a phriodoldeb. Mae Dr. J. H. Orr, yr ysgrifenydd, yn tynu ymlaen mewn dyddiau, ac ni a dybygem oddiwrth ei wallt a'i farf wen ei fod dros driugain oed. Cadarnheir ein tybiaeth gan sylw a wnaeth am rywun "nad ydyw gŵr triugain oed yn hen"—yn ddigon hen i ymneillduo o waith y weinidogaeth. Edrychai Dr. Orr yn batriarchaidd ac awdurdodol; efe oedd yr oracl i benderfynu pynciau cyfreithiol, a gwnai hyny gyda nerth, ond ni welsom ynddo duedd i dra-arglwyddiaethu. Rhenid llawr y capel gan bedwar *passage*. Cedwid y ddau ar y canol at wasanaeth aelodau y Gymanfa a dyeithriaid, y rhai a ollyngid i mewn trwy y *bar* ar eu gwaith yn dangos tocyn glas; ond yr oedd y gweddill o'r adeilad yn rhydd i'r cyhoedd, ac ar rai prydiau byddai y capel eang yn orlawn.

Rhifai aelodau y Gymanfa fwy na 1000. Cymerodd dros awr a hanner i alw enwau yr holl gynnrychiolwyr yn weinidogion a blaenoriaid—*ruling elders*—fel eu gelwid. Gwnaethpwyd hyny ddwy waith, a buont wrthi am bron bedair awr gyda'r gorchwyl. Yr amgylchiad oedd dewis athraw newydd yn Ngholeg Derry. Nid Cyfeisteddfod yr Athrofeydd sydd yn penodi nac yn cymeradwyo neb i'r swydd hon ymhlith y Presbyteriaid. Pan y bydd anghen athraw, mae yr ymgeiswyr yn anfon *testimonials* at yr holl gynnrychiolwyr i'w hysbysu am bob rhagoriaeth sydd yn perthyn iddynt ac ambell un hefyd na feddant mo honi. Erbyn dydd y Gymanfa mae yn hysbys pwy sydd yn ymgeisio. Yna heb na dadl nac ymddyddan gelwir enwau y gweinidogion a'r blaenoriaid yn ol eu Cyfarfodydd Misol neu *Presbyteries*, ac y maent hwythau yn ateb ar gyhoedd dros ba un o'r ymgeiswyr y pleidleisiant. Eleni tri ymgeisiwr oedd ar y maes; aeth un allan ar y bleidlais gyntaf, ac yna pleidleisiai ei gyfeillion ef dros un o'r ddau arall, ac felly dewiswyd athraw newydd. "Paham," meddem wrth un o honynt, "na buasech yn pleidleisio trwy y tugel, neu trwy ysgrifenu yr enw ar bapyrau wedi eu harwyddnodi gan y pleidleisydd? Felly y buasem ni yn gwneyd yn Nghymru." "Ië," atebai yntau, "dyna fuasai y goreu. Eglwys ieuanc ydych chwi, rhagor ni; fel hyn yr arferai yr hen dadau wneyd, ac mae yn anhawdd iawn newid hen ddulliau." Gofynem i arall, ar ba egwyddor yr oedd y lliaws yn pleidleisio mewn achosion fel hyn, a chawsom

fel atebiad fod amrywiol ystyriaethau yn tueddu eu barn: teilyngdod yr ymgeisydd weithiau; perthynas, bob amser, hyd y nawfed ach; ac yn wir fe'n hysbyswyd y teimlai gŵr yn rhwym i bleidio cefnder i frawd yn nghyfraith cyfnither ei wraig. Nid oes anghen dywedyd fod "y rhai a'm carant hyd y seithfed a'r wythfed genedlaeth" yn gymeradwy, a'r rhai a'm casânt yr un modd yn wrthodedig. Wrth hyn deallem mai hil Adda yw Presbyteriaid yr Iwerddon.

Ond yr ydym wedi crwydro. Synem pa mor debyg i Gymru yr edrychai y pregethwyr a'r blaenoriaid. Gwelsom lawer hen flaenor gwledig yr olwg arno, mewn brethyn cartref, ac anhawdd oedd peidio rhyfeddu ynom ein hunain, sut yr oeddynt heb dd'od atom i ysgwyd llaw ac i ofyn cyhoeddiad genym "yn '94," neu "os ydi hono yn llawn, yn '95!"

Pan aethom i mewn gyntaf yr oeddys ar ganol cyfarfod gweddi, neu yn eu hiaith hwy—*devotional exercises*. Clywsom y naill ar ol y llall yn gofyn am fendith ar y Cadeirydd a'r Ysgrifenydd, "and on all the sederunts of the Assembly." Ni chlywsom neb erioed yn Nghymru yn gweddïo dros y Cadeirydd a'r Ysgrifenydd, a theimlai dau o honom eu bod yn sicr yn deilwng wrthddrychau gweddi. "Sederunt," gair Lladin yn meddwl, "eisteddasant"—yw eu henw am eisteddiad o'r Gymanfa. Nid oes un cyfarfod yn gyfreithiol heb i'r Llywydd "gyfansoddi y Gymanfa" trwy ddarllen a gweddïo, h.y. y Llywydd sydd yn dechreu ac yn diweddu pob eisteddiad. Cyfyd y rhan fwyaf o'r gynnulleidfa i weddïo a chyfyd pawb i ganu. Ond O ganu! Buasai yn gywilydd gan Gymro ganu cerddi yn ffair y Bala can saled ag y canant hwy Salmau Dafydd. Credwn fod ganddynt lyfr tonau, ond ni chlywsom yr un dôn o gwbl, namyn geiriau wedi eu hamdoi mewn sŵn. Ni raid hysbysu y darllenydd ar ol hyn na feddant, ac na oddefant nac *organ* na *harmonium* na degtant yn eu haddoldai, ac ni ddefnyddiant hymnau ychwaith oddigerth mewn rhai eglwysi. Bu bron i'r Gymanfa ymranu yn ddwy ar gwestiwn yr offerynau cerdd, ac er mwyn heddwch gildiodd y blaid gryfaf i'r brodyr gwan oedd â chydwybod i'r eilun; ond deallem mai llifo i mewn mae y llanw yno hefyd, ac nas gall dynion da ond culion ei attal lawer yn hwy. Psalmau cân a genir ganddynt yn unig, ac y mae yr eiddo Edmund Prys yn dywysogion yn eu hymyl; eto pa gynnulleidfa yn Nghymru a garasai fod yn gaeth i ganu dim arall? Cymharer y ddau bennill dilynol o'r drydedd Psalm ar hugain yn ol y Psalmau cân Ysgotaidd a'r eiddo Edmund Prys:—

"The Lord's my Shepherd, I'll not want,
He makes me down to lie
In pastures green, He leadeth me
The quiet waters by.

"My soul He doth restore again;
And me to walk doth make
Within the paths of righteousness,
Even for His own name's sake."

"Yr Arglwydd yw fy Mugail clau,
Ni âd byth eisiau arnat;
Mi gaf orwedd mewn porfa fras,
Ar làn dw'r gloywlas araf.

"Fe goledd f' enaid, ac a'm dwg
'R hyd llwybrau diddrwg cyfion;
Er mwyn ei enw mawr dilys
Fe 'm tywys ar yr union."

Er mor glogyrnaidd y swnia y Psalmau Ysgotaidd i ni, maent yn anwyl iawn ganddynt hwy, ac fe'u cenir ganddynt heb lyfr, fel y gwna y Cymry unrhyw emyn adnabyddus. Nis gellir eu hedmygu, ond rhaid i ni eu parchu fel pethau sydd wedi bod yn gyfryngau gwir addoliad miloedd o saint er ys tri chan mlynedd.

Nid yw eu Cymanfa hwy yn hollol gyfateb i'n Cymdeithasfa ni yn Nghymru. Y Cyfarfodydd Misol a gynnrychiolir gan y Gymdeithasfa, ond mae gan bob gweinidog hawl i fod yn bresennol yn eu Cymanfa hwy, a chan bob eglwys hawl i anfon un blaenor. Yn ol ein cyfansoddiad ninnau hefyd, gwyddom fod gan bob swyddog o'r Corff hawl i siarad a phleidleisio mewn Cymdeithasfa, ond yn ymarferol y Cyfarfodydd Misol a gynnrychiolir ynddi, ac anaml iawn y cymerir i ystyriaeth ddim ond pynciau a chenadwriaethau a gyflwynir gan y Cyfarfodydd Misol. Ymhlith y Presbyteriaid rhaid i'r Gymanfa gadarnhau ymddiswyddiad gweinidogion, rhoddi caniatâd i eglwys ddewis gweinidog newydd, ac hyd yn nod i roddi enwau ar gynnulleidfaoedd newyddion.

Dechreuai gwaith y dydd am 10 o'r gloch, parhai yr eisteddiadau hyd 4; dechreuent drachefn am 7, a pharhaent hyd 10 30. Elai yr aelodau i fewn ac allan fel y fynent. Pan byddai rhyw fater pwysig ger bron llenwid y tŷ; wedi i hwnw ddarfod mae yn gwaghau; a gwelir, ac yn enwedig clywir yr aelodau, fel prynwyr a gwerthwyr marchnad yn dadleu y pynciau â'u gilydd yn y *lobbies* ac ar y grisiau. Ië, dylem hefyd hysbysu nad oes yno ginio a thê y Sasiwn yn yr Iwerddon, na "thybaco yr achos." Erys llawer o'r eynnrychiolwyr gyda pherthynasau a chyfeillion, ac y mae llawer yn ñettŷa yn y gwesttai. Darperir yn groesawgar ar gyfer y dyeithriaid o wledydd eraill, a chawsom ni o Gymru lettŷ ac ymborth a thybaco yn ddidraul ac yn hynod gysurus. Rhoddir llyfr glas yn llaw pob aelod o'r Gymanfa, yn cynnwys holl ystadegau y Cyfundeb a'r Adroddiadau Cenadol ac Athrofäol. Ceir yn hwn hefyd gopi o bapyrau Arholiadau y Colegau, ynghyd a phob manylion am wahanol symudiadau addysgol ac elusengar yr eglwys. Cyflwynir yr adroddiadau gan gynnullwyr y pwyllgorau mewn arcithiau hirion, hedegog yn fynych, yn cynnwys dyfyniadau helaeth o ryw farddoniaeth. Darllenid rhai o honynt, ac anhawdd gwrando dim sychach a mwy diflas. Dywedid wrthym mai gwŷr gweddol ieuainc oedd y rhan fwyaf o'r cynnullwyr hyn sydd eto heb ddysgu nofio, ac felly heb ddeall mai godidowgrwydd siarad cyhoeddus ydyw—tynu am y lân, ac nid amgylchu môr a thir. Tebyg hefyd fod rhai o'r gweinidogion wedi traddodi yr areithiau hyn fel pregethau ychydig amser yn ol. Bu un gweinidog mor anffodus a diweddu ei araeth gyda y geiriau, "a bendithied yr Arglwydd y sylwadau hyn er eich lles!" Y Sabboth oedd ei bwnc, a diammheu mai hen bregeth ydoedd.

Taflen ddyddorol iawn ydyw cyfrifon yr eglwys. Oddiwrth hon deallwn fod 159 o fyfyrwyr yn Ngholegau y Cyfundeb, fod ganddynt 555 o eglwysi neu gynnulleidfaoedd fel eu galwant. Dengys hyn fod nifer eu myfyrwyr yn 50 o leiaf yn ychwaneg na'r eiddom ni. Ar gyfer hyny dylem gofio fod iddynt faes eang iawn. Try llawer o'u myfyrwyr hwy yn ysgolfeistriaid, tra mai y gwrthwyneb sydd wir am Gymru; êl llu o'u pregethwyr hwy drosodd i Loegr, Ysgotland, a'r America. Mae gan y Methodistiaid 1258 o eglwysi, ond fel y gŵyr pawb buasai yn iachawdwriaeth i'r achos pe gellid dadsefydlu llawer un o honynt a'u huno i fod yn rhan o eglwysi cryfach. Cymer yr Henaduriaethwyr fwy o bwyll, ac nid ydynt yn credu mewn amlhau mân eglwysi gweiniaid i nychu a newynu. Meddant 436 o dai gweinidogion, ar gyfer 99 yn Nghymru. Rhifa y teuluoedd perthynol i'r achosion 80,444. Dyma ddull da iawn o gyfrif nerth eglwys. Arferai yr Efengylwyr ddywedyd "tair mil o wŷr heblaw gwragedd a phlant," ond rhagora yr Henaduriaethwyr Gwyddelig. Y *ciphers*—gwagnodau ganddynt hwy yw yr hen lanciau a'r hen ferched! Nifer eu cymunwyr yw 102,678, o'i gymharu â 134,239 gan y Methodistiaid Calfinaidd. Wrth reswm mae Cymru yn tra rhagori yn ei Hysgolion Sul. Mae gan y Gwyddelod 1101 o ysgolion, 9017 o athrawon ac athrawesau, a 102,958 o ysgolheigion, a 9872 yn aelodau o gyfarfodydd darllen. Dylid cofio nad oes neb ond yr ieuanc yn mynychu eu hysgolion hwy. Nifer Ysgolion Sul y Methodistiaid Calfinaidd ydyw 1533, athrawon ac athrawesau, 23,782; cyfanrif, 187,393, yn cynnwys swyddogion ac aelodau. Os ydynt yn llai eu nifer, y maent yn llawer cyfoethocach na ni; nis gallwn ddywedyd pa un ai hwy ai ni yw y mwyaf haelionus mewn cyfartaledd i'n moddion; ond hyn sydd sicr, fod eu cyfoethogion hwy yn cyfranu yn fwy anrhyddeddus nag y gwna yr eiddom ni, gydag ychydig eithriadau teilwng. Swm cyfalaf gwahanol gronfeydd yr Eglwys Bresbyteraidd yn yr Iwerddon eleni yw £924,486; tra y mae swm y derbyniadau blynyddol oddiwrthynt eleni yn £39,161. Cyfranwyd y llynedd £12,308 yn y ffurf o gymunroddion a chyfroddion; ac y mae cyfanswm derbyniadau yr Eglwys hon yn 1890 o bob cyfeiriad yn £222,626: o'r swm hwn cyfrenir at bob achos, cenadaethau, gweinidogaeth, dyled capelau, &c. £171,155 gan y cynnulleidfaoedd, ar gyfer £182,066 a gasglwyd gan y Methodistiaid yn Nghymru yn 1889. Swm eu dyled hwy yw £80,327, yn

ymyl ein dyled dywysogaidd ni o £306,540!

Sych ydyw ystadegau ar y goreu, ac felly awn rhagom at bethau mwy dyddorol. Ymysg adroddiadau eraill, cyflwynwyd un ar gadwraeth y Sabboth, a chafwyd dadl fywiog arno. Cwynid mewn rhai lleoedd mai un moddion cyhoeddus a gynnelid y Sabboth, ac mai teneu iawn oedd y cynnulliad yn y cyfarfodydd gweddi, a bod llu mawr o eglwysi heb un moddion wythnosol o gwbl ynddynt. Condemniai yr adroddiad yn llym iawn waith aelodau eglwysig yn oedi prynu eu nwyddau hyd yn hwyr nos Sadwrn, ac felly anghymhwyso masnachwyr i gadw y Sabboth, a mynychu moddion y dydd dilynol. Mae mawr anghen galw sylw at yr un peth yn Nghymru. Dwrdient hwythau hefyd yn herwydd y *bona fide traveller*. Ymddengys fod cyfarwyddwyr rhyw reilffordd wedi rhoddi prawf ar beiriant newydd ar y dydd Sabboth, ychydig amser yn ol, yr hyn a barodd eiddigedd mawr. Yn ddiweddaf pasiwyd penderfyniad cryf yn erbyn teithio gyda'r trên a *tramcars* ar y Sabboth, a chollfarnid yn ddiarbed waith blaenoriaid eglwysi oedd yn chwilio am weinidog yn myned ar y Sabboth i wrando gweinidogion eglwysi cylchynol i edrych a wnaent y tro iddynt hwy. Beth, tybed, a ddywedai y Gymanfa pe gwelent lon'd cerbyd yn Nghymru yn myned i Gyfarfod Ysgolion chwech neu wyth milldir?

Rhaid prysuro ymlaen i sylwi ar weithrediadau dydd Iau, Gorphenaf 10, sef dydd Jubili Undeb dwy eglwys Henaduriaethol yr Iwerddon, yr hyn a gymerodd le yn ffurfiol ddydd Gwener, Gorphenaf 10fed, 1840, yn Eglwys Rosemary Street, dan lywyddiaeth gweinidog yr Eglwys hono. Yr oedd dydd Iau yn ddiwrnod heulog a chynhes, ac felly daeth tyrfa lïosog ynghyd, nes llenwi yr adeilad. Dechreuwyd y moddion gan Prof. J. G. Murphy, D.D., LL.D., hen ŵr oedd yn cofio yr uniad yn dda. Wedi hyny darllenwyd papyr neillduol o ddyddorol gan Dr. Wilson ar hanes yr Henaduriaethwyr cyn yr Undeb.

Estroniaid o Scotland yw trigolion Ulster gan mwyaf, a blanwyd yn y tir fel gwarcheidwaid ar ol gwrthryfel Iarllod Tyrone a Tyrconnell yn amser Iago I. Am hyny byddai eu hen dadau yn hoff iawn o ganu y Salm hono:—

"Dygaist o'r Aipht winwydden îr,
Rhoist iddi dir i dyfu;
A'r holl genedloedd o bob man
Droist allan cyn ei phlanu."

Beth bynag am gyfiawnder ymddygiad y brenin, bu bendith fawr ac amlwg ar y dyeithriaid, a gwnaethant i'r anialwch flodeuo fel gardd. Cyn hir ar ol sefydliad y drefedigaeth torodd diwygiad grymus yn eu mysg, prif nodweddion yr hwn oeddynt "syched angerddol am wrando pregethu," gorfoledd dan y weinidogaeth, a rhai cynnulleidfaoedd yn treulio nosweithiau cyfain i weddïo. Dychwelwyd llu mawr at grefydd. Pan aeth y son am hyn ar led, daeth tyrfäoedd eraill drosodd o Scotland i gael cyfranogi o'r un bendithion. Ymhlith y gweinidogion ymroddedig a lafurient yn Ulster yr oedd y Parch. Josias Welsh, ŵyr i John Knox. Gorfodwyd ef ar un amgylchiad gan erledigaeth i ffoi i Scotland, a dywedir fod 500 o bobl wedi croesi drosodd o'r Iwerddon i Stranraer, yn yr Alban—pellder o 40 milldir dros fôr neillduol o dymhestlog—er mwyn cael bod yn bresennol mewn cymundeb a weinyddid ganddo. Gwelir fod gan lawer gwlad ei Llangeitho, ac fod hanes diwygiadau ymhob man rywbeth yn debyg. Cyn hir dechreuodd yr Eglwys Esgobaethol Wyddelig, fel ei mam Eglwys Rhufain, erlid y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, o'i gyferbynu â'r gwirionedd fel y mae mewn Esgob. Dyoddefodd yr Henaduriaethwyr bethau echryslawn yn amser Laud a Strafford. Yn 1642, yn Carrickfergus, tref henafol ar lan Lough (Loch) Belfast, sefydlwyd yr Henaduriaeth gyntaf yn yr Iwerddon, pryd yr oedd yn bresennol bum' gweinidog a phedwar blaenor. Pregethwyd oddiar y geiriau, "Gwna ddaioni yn dy ewyllysgarwch i Siön." Parhaodd yr erledigaeth dan deyrnasiad Charles II., trowyd llu o weinidogion allan am eu bod yn gwrthod cymeryd eu hail ordeinio gan Esgob. William y Trydydd, ar ei ffordd i frwydr y Boyne, a orchymynodd dalu y *Regium Donum*—y Rhodd Freninol—gyntaf i'r Presbyteriaid. Ond nid oedd y diwedd eto. Daeth Anne i'r orsedd, pasiwyd y *Sacramental Test*

Act—ac o hyny allan ni allai yr un Presbyteriad fod yn Gynghorwr Trefol nac Ustus Heddwch na dal unrhyw swydd dan y llywodraeth. Yn Londonderry collodd deg allan o'r deuddeg cynghorwyr eu swyddi. Dyma y ddinas y mae hanes ei gwarchae wedi ei ddarlunio mor fyw gan Macaulay. Y Presbyteriaid a amddiffynasant y lle, pan yr oedd yr Esgob yn cynghori ildio i'r Pabyddion, eto mae y gofadail sydd wedi ei chodi yno yn gyflwynedig i'r Rheithor Esgobaethol. Yr un traha! Eraill a lafuriasant a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur! Ymfudodd y bobl oreu i'r America—i wlad heb frenin nac esgob, yr hyn a wanychodd yr Henaduriaethwyr yn fawr, a'r canlyniad fu i ddirywiad pwysig gymeryd lle: daeth cyfeiliornadau, a bydolrwydd i mewn i'r eglwys; dechreuasant ymadael oddiwrth eu hen gredo, sef Cyffes Westminster. Gallwn ddywedyd wrth fyned heibio, fod y Gwyddelod hyn yn Galfiniaid cedyrn iawn. Clywsom amryw yn chwyrnu yn dost o herwydd fod y Presbyteriaid yn Lloegr wedi bod wrthi yn ceisio ail bobi eu credo. Rhyfedd iawn hefyd, fe ddywedwyd wrthym gan un oedd yn awdurdod ar y pwnc, mai *Cyffes Ffydd* y Methodistiaid oedd y gulaf o honynt oll yn eu herthygl ar y Prynedigaeth. Synent ein bod byth yn gallu arwyddnodi y fath osodiad. Dywedasom ninnau, nad oeddym ni yn arwyddnodi y *Cyffes Ffydd*, ond yn ei dderbyn yn ei grynswth trwy wneyd amnaid ar ddydd ein hordeiniad, a'n bod yn ei dderbyn megys y derbynir pechadur fel y mae—i'w buro a'i fywhau trwy ein buchedd a'n gweinidogaeth. Ond i ddychwelyd, parodd y difrawder hwn ymraniad yn cyfateb i'r *Secession Church* yn yr Alban. Rhoddwyd hanes yr Undeb—"The Story of the Union," gan y Parch. W. D. Killen, D.D., hen ŵr dros ei bedwar ugain, a'i wallt yn wŷn, a'i lais braidd yn doredig, er hyny yr oedd yn weddol glywadwy ymhob rhan o'r adeilad, ac yn sicr nid oedd dim arwyddion henaint ar y papyr maith, dyddorol a hynod fywiog a ddarllenwyd ganddo. Fel Ioan, ei destyn oedd, yr hyn a glywodd, yr hyn a welodd â'i lygaid, yr hyn a edrychodd arno, ac am hyny nis gallai lai na bod yn werth ei wrando.

Ffaith ryfedd yn hanes yr Henaduriaethwyr ydyw eu bod, mewn llawer man, wedi gwyro at Undodiaeth. Felly y bu yn Neheudir Cymru a gwledydd eraill; ac ymddengys fod lefain Ariaeth wedi treiddio yn helaeth trwy yr eglwys yn yr Iwerddon. Yn Nghymanfa 1828 ymladdwyd brwydr fawr rhwng y Parch. Henry Montgomery, o Dunmurry, a'r Parch. Henry Cooke, o Killi-leagh, ar y pwnc. Ymosododd y cyntaf ar Dr. Cooke, fel arweinydd y blaid uniongred, mewn araeth faith a hynod hyawdl. Wedi iddo eistedd, gohiriwyd y cyfarfod am hanner awr, er mwyn cael amser i anadlu ac ymbwyllo ar ol y fath araethyddiaeth. Dywedir fod y cyffro yn Nhŷ y Cyffredin yn gyffelyb ar ol gwrando un o areithiau Sheridan, fel y gorfuwyd gohirio yr eisteddiad er mwyn i'r aelodau gael amser i oeri. Wedi y gohiriad, traddododd Dr. Cooke atebiad oedd yn chwilfriwio holl osodiadau ei wrthwynebydd. Difyfyr oedd ei atebiad, ond siaradodd am ddwy awr, a dywedai Dr. Killen na wrandawodd erioed ar ddim mwy gorchfygol. "Nis gallaf," meddai, "byth anghofio yr argraff ryfedd a wnaeth arnaf. Teimlwn nad oeddwn erioed wedi amgyffred yn iawn beth oedd gallu athrylith." Yn ganlynol ymadawodd 17 o weinidogion yn heddychol, a glanhäwyd Presbyteriaeth oddiwrth haint Ariaeth. Ond yr oedd dwy eglwys Bresbyteraidd yn llafurio ochr yn ochr yn Ulster, y ddwy yn un o ran athrawiaeth a llywodraeth eglwysig, ac hefyd ill dwy yn derbyn y rhodd flynyddol gan y Llywodraeth. Anhawdd oedd ysgogi yr Arweinwyr, ond daeth ymwared o gyfeiriad y myfyrwyr yn Ngholeg Belfast. Dechreuodd myfyrwyr y ddwy eglwys gynnal cyfarfodydd gweddi undebol. Ymledodd y teimlad, ac yn 1840 cyflawnwyd yr hen rwyg, a galwyd yr eglwys newydd yn "Eglwys Bresbyteraidd yr Iwerddon." Onid oes yma ddammeg i ninnau yn Nghymru? Gwelwn nad yw tywysogion Judah ac Ephraim yn hiraethu o galon bur yn helaeth am Undeb Colegau, na dim arall; ond pwy a ŵyr nad oes gobaith o gyfeiriad y myfyrwyr, ac na bydd myfyrwyr y Bala a Threfecca yn rhwymyn undeb rhwng De a Gogledd?

Dydd i'w gofio yn Belfast oedd

dydd Gwener, Gorphenaf 10, 1840· Cychwynodd dwy orymdaith—un o weinidogion a blaenoriaid Synod Ulster, o Gapel May Street, yn cael eu blaenori gan y Parch. James Elder, y llywydd, a'r llall o weinidogion a blaenoriaid y *Secession Synod*, o gapel Linen Hall Street, yn cael eu harwain gan y Parch. John Rogers, y Llywydd. Cyfarfu y ddwy orymdaith ar gongl un o'r heolydd, a daethant ynghyd i gapel Rosemary Street, lle yr oedd tyrfa enfawr yn eu dysgwyl. Dewiswyd Dr. Samuel Hanna, gweinidog yr eglwys hono yn Llywydd cyntaf, a chanwyd Psalm cxxii. gydag ysbryd a brwdfrydedd anarferol:—

"I dŷ 'r Arglwydd, pan dd'wedent, Awn,
Im' llawen iawn oedd gwrando:
Sai 'n traed o fewn Caersalem byrth,
Yr un ni syrth oddiyno."

Ffrwyth cyntaf yr Undeb oedd sefydlu Cymdeithas Genadol. Neilldüwyd dau Genadwr i fyned i'r India yn y Gymanfa hono. O hyny hyd heddyw cyflawnodd Henaduriaethwyr yr Iwerddon waith ardderchog ar y maes Cenadol yn India, China, ymhlith yr Iuddewon ar wasgar, ac yn Neheudir yr Iwerddon, heblaw cynnorthwyo Cenadaethau eraill ar y Cyfandir. Ni chaniatâ gofod i ni ymhelaethu ar y pen hwn. Haedda ysgrif iddo ei hun. Yn unig dywedwn fod y casgliad Cenadol cynnulleidfäol y flwyddyn ddiweddaf yn £6261; ac erbyn ychwanegu rhoddion eraill, megys cymun a chyfroddion, a rhoddion Cymdeithas Genadol y Chwiorydd, chwyddir y swm i £15,673; ac erbyn cymeryd i mewn y *Zenana Mission*, cyrhaedda offrwm Cenadol Eglwys Bresbyteraidd yr Iwerddon i tua £30,000. Nid ydym mor sicr ein bod yn deall ystadegaeth yr achosion Cenadol, ac felly dichon ein bod yn gwneuthur cam â hwynt. Dechreuodd eu llafur hwythau yn 1841 fel yr eiddom ninnau. Yn India, nifer eu cyflawn aelodau mewn 18 gorsaf yw 390; yr oll a fedyddiwyd, 1679; pawb mewn cysylltiad â'r eglwysi brodorol, 2149; yr holl blant yn eu hysgolion, 3379. Ymddengys i ni ar yr olwg gyntaf fod Cenadaeth fechan Khasia yn fwy llwyddiannus, a bod mwy o waith yn cael ei wneyd am lai o arian o lawer gan y Cymry. Rhifa y cymunwyr yn Khasia 1869; a'r ymgeiswyr am aelodaeth, 1728, yn ol cyfrif 1889; y gwrandäwyr, 8424, a'r plant yn yr ysgolion dyddiol, 4134; tra mae aelodau yr Ysgolion Sul yn 7013, a'r holl aelodau eglwysig yn 6054. Cyfranwyd hefyd gan y brodorion, 4523 o *rupees*. Gwelsom yn eglur iawn yn Belfast, nad oedd raid i'r Methodistiaid ostwng pen yn herwydd llwyddiant eu Cenadaeth. Yr ydym yn llawer rhy dueddol, mewn rhai cyfeiriadau, i dybio fod ein cymydogion yn rhagori yn fawr arnom, ond dylem adnabod ein nerth yn gystal ag adnabod ein gwendid. Diammeu fod i ni nerth fel Cymry a Methodistiaid, ar y maes cenadol, o'n cymharu âg eglwysi eraill. Nid oes un esboniad arall i'w roddi ar lwyddiant y Genadaeth yn Khasia. Gwir mai ar y Bryniau y llafuriasom hyd yma, ac fod yn haws cyrhaedd trigolion y bryniau na thrigolion y gwastadedd, ond nid yw y ffaith hono yn ddigon i roddi cyfrif am yr holl wahaniaeth yn ffrwyth hanner can' mlynedd o ymdrech cenadol gan y Presbyteriaid a'r Methodistiad Cymreig yn India. Gallwn fentro credu tipyn ynom ein hunain, nid mewn hunan-hyder, ond fel offerynau yn llaw Ysbryd Duw, llawn cystal i gyflawni gwaith ar y maes Cenadol ag unrhyw bobl eraill. Dyma un wers gysurus a ddysgasom yn yr Iwerddon.

Un cysgod tywyll a welem ar eu ffurfafen, ond y mae hwnw yn un lled ddu, sef diffyg ymdrechion Cenadol gartref. Nid oes yno nemawr o fyned allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau i gymhell rhai i ddyfod i mewn—dim gwaith tebyg i'r hyn a wneir gan y Presbyteriaid yn Glasgow a Llundain, ac yn Edinburgh, ac a wneir gan ein cydwladwr llwyddiannus, y Parch. John Pugh yn Caerdydd yn awr, ac a wnaed o'r blaen ganddo yn Tredegar a Phontypridd, trwy adeiladu achosion newyddion. Diau y deffröant at hyn cyn hir, oblegid y maent yn caru yr Arglwydd Iesu, ac yn medru aberthu.

Wele ni wedi crwydro eto, er hwyrach mai nid annerbyniol gan y darllenydd ydyw troi oddiar y ffordd ac aros enyd ar "lân dwfr gloywlas araf" fel hyn.

Cyn terfynu cyffyrddodd Dr. Killen â mater arall a deimlem ni o Gymru

oedd yn dal perthynas agos â ni. Yn yr amser gynt, meddai, arferai dyn gerdded i eglwys yr Henaduriaethwyr uniongred—*old lights*, fel eu gelwid; pan y llwyddai yn y byd, elai mewn cerbyd prydferth i Eglwys y Presbyteriaid Undodaidd—*new lights;* pan lwyddai ychwaneg gyrai yn ei *carriage* i'r Eglwys Esgobaethaethol. Erbyn hyn mae Undodiaeth wedi colli ei bri, gwir fod gan yr Eglwys Esgobaethol dipyn o swyn "*faded gentility*" — boneddigeiddrwydd gwywedig, "ac yn awr ac eilwaith gwelir ambell loewyn byw ffasiynol ac ambell enaid ansefydlog yn ymuno â'r Esgobaethwyr; ond gŵyr pawb deallus na chaiff eu meddyliau eu cryfhau, na'u gwybodaeth grefyddol ei hychwanegu, na'u moesau eu gwellhau, na lles uwchaf eu teuluoedd ei gynnyddu trwy iddynt fyned drosodd at yr Esgobaethwyr." Dyna eiriau difloesgni y Presbyteriaid Gwyddelig am drahausder ac eiddilwch Eglwys Loegr. Yn ddiweddar bu Archegob Armagh yn chwyrnu arnynt, ac yn annog y clerigwyr i ymddidol oddiwrth yr Henaduriaethwyr, ond gafaelodd Mr. Clark, y Cynlywydd, ynddo, ac ysgytiodd ef yn y fath fodd ag a dueddai i'w attal i chwyrnu yn y dyfodol. Gofynasom, mewn canlyniad i'r sylw hwn, pa fath rai oedd clerigwyr a churadiaid yr Eglwys yn Ulster, a dywedwyd wrthym fod llawer o honynt yn ddynion da, ond llawer o honynt hefyd yn anwybodus a neillduol o ddiddawn, a'u bod yn tueddbenu yn gadarn at *puppyism*.*

Yn nesaf cafwyd anerchiad rhagorol gan y Parch. William Magill, D.D., ar fedydd yr Ysbryd Glân. Yn ddilynol darllenwyd papyr ar sefyllfa arianol y Presbyteriaid yn ystod hanner can' mlynedd. Yr ydym eisoes wedi sylwi ar lawer o gynnwysiad y papyr hwn. Nodwn un ffaith ychwanegol. Pan ddadsefydlwyd yr Eglwys Wyddelig, yr oedd *Commutation* y *Regium Donum*,—y rhodd freninol, yn d'od i dros hanner miliwn o bunnau i'r Henaduriaethwyr. Yr oedd gan bob gweinidog hawl i'w gyfran o hwn, ac i ddynion gweddol ieuainc yr oedd y swm yn swm mawr; ond gydag ychydig iawn o eithriadau darfu i'r holl weinidogion drosglwyddo eu hawl i'r arian hwn i'r Eglwys i ffurfio cronfa gynnaliaethol. Dyma engraifft neillduol o ymddygiad diariangar. "Ië," medd rhywun, "onid dyna y peth doethaf allent wneyd at y dyfodol?" Gwir fod cyflogau y gweinidogion Presbyteraidd yn uwch yn awr na'r pryd hyny, ond y mae yn gofyn cryn ffydd i roddi i fyny gannoedd, a rhai gweinidogion dros fil o bunnau, yr oedd ganddynt hawl gyfreithiol iddynt, ac i gredu fod yn yr ystyr yma ddau dderyn mewn llwyn yn well nag un mewn llaw.

Am chwech nos Iau cynnaliwyd *public reception*—wel! Mr. Golygydd, beth yw hyny yn Nghymraeg? a wnaiff "croesawiad cyhoeddus" y tro fel aralleiriad? Cynnelid y cyfarfod hwn yn y Botanic Gardens — eto, beth yw yr Omeraeg am y cyfryw le? dilys nad "gerddi llysieuol," oblegid mae pob gardd, oddigerth gardd y diogyn, yn ardd lysieuol, ac yn wir mae drain a mïeri hono yn llysiau, ond nad ydynt "lysiau cymhwys." Beth feddyliech am ei galw yn "Ardd Eden y dyddiau presennol?" Math o barc mawr oedd yr ardd hon yn llawn blodau a choed, llynoedd a rhodfeydd, tai palmwydd a thai gwydr eraill, yn cynnwys pob math o flodau amryliw ac ardderchog. Yn gyntaf darperid tê a phob danteithion gan faer a marsiandwyr y ddinas. Gwelsom yma ddwy Gymraes. Yn y cyfarfod ar ol, mewn pabell agored, cafwyd anerchiadau gan y dyeithriaid, megys Dr. Blaikie, Edinburgh; Dr. J. Hall, New York; Dr. Parry, Carno; Dr. Comba, o'r Ital; Dr. Marshal Lang, o Glasgow, ac eraill. Yr oedd seindorf y "Black Watch" yn yr ardd yn chwareu darnau prydferth rhwng yr areithiau, ac weithiau ar eu traws os byddai y llefarwr yn rhy faith. Cyfarfod siriol dros ben oedd hwn, pawb yn canmawl pawb arall, a phawb yn teimlo eu bod hwy eu hunain yn haeddu yr holl ganmoliaeth. Casglem oddiwrth yr areithiau mai y prif rinwedd cyrhaeddadwy i ddyn oedd bod yn Henaduriaethwr Gwyddelig neu Ysgotaidd, a theimlem nad oedd yn y byd drwg presennol nemawr

* Perygl yw defnyddio gair Seisonig yn y Drysorfa, am hyny prysurwn i roddi cyfieithiad o'r uchod. *Puppyism* ydyw ci-bachyddiaeth.

rinwedd gwerth ei feithrin ond hwn. Yr oedd Dr. Marshal Lang yno i gynnrychioli y Pan-Presbyterian Council. Gŵr boneddigaidd yr olwg arno yw efe, tàl a lluniaidd, siaradwr da, ond braidd yn fursenaidd yn ei acen a'i ystum. Dichon nad yw hyn ond dull, a bod y dyn yn hollol ddirodres. Dywedai yn ei araeth gan mai noswaith lysieuol oedd hono, eu bod mae'n debyg yn dymuno cael hyny o flodau araethyddiaeth ag oedd bosibl; a chan mai cynnrychioli y Pan-Presbyterian Council yr oedd Dr. Blaikie ac yntau, hwy felly oedd "*pansies*" y cyfarfod (cymeradwyaeth fyddarol). Yna aeth rhagddo i roddi hergwd i Mr. Gladstone a'i Ymreolaeth, a derbyniodd gymeradwyaeth fwy fyth. Un o'r Waldensiaid yw Dr. Comba. Sieryd Saesoneg yn dda, a rhoddodd adroddiad call a dyddorol am ystad eu heglwys yn yr Ital, a chyn terfynu bu yn dyrnu tipyn ar y Pab—gorchwyl a fwynheid yn fawr gan y dyrfa. Arwr yr hwyr oedd Dr. John Hall, New York. Clywsom ef yn siarad dair gwaith, a'i ni flinem yn ei wrando yn fuan. Brodor o Ulster yw Dr. Hall, a bu fwy nag unwaith yn ymweled â'n Cymdeithasfaoedd yn Mangor a Chaernarfon. Gŵr tàl, corffol yw, o wneuthuriad cadarn. Mae ei wyneb llyfn a rhadlon yn ein hadgofio o Mr. Rees a Mr. Joseph Thomas. Sieryd yn glir a phwyllog. Nodweddir ef gan synwyr cyffredin cryf ac *humour* lawer, yn fwy na chan allu meddyliol a threiddgarwch. Rhoddodd olwg hynod galonogol ar waith yr Arglwydd ymhlith y Presbyteriaid yn America. Teimlem wrth ei wrando yntau hefyd mai peth ardderchog oedd bod yn Wyddel neu Ysgotyn, ac mai hwy oedd wedi gwneyd bron y cwbl o ddaioni yn America, er creadigaeth y byd. Rywsut yr oeddym yn hollol foddlawn i hyny fod, oblegid gwelem mai pobl odidog oeddynt, wedi eu galw ac wedi eu cynnysgaeddu â chalonau a dawn i wneyd gwaith yn y winllan fawr nas gallai neb arall ar hyn o bryd ei wneyd gystal. Ymddengys fod Presbyteriaeth yn ysgubo pobpeth o'i blaen yn Canada ac yn yr Unol Daleithiau, a'i bod ymhob man yn ffyddlawn i'r hen wirionedd.

Wel, pa fodd y darfu i chwi, y Cymry, siarad, a pha fath dderbyniad a gawsoch? Cawsom ein pedwar ddyweyd gair. Ni ddarfu i'r un o honom siarad cystal â Dr. Hall, na chan saled â rhai o'r Ysgotiaid; hwyrach mai y rheswm am hyny ydoedd ein bod yn fyrach. Nos Wener am saith y derbyniwyd y ddirprwyaeth Gymreig ymhlith dirprwyaethau eraill. Byr oedd ein hamser, ond nid hwy a gyfyngodd arnom, ond ein trefniadau ni ein hunain oedd yn ein gorfodi i ddychwelyd y noswaith hono. Cawsom dderbyniad caredig iawn. Eglur yw fod ganddynt barch mawr i'r Methodistiaid Cymreig. Dywedai y Llywydd wrth ein hanerch ac ysgwyd llaw â ni dros y Gymanfa, eu bod wedi darllen hanes Daniel Rowland, Howell Harris, a Thomas Charles y Bala, eu bod yn gwybod y pethau chwerwon a ddywedid am danom gan frodyr gau, ond eu bod hwy yn credu ynom fel gweithwyr difefl yn Nghymru, a bod enw Dr. Charles Edwards, Aberystwyth, yn enw o awdurdod trwy y byd Protestanaidd. Siaradodd Dr. Lynd ychydig eiriau caredig—efe a fu drosodd yn Liverpool Mai diweddaf. Fe'n hysbyswyd hefyd eu bod wedi penderfynu danfon dirprwyaeth i'n Cymanfa Gyffredinol nesaf.

Ni bydd'i ein hadroddiad yn gyflawn heb i ni son gair am y pwnc gwleidyddol. Tarawyd ni â syndod i ddeall nad oedd dau feddwl ymhlith yr holl Henaduriaethwyr parthed Ymreolaeth Wyddelig. Yr oeddynt oll yn greulawn yn erbyn cynnygion Mr. Gladstone i'w gwerthu yn rhwym draed a dwylaw i allu y Pabyddion. Yr oedd hyn yn troi i fyny ymhob gweddi, adroddiad, araeth ac ymddyddan wrth y bwrdd ac ar yr heol. Ofer ceisio ymresymu â hwynt, yr oeddynt hwy yn adnabod y Pabyddion, gwyddent mor ddiegwyddor yw yr offeiriaid, ac fel y mae y werin yn eu llaw. Credent mai eu gwaith cyntaf fyddai dinystrio eu haddysg wladol, a chyfyngu ar eu rhyddid. Nid penboethiaid a siaradent fel hyn, ond y dynion goreu, mwyaf pwyllog, deallus, a duwiolaf yn ddiau a fedd yr Iwerddon. Ymhob araeth a wnaeth Dr. Hall, cyfeiriai at y pwnc gyda theimlad dwfn, yn yr hwn y cyfranogai ei wrandawyr. Pwnc crefyddol ydyw ganddynt hwy, ac fel y cyfryw y traethai y Llywydd a'r cyn-Lywydd arno yn eu hanerch-

iadau. Mae yn ddigon amlwg na dderbynia Ulster *Home Rule Bill* tebyg i un diweddaf Mr. Gladstone; boddlonent i gael Cynghorau Sirol a Thalaethol, ond Senedd Wyddelig yn Nublin tan arweiniad Mr. Parnell nis mynant.

Tebyg i anystyriaeth ydyw gwaith dyeithriaid yn beirniadu dynion mor dda a deallus, ond ymddangosai i ni eu bod yn Ulster heb feddu digon o ffydd yn natur ddynol y Gwyddel Celtaidd ac yn nerth anorchfygol goleuni, rhyddid a gwirionedd i ddarostwng pob trais ac ofergoeledd. Nid oes ar y Babaeth eisieu ymreolaeth, a diau mai un o ganlyniadau cyntaf y weithred hon o gyfiawnder yn yr Iwerddon fydd tori iau gorthrwm yr Offeiriaid Pabaidd.

Er fod yr ysgrif yn faith, hwyrach y caniateir i ni wneyd tri sylw cyffredinol. Mewn cylchgrawn Methodistaidd yr ydym yn ysgrifenu, ac i Fethodistiaid, ac am hyny nid ydym yn son am un enwad na chyfundeb arall yn Nghymru, a chredwn hefyd nad ydym yn euog o ymffrost wâg. Ni ddymunem ddirmygu nac anwybyddu ein brodyr Ymneillduol eraill, ond â'r Corff y mae a fynom yn bresennol, ac felly na chamddealler, ac na chamddefnyddier ein geiriau.

I. Gwelsom eisoes nad yw y Presbyteriaid Gwyddelig yn rhagori arnom fel eglwys—mewn nifer na gweithgarwch, ond eto y fath enw sydd iddynt, a'r fath ddylanwad a feddant mewn cylchoedd eang rhagor y Methodistiaid. Beth yw y rheswm am hyn: (1) Maent yn hŷn eglwys o fwy na chan' mlynedd. (2) Hanasant o eglwys sefydledig yr Alban, a buont am ddau can' mlynedd mewn rhyw fath o gysylltiad â'r wladwriaeth, trwy eu bod yn derbyn y *Regium Donum*. Rhoddodd hyn safle anrhydeddus iddynt yn y byd hwn. Arferai Mr. Gladstone hyd yn ddiweddar ymgynghori â hwynt cyn cynnyg mesurau Gwyddelig yn y Senedd. (3.) Maent yn fwy ymwybodol o'u nerth a'u galwad nag ydym ni. Credant hwy mewn Presbyteriaeth, fel y ffurf oreu ar lywodraeth eglwysig, credant yn ddiysgog yn eu golygiadau athrawiaethol; ac y maent yn falch o'u heglwys, a'i hanes. Onid ydym ni yn dueddol i fyned yn llac yn y pethau yma? A ydyw y Methodistiaid presennol mor gadarn yn y ffydd ag ydoedd y tadau? Diffyg y cadernid hwn yw yr achos fod ugeiniau os nad cannoedd bob blwyddyn yn colli o'n mysg at enwadau eraill sydd am ryw reswm yn tynu mwy o sylw ac yn derbyn mwy o warogaeth. Mae llu o'n pobl sydd yn ymgyfoethogi yn llithro at y Presbyteriaid Seisonig fel pe byddent hwy bobl rymusach a mwy anrhydeddus na'r Hen Gorff, tra mewn gwirionedd nad ydynt namyn llon'd ffedog yn ein hymyl. Mor wylaidd a gostyngedig ydym mewn llawer man nes bron a gofyn maddeuant yr enwadau eraill, ac yn enwedig yr Eglwys am feiddio bod. Ni ddywedwn hyn mewn ysbryd ymffrost, ond y mae yn wirionedd; ac ynfydrwydd a dallineb pechadurus ynom ninnau yw peidio ei gydnabod a byw dan ymdeimlad o'r ffaith—ni raid i'r Methodistiaid gwilyddio yn ymyl un corff o grefyddwyr yn y byd. Mae cael bod yn Fethodist yn anrhydedd, ac nid oes eisieu i neb ddechreu egluro, mewn dull gostyngedig, paham y mae yn Fethodist, ond gall godi ei ben a dywedyd, "Methodist wyf fi, beth ydych chwi?" Tipyn ychwaneg o ymdeimlad o'n nerth ac o'n cyfrifoldeb i Dduw fel pobl â gwaith pwysig wedi ei dori allan o'n blaen, gwaith nas gall neb arall ymaflyd ynddo mor hawdd â ni, a barai gyfnewidiad ebrwydd yn ein mysg. Yna ni thybid fod ynadon heddwch ac aelodau seneddol yn gosod bri arnom, na chyfoeth neb o'n haelodau, ond deuid i deimlo mai anrhydedd oedd i bob dosbarth gael perthyn i gorff sydd wedi ac yn parhau i gyflawni ei ran yn lled lwyddiannus yn ngwinllan ei Arglwydd.

II. Rheswm arall am eu dylanwad yw eu trefniadau rhagorach: gofalant yn well am y weinidogaeth, ac y mae ganddynt well arolygiaeth dros yr eglwysi. Mor druenus o ddiymgeledd yw ugeiniau o'n heglwysi ni yn Nghymru! Dihoenant dan deyrnasiad blaenoriaid cybyddlyd, neu drawdurdod a hunanoldeb pregethwyr masnachol ac amaethyddol. Rhaid fod yr achos wedi ei blanu dan gamp, neu buasai wedi marw er's talm mewn llawer ardal. Ni ddadleuwn dros weinidogaeth sefydlog,

ond credwn fod bugeiliaeth eglwysig, a hono yn un effeithiol, yn hollol anghenrheidiol, os ydym i fyw ac ennill nerth.

III. Mae eu gweinidogion hwy ar hyd eu hanes wedi derbyn gwell addysg na'r eiddom ni, yn enwedig yn yr amser gynt. Gŵyr pawb beth oedd yr achos o ddiffyg addysg yn Nghymru, ac hefyd hysbys yw yr ymdrechion ardderchog a wnaed yn y blynyddoedd diweddaf i ddwyn manteision addysg uchel i gyrhaedd y cyffredin. Yn awr mae y diffyg hwnw yn diflanu o'n plith. Diddadl yw fod addysg dda eu gweinidogion wedi dyrchafu eu heglwys, a'i chodi i fri. Nid ydym yn diystyru ein gweinidogion presennol o ran addysg. Gwyddom eu bod cystal os nad uwch o ran cyrhaeddiadau addysgol ag un dosbarth o weinidogion yn Nghymru, eto mae y mater hwn yn teilyngu ein sylw manylaf. Yn enwedig dylem feddwl mwy am ddefnyddio y wasg Saesoneg fel moddion i ledaenu gwybodaeth am danom, ac i eangu a dyfnhau ein dylanwad er daioni. Hyn a'n gwared oddiwrth ysbryd plwyfol, ac a'n gwna, gyda'n nodweddion eraill, yn bobl llawer mwy defnyddiol. Mor eiddil a diddawn yw pob ymddangosiad o'r eiddom yn y wasg Saesoneg hyd yma, a hyny nid o ddiffyg gallu, ond o ddiffyg ystyriaeth briodol o bwysigrwydd y wasg Saesoneg.

MR. DAVID DAVIES, LLANDINAM.

Gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., *Llandinam.*

PENNOD I.

Gan fod y newyddiaduron yn cynnwys hanes boddhaol am y prif ffeithiau yn mywyd Mr. Davies, ni cheisir yn y sylwadau hyn ond tynu amlinelliad anmherffaith o'r prif nodweddion a berthynai i'w gymeriad. Pan y mae haenau isaf crawen y ddaear yn ymwthio i fyny trwy y creigiau ac yn ymddyrchafu yn fynyddoedd uchelfrig fel yr Andes a'r Alps, gorfodir ni i gredu fod rhyw alluoedd tanddaearol cryfion yn gweithredu yn rymus dan eu sylfeini; ac, mewn modd cyffelyb pan y mae dynion yn codi o sefyllfa ddinod ac yn d'od yn adnabyddus i'r byd trwy eu hymdrechion llwyddiannus i gyrhaedd amcanion pwysig, arweinir ni yn anocheladwy gan ein rheswm i dynu y casgliad eu bod yn meddu ar ryw ragoriaethau meddyliol neu foesol uwchlaw y cyffredin.

Dechreuodd Mr. Davies ei yrfa mewn tyddyn bychan sydd yn ffinio ar dir gwyllt a mynyddig wrth odre y rhes o fynyddoedd sydd yn rhedeg rhwng Sir Drefaldwyn a Sir Faesy'ed ar yr ochr ddwyreiniol i ddyffryn yr Hafren, oddeutu tri chwarter milldir uwchlaw pentref Llandinam. Pan yn blentyn arferai ddringo yn aml i fyny eu llethrau serth er mwyn cyflawni y gorchwylion a orchymynid iddo gan ei rieni. Efe oedd yr hynaf o naw o blant, ac yn nyddiau ei blentyndod yr oedd yn fachgen bywiog, gweithgar, a pharod i gyflawni unrhyw galedwaith a allai i foddio ei fam, a'i galluogi i ddarparu ar gyfer anghenrheidiau ei theulu. Ar y mynyddoedd hyn yn moreu ei oes, mewn gweithredoedd o wasanaethgarwch i'w deulu, y rhoes yr arddangosiad cyntaf o'r gwroldeb, yr ŷni, a'r dyfalbarhâd a ddaethant yn llinellau mor amlwg yn ei gymeriad mewn blynyddoedd diweddarach. Yn hyn ni a welwn y sylfeini ar ba rai yr oedd ei gymeriad yn gorphwys. Y mae rhai dynion yn fflachio fel mellten nes hanner dallu y byd trwy ddysgleirdeb eu hathrylith, ond eu prif amcan yw cynnyrchu syndod ac ennill edmygedd eu cyd-ddynion, ond ni wawriodd y drychfeddwl erioed ar eu heneidiau mai yr amcan mwyaf teilwng o uchelgais dyn yw dyrchafu cyflwr ysbrydol, moesol, ac anianyddol ei gyd-ddynion. Ond y dueddfryd gryfaf a ddaeth i'r golwg yn machgen bychan Draintewion oedd ei barodrwydd i gyflawni yn llawen a dirwgnach unrhyw galedwaith a allai ar benau y mynyddoedd, neu ar hyd eu llethrau serth, ymysg y brwyn, y rhedyn a'r grug, er mwyn galluogi ei fam i ddwyn i fyny ei theulu yn onest a chysurus. Hon oedd y wir ysgol ymha un y rhoddwyd cyfeiriad i gwrs ei fywyd, ac yma y daeth prif nodweddion ei gymeriad gyntaf i'r golwg. Yr unig fanteision a gafodd i gyrhaedd elfenau dysgeidiaeth fydol oedd ychydig amser yn yr ysgol ddyddiol a gynnelid driugain mlynedd yn ol yn Hen Eglwys

y plwyf. Yr oedd yr amser yn rhy fyr, ac yntau yn rhy ieuanc yn ymadael â hi, sef 11eg oed, iddi gael llawer o ddylanwad ar ei feddwl. Felly y ddau gylch ymha rai y tröai, ac o dan ddylanwad pa rai y tyfodd yn y cyfnod cyntaf o'i fywyd, oedd y cylch teuluaidd a'r Ysgol Sabbothol. Pan symudodd y teulu i fyw o'r Draintewion i'r Neuaddfach (amaethdŷ cyfansoddedig o goed a chalch a safai hyd yn ddiweddar oddeutu dau led cae o'r ffordd sydd yn rhedeg ar hyd gwaelod y dyffryn, a'r un pellder o odre y mynyddoedd) cafodd y bachgen gylch eangach i roddi gweithrediad i ŷni ei gorff a medrusrwydd ei feddwl. Yr oedd ganddynt fwy o dir i'w ddiwyllio, ac yn ychwanegol at hyn yr oedd y tad a'i feibion wedi eangu cylch eu masnach. Yr oeddynt yn prynu coed, yn eu llifio yn blanciau, ac yn eu gwerthu i wahanol ranau o'r wlad, hyd at derfynau Sir Aberteifi. Byddent yn myned i ardaloedd eraill ar brydiau pan elwid am eu gwasanaeth, ac yn aros am beth amser mewn amaethdai. Yr oedd y bachgen hynaf, er nad oedd yn ugain oed, yn weithiwr mor galed fel nas gallai ei dad na'r un o'i frodyr ymgystadlu âg ef. Codai yn fore iawn, teithiai filldiroedd lawer, fel ag i fod gyda'i orchwyl yn brydlawn ar ddechreu y diwrnod; gweithiai â'i holl nerth heb gymeryd dim seibiant ond prin ddigon o amser i gymeryd ymborth, parhâi gyda'i waith hyd nes y byddai lleni y tywyllwch yn ymdaenu dros y ddaear; ac wedi noswaith o orphwys, codai gyda thoriad y wawr a pharhâi i lafurio gyda holl ŷni ei gorff hyd ddynesiad yr hwyr, fel ar y dydd blaenorol. Y mae ychydig o bersonau yn awr yn fyw sydd yn ei gofio ddeuddeg a deugain o flynyddoedd yn ol, a'u tystiolaeth yw, mai efe oedd y gweithiwr caletaf o lawer yn yr holl wlad. Nid oedd yn rhoddi dim cyfrif ar amser, ond ymdaflai gyda holl rym ei gorff ac egni ei feddwl i waith. Yr oedd wedi ei fendithio gan yr Arglwydd â chyfansoddiad anianyddol cryf, ac ynglŷn â hyn yr oedd yn cael ei symbylu gan awydd angerddol i gyflawni pob gorchwyl yn drwyadl, ac mewn mor ychydig ag oedd yn ddichonadwy o amser. Dywedir y gallai Napoleon farchogaeth a threfnu materion milwrol am ddiwrnodau yn olynol heb ond ychydig o oriau o gysgu; ac wedi ennill buddugoliaeth, y gallai gysgu am ddegau o oriau yn ddidor. Yr oedd gwrthddrych y sylwadau hyn yn gallu gwneyd peth cyffelyb. Pan yn gweithio gyda'i dad a'i frodyr, ac yn ddiweddarach, pan yn gwneyd ffyrdd a phontydd yn ei Sir enedigol, ac yn enwedig pan yn adeiladu rheilffordd yn Nyffryn Clwyd, bu ei feddwl a'i gorff ar eu llawn egni am ddyddiau a nosweithiau yn olynol, heb gael ond ychydig oriau o gysgu. Ymddangosodd y llwyr ymroddiad hwn i waith ynddo mor rymus yn yr ugain mlynedd cyntaf o'i fywyd, fel y dywedir i rai o'i gydweithwyr bron wneyd cam â'u cyrff wrth geisio cadw i fyny âg ef. Y mae'n sicr ei fod ef yn meddu ar y fath ŷni anianyddol, yr hwn a'i galluogai i barhau yn ddidor mewn llafurwaith corff a meddwl, fel nad oedd gan ddyn cyffredin, er gwneyd pob ymdrech, ddim gobaith i ymgystadlu âg ef. Ofer yw priodoli ei lwyddiant i ffawd, oblegid ni a welwn un o'r achosion o hono yma, sef yr ŷni anhysbyddadwy a nodweddai ei fywyd. Pe na buasai wedi codi uwchlaw safle cyffredin gweithiwr, gallesid ysgrifenu uwch ben ei fedd: "Pa beth bynag yr ymaflodd ei law ynddo, efe a'i gwnaeth â'i holl egni."

Pan oddeutu 20 oed collodd ei dad, a rhoes hyn symbyliad ychwanegol iddo i waith. Yr oedd ganddo bellach i ddarparu ar gyfer cynnaliaeth mam weddw ac wyth o frodyr a chwiorydd amddifaid. Parhaodd i lafurio gydag egni adnewyddol; a llwyddodd, trwy gyflawni pob gwaith yn drylwyr, yn onest, ac am bris rhesymol, i ennill ymddiried pawb y byddai unrhyw drafodaeth rhyngddo â hwy i eangu cylch ei fasnach, a gwneyd elw sylweddol at gynnaliaeth y teulu. Arferai, heblaw arolygu y gwaith mewn modd cyffredinol, dalu sylw neillduol i'w fanylion, a thrwy wneyd hyn darganfydddai bob gwall, a rhwystrai bob gwastraff. Edmygai weithiwr gonest ac egnïol hyd ddiweddd ei yrfa; ac er ei fod ef ei hunan yn llwyrymwrthodwr ar hyd ei oes, tystiai fod y diogddyn mor atgas yn ei olwg â'r meddwyn. Yn y cyfnod hwn yr enillodd ddigon o gyfoeth i'w alluogi i ymgymeryd âg anturiaethau

masnachol cyntaf ei einioes; a thra yn nghanol ymdrech galetaf ei fywyd, ymddygodd yn anrhydeddus at ei gydweithwyr trwy gymeryd y rhan drymaf o'r gwaith ar ei ysgwyddau ei hunan, a'u cydnabod hwythau yn deilwng am eu llafur, a chynnal ei fam weddw a'i phlant amddifaid ar yr un pryd. Tystiai yn aml mai y bwlch cyfyngaf ar ffordd dyn i gyfoeth ydyw yr adeg hono pan y mae'n ymdrechu casglu y mil punnau cyntaf. Wedi ennill un, credai y gallai dyn craff ac egnïol ddefnyddio hono fel sylfaen i godi goruwchadeilad arni. Ond nid yw ŷni anianyddol a gwroldeb ysbryd yn ddigon i arwain i lwyddiant parhaus. Rhaid meddu yn ychwanegol atynt onestrwydd ac anrhydedd, ac yr oedd yr ansoddau moesol hyn yn addurno ei gymeriad ef mewn modd nodedig o ddechreuad ei yrfa. Ni fu erioed esiampl fwy nodedig o wirioneedd y geiriau, "Rhyw un a wasgar ei dda, ac fe a chwanegir iddo." Ni fu Mr. Davies erioed yn fwy haelionus, ac ystyried ei amgylchiadau, nag yr oedd yn y cyfnod hwn o'i fywyd. Crybwyllwn un ffaith i ddangos hyn. Yr oedd addoldŷ y Methodistiaid yr adeg hon, yn Llandinam, yn gorwedd o dan swm o ddyled a ystyrid y pryd hwnw yn llethol. Appeliodd y diaconiaid am gynnorthwy i'w leihau. Diau i'r holl frawdoliaeth addunedu yn ol eu gallu, ond addawodd Mr. Davies swm mor anrhydeddus, fel mai prin yr oeddynt yn gallu credu fod ganddo foddion i gyflawni ei addewid. Ond gwyddai ef pa beth a allai ei wneyd, ac addawodd y swm, a chyflawnodd ei adduned gyda'r fath barodrwydd hunan-gynhyrfiol a chalon lawen, nes synu yr holl eglwys. Yr oedd hyn yn nodweddiadol o hono. Addawai yn sydyn yr hyn a fwriadai ei gyfranu, ac ofer fyddai ei roddi dan un math o ddirwasgiad. Ond wedi addaw, gellid dibynu ar ei air y byddai iddo gyflawni. Ymddangosai fel yn gweithredu yn fyrbwyll, dan gynhyrfiad y foment, ond yn hyn yr oedd un o brif elfenau ei lwyddiant. Yr oedd yn meddu ar fath o reddf feddyliol (*intuition*) i ganfod ar amrantiad yr hyn na buasai eraill yn gallu dyfod o hyd iddo ond trwy gadwen faith o ymresymiadau. Yr oedd yn meddu ar y gallu rhyfedd hwn mewn anturiaethau masnachol, a hyn a'i galluogai i benderfynu pa swm a gyfranai at achosion crefyddol. Gan iddo lwyddo i ymddyrchafu ymhell uwchlaw ei gydwladwyr yn y naill a'r llall, ni pherthyn i ni ammheu cywirdeb ei arweinydd. Nid ennillodd yr un fuddugoliaeth mewn masnach erioed heb gysegru cyfran helaeth o'r yspail at wasanaeth crefydd.

Fel hyn y dechreuodd ei fywyd, a'r prif linellau yn ei gymeriad oedd ei ŷni dihysbydd, ei deimlad tyner at ei rieni, ei ysbryd hunanymwadol, ei wroldeb, ei onestrwydd, a'i dueddfryd gref i weithredu ymhob amgylchiad yn anrhydeddus a haelionus. Meddai gyfuniad o ragoriaethau a'i galluogodd, nid yn unig i lwyddo mewn masnach, ond hefyd i wneyd gwasanaeth i addysg a chrefydd yn Nghymru, yr hwn a geidw ei enw yn beraroglaidd am oesoedd i ddyfod.

(I'w barhau.)

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI YR YSGOL SUL.

DOSBARTH IEUENGAF.

Gan y Parch. R. HUMPHREYS, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

MEDI 7FED. GEN. XIII. 1—11. ABRAM YN DYFOD I GANAAN, AC YN GWNEYD CYTUNDEB A LOT.

BYDDAI yn fuddiol i'r athraw holi y rhai ieuainc am yr oll sydd yn wybyddus o hanes Lot hyd yr adeg y cyfeirir ati yn ngwers y Sabboth hwn. Wrth wneyd hyny fe welir fod Abram a Lot yn debyg i'w gilydd mewn dau beth o leiaf. (1) Yr oedd y ddau wedi tori eu cysylltiad âg eilunaddoliaeth Ur, ac wedi dyfod yn weision yr Arglwydd. (2) Yr oedd y ddau hefyd wedi ymadael o Ur a dyfod i wlad Canaan. Ond yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng Abram a Lot er hyny, ac y mae y gwahaniaeth hwnw yn cael ei egluro yn y wers sydd yn dyfod dan sylw yn awr. Nid oes son am Lot yn myned gydag Abram i'r Aipht, ond diau ei fod wedi myned, oblegid dywedir yn adn. 1 ei fod gydag Abram yn dyfod oddiyno.

Wrth "y dehau" y meddylir y rhan ddeheuol o wlad Canaan. Yr oedd y deheubarth yn wlad uchel o'i chymharu â'r Aipht, am hyny fe ddywedir eu bod yn myned "i fyny" o'r Aipht. Ni fu Abram yn llwyddiannus mewn ystyr grefyddol yn ei ymweliad â'r Aipht, ond bu yn hynod felly mewn ystyr fydol. Cyfeirir yn y wers (adn. 2, 5) at ei gyfoeth ef a Lot ar eu mynediad o'r wlad. Yr oedd cyfoeth Abram yn gynnwysedig "o anifeiliaid, ac o arian ac aur," a chyfoeth Lot yn gynnwysedig o "ddefaid, a gwartheg, a pheb yll." Ni ddywedir fod gan Abram "arian ac aur" pan yr oedd yn myned i'r Aipht (gwel pen. xii. 16). Yr oedd wedi eu cael yn ddiau trwy fasnachu â thrigolion y wlad. Yn gymaint a bod gan Abram a Lot eiddo mawr, nis gallent deithio yn gyflym. Dangosir eu bod yn gwersyllu amryw weithiau ar y ffordd trwy y geiriau a ddywedir am Abram, "efe a aeth ar ei deithiau." Ystyr hyny yw, "efe a aeth o orsaf i orsaf." Yr oeddynt yn cyfeirio o gŵr deheuol gwlad Canaan tua'r mynydd, yn agos i Bethel, lle yr oedd yn flaenorol wedi adeiladu allor i'r Arglwydd. Y mae hanes yr amgylchiad hwnw i'w gael yn pen. xii. 8. Gofyner yn y dosbarth am yr hanes. Byddai gweled enwau y lleoedd y cyfeirir atynt yn y gwahanol wersi ar y *map* yn gymhorth gwerthfawr at eu deall a'u cofio. Ar ol cyrhaedd y mynydd rhwng Bethel a Hai, fe welodd Abram a Lot nas gallent drigo yno gyda'u gilydd. Yr oedd tri rheswm dros hyny, (1) Helaethrwydd eu cyfoeth. Yr oedd eu hanifeiliaid mor lliosog fel nad oedd y wlad yn gallu eu cynnal. (2) Cynhen rhwng bugeiliaid y ddau. Yr oedd yr ymryson yn codi oddiar fod y borfa yn brin. (3) Yr oedd rhai eraill heblaw hwy yn trigo yn y wlad, sef y Canaaneaid a'r Phereziaid. Y Canaaneaid oeddynt hiliogaeth Canaan mab Cham. Nid yw yn hysbys pwy oedd y Pherezïaid. Oddiwrth Jos. xi. 3; xvii. 15, ymddengys eu bod yn byw yn y coedwigoedd a'r mynyddoedd. Wrth benderfynu pa fodd i wneyd yn wyneb yr anhawsder hwn y mae y gwahaniaeth rhwng cymeriadau Abram a Lot yn dyfod i'r amlwg Yn ol pob ymddangosiad, yr oedd Lot yn barod i gweryla. Ond yr oedd Abram o ysbryd arall. Y mae yn llefaru yn heddychol wrth Lot ac yn annog i beidio a gadael i gynhen gyfodi rhyngddynt, "o herwydd brodyr ydym ni." Yr oedd Abram a Lot yn sefyll yn y berthynas naturiol o ewythr a nai, ond yr oeddynt hefyd yn frodyr o ran crefydd a chenedl. Annoga Abram ar iddynt ymadael yn heddychol â'u gilydd, a rhydd i Lot ei ddewis le i fyw (adn. 9). Yr oedd trwy hyn yn dangos ei hun yn ddyn tangnefeddus a haelfrydig ei ysbryd. Dangosodd Lot, o'r tu arall, gryn lawer o hunanoldeb. Yn lle gadael i Abram, fel yr hynaf a'r pwysicaf, a'r un oedd wedi cael yr addewid am y wlad yn etifeddiaeth, ddewis lle i fyw yn gyntaf, y mae Lot yn derbyn y cynnygiad ac yn gwneyd ei ddewisiad. Dewisodd Lot y rhan oreu a phrydferthaf o'r wlad, y dyffryn ar bob ochr i'r Iorddonen, yn cyrhaedd o lyn Gennesareth i'r Môr Marw. Dywedir fod y dyffryn yn gyffelyb i ardd yr Arglwydd ac i "dir yr Aipht." Wrth "ardd yr Arglwydd" y meddylir gardd Eden. Yr oedd dyffryn yr Iorddonen yn brydferth fel Paradwys a'r Aipht Yr oedd hefyd yn cael ei ddyfrhâu gan yr Iorddonen fel yr oedd Eden yn cael ei dyfrhau gan yr Euphrates a'r Aipht gan y Nile. Yr oedd y dewisiad hwn o eiddo Lot yn un anhapus iawn er hyny, am fod y trigolion yn bobl ddrygionus.

Medi 14eg. Gen. xiii. 12—18. Trydydd Gorphwysle Abram yn y Wlad.

Cymerwn yn ganiatäol fod y rhai sydd yn dysgu y gwersi yn defnyddio *map* yn gyson. Bydd yn hawdd iddynt weled wrth edrych arno mai troi ar y ddehau a wnaeth Lot pan y cafodd y cynnygiad gan Abram (adn. 9). Nid oes lle i feddwl fod Lot wedi gwneyd unrhyw ymchwiliad i gymeriad moesol preswylwyr y wlad. Yr oedd hyny yn gamgymeriad. Dylai yr athraw gymeryd mantais ar hyn i ddangos na ddylai neb, yn arbenig rhai ieuainc, fyned i fyw at eraill heb fynu gwybod i sicrwydd pa fath gymeriad fydd iddynt. Ar ol i Lot ddyfod i ddeall pa fath gymeriad oedd gan y bobl ni ymadawodd oddiwrthynt, ond efe a barhaodd i drigo gyda hwy. Yr oedd yn gosod ei hunan yn nghanol peryglon mawr wrth wneyd felly. Rhai o'r peryglon hyny oeddynt, (1) colli wyneb yr Arglwydd; (2) colli blas ar addoliad yr Arglwydd; (3) colli golwg ar y drwg sydd mewn pechod wrth fyw yn nghanol pobl yn pechu yn ddirfawr; (4) y perygl i'r plant a fegid gan Lot dyfu i fyny yn bechadurus fel pobl y wlad. Dylid sylwi ar y pethau hyn yn y dosbarth a'u cymhwyso at yr ieuenctyd. Yr oedd nifer dinasoedd y gwastadedd yn bump. Eu henwau oeddynt Sodom, Gomorrah, Admah, Seboim, a Bela neu Soar. Ond fe drigodd Abram yn nhir Canaan. Y mae tir Canaan pan yn cael ei wahaniaethu oddiwrth ddyffryn yr Iorddonen yn golygu y rhan hono o'r wlad oedd yn gorwedd rhwng

dyffryn yr Iorddonen a Môr y Canoldir. Sylwn ar y *map*. Yn y rhan nesaf o'r wers fe geir hanes trydydd ymddangosiad yr Arglwydd i'w was Abram Yr oedd yr ymddangosiad cyntaf yn Ur, a'r ail yn Sichem. Yn Ur addawodd yr Arglwydd fendithio Abram a'i wneyd yn genedlaeth fawr, ac y byddai i holl deuluoedd y ddaear gael eu bendithio ynddo. Yn Sichem addawodd yr Arglwydd, fel ychwanegiad, y byddai iddo roddi tir Canaan yn etifeddiaeth i Abram. Yn yr ymddangosiad hwn yn Bethel cyfeirir ei sylw at faintioli y wlad, a chyfarwyddir ef i'w hystyried fel ei eiddo ei hun, ac fel eiddo ei had "byth." Ymhellach ymlaen fe geir mesuriad mwy manwl o'r tir (pen. xv. 18). Yr oedd Bethel yn nghanol y wlad. Yr oedd mynydd yn agos i Bethel gan hyny yn lle manteisiol i gael golwg gyflawn arni. Ar ol i'r Arglwydd fod yn ymddyddan âg ef symudodd Abram o Bethel i Hebron. Dinas oedd Hebron tuag ugain milldir i'r de o Jerusalem. Gelwid hi hefyd wrth yr enw Caer Arba oddiwrth Arba, tad Anac, yr hwn fu yno yn frenin. Y ddau le blaenorol y bu Abram yn pabellu ynddynt oedd Sichem, tua 34 o filldiroedd i'r gogledd o Jerusalem, a Bethel, tuag 20 milldir i'r de o Sichem. Y mae gwers y Sul hwn a gwers y Sul o'r blaen yn dangos y gwahaniaeth rhwng Abram a Lot, a'r ddau gyfeiriad gwahanol a gymerasant. Aeth Lot i fysg pobl ddrwg ag yr oedd perygl i ganlyniadau poenus ddyfod iddo mewn canlyniad i'w waith yn myned atynt. Trigodd Abram mewn lle ag y cafodd ymweliad graslawn oddiwrth yr Arglwydd ynddo.

MEDI 21AIN. GEN. XIV. 1—16. ABRAM A LOT YN CYFARFOD EU GILYDD EILWAITH DAN AMGYLCHIADAU RHYFEDD.

Y mae dau beth yn gwneyd y wers hon yn ddyddorol. 1. Dangosir fel yr oedd dewisiad Lot o le i fyw yn dechreu dwyn ei ffrwyth naturiol. Dygir i'r golwg ynddi rai o nodweddion ardderchog cymeriad Abram. Y mae enwau dyrys yn y wers, a gormod yw dysgwyl i'r plant allu eu cofio. Hwyrach mai nid gormod fyddai dysgwyl iddynt gofio crynodeb byr o'r hanes fel y canlyn:—Yr oedd dinasoedd y gwastadedd, Sodom, Gomorrah, Admah, Seboim, a Bela, wedi bod am ddeuddeng mlynedd dan iau Cedorlaomer, brenin Elam, yn Mesopotamia Yr oedd yn byw tua dwy fil o filldiroedd o ddinasoedd y gwastadedd. Yn y dryd edd flwyddyn ar ddeg y mae y pum' dinas a enwyd yn penderfynu peidio ei wasanaethu yn hwy Yn y flwyddyn ddilynol, sef y bedwaredd ar ddeg o dymmor eu gwasanaeth, y mae Cedorlaomer, gyda thri o freninoedd eraill oedd yn byw yn yr un wlad ag ef, yn myned i ryfel â breninoedd y pum' dinas, er mwyn eu gorchfygu a'u gorfodi i barhau yn ei wasanaeth. Yr oedd pedwar brenin felly yn myned i ryfel yn erbyn pump. Yr oedd y frwydr yn cael ei hymladd "yn nyffryn Sidim." Yr oedd yr hyn a elwid yn ddyffryn Sidim, yn amser y rhyfel hwn, wedi dyfod yn fôr erbyn yr adeg yr oedd Moses yn ysgrifenu yr hanes, a gelwid ef yn "fôr heli." Yr un ydyw â'r Môr Marw. "Môr heli" y gelwir ef yn gyffredin yn y pum' llyfr ac yn llyfr Josua. Yr oedd dyffryn Sidim yn llawn o byllau clai. Nid clai fel y clai sydd adnabyddus i ni, ond math o ddefnydd gwydn a gafaelgar (gwel ar pen. xi. 3). Yr oedd lliosogrwydd y pyllau hyn yn gwneyd y dyffryn yn lle peryglus i ymladd brwydr arno. Y rhai a ennillodd y fuddugoliaeth yn y rhyfel oedd y pedwar brenin. Darfu i rai o'r pum' brenin a'u milwyr ffoi i'r mynydd, a syrthiodd y lleill yn y pyllau. Ar ol ennill y frwydr, aeth Cedorlaomer, a'r rhai oedd gydag ef, i fewn i'r dinasoedd ac a ysbeiliasant gartrefi y preswylwyr. Cymerasant gyda hwynt lawer o gyfoeth a charcharorion. Ymysg y carcharorion yr oedd Lot. Cymerasant ef a'i holl gyfoeth. Erbyn hyn, yr oedd Lot yn ddiau yn teimlo o ddifrif ei fod wedi camgymeryd wrth fyned i fyw at bobl ddrwg. Aeth un o'r rhai a ddiangodd i'r mynydd i ddyweyd yr hanes wrth "Abram yr Hebread." Dyma y tro cyntaf i'r gair Hebread gael ei gysylltu âg enw Abram. Y mae yn golygu "Abram, y gŵr dyaithr o'r tu draw i'r afon (Euphrates)." Yr oedd Abram yn gwersyllu o dan dderw Mamre (pen. xiii. 18). Pa beth a wnaeth Abram pan y clywodd am Lot yn garcharor, ac wedi colli ei gyfoeth? Buasai llawer un yn gadael iddo i ymdaro fel y mynai gan iddo ddewis myned i'r fath le i fyw. Ond nid felly Abram. Dangosodd efe ei ffyddlondeb at Lot fel câr a chyfaill mynwesol, trwy gasglu ei holl adnoddau at eu gilydd ac ymlid ar ol y breninoedd buddugoliaethus Daliodd hwynt mewn pentref o'r enw Hobah, tua dwy filldir o Damascus. Mewn brwydr yno efe a'u gorchfygodd, a gwaredodd Lot a'i holl eiddo oddiwrthynt. Y mae medrusrwydd Abram fel rhyfelwr yn dyfod i'r golwg yn ei waith yn llwyddo i orchfygu pedwar o freninoedd ag yr oedd pump o freninoedd y gwastadedd wedi methu eu gorchfygu.

MEDI 28AIN. GEN. XIV. 17—24. ABRAM YN CAEL EI LONGYFARCH GAN UN LLAI A CHAN UN MWY NAG EF EI HUN.

Arferiad pob oes yw llongyfarch rhai a ennillant fuddugoliaethau. Y ddau a ddaeth i longyfarch Abram oedd brenin Sodom a Melchisedec. Cyfarfyddodd brenin Sodom ef yn nyffryn Safeh. Ni wyddys yn sicr pa ddyffryn ydoedd hwnw. Y dyb fwyaf cyffredin yw mai dyffryn Cedron yn agos i Jerusalem ydoedd. Y pwysicaf o'r ddau oedd Melchisedec. Efe oedd brenin Salem. Yr hyn sydd debyg yw mai Jerusalem a feddylir wrth Salem (Sal. lxxvi. 2). Dygodd "fara a gwin" er adnewyddiad corfforol i Abram a'i wŷr ar ol y rhyfel. Yr oedd Melchisedec hefyd yn "offeiriad." Dyma y tro cyntaf y sonir am offeiriad yn y Bibl. Offeiriad yw un yn gwasanaethu, neu yn cyfryngu, gyda Duw dros eraill. Y mae dau beth yn y wers yn dangos fod Melchisedec yn uwch nag Abram. 1. Bendithiwyd Abram ganddo. "Yr hwn sydd leiaf a fendithir gan ei well" (Heb. vii. 7). 2. Talodd Abram ddegwm iddo. Degwm yw y ddegfed ran o unrhyw beth. Yma y ddegfed ran o'r ysbail rhyfel a feddylir. Y mae ymddygiad Abram at frenin Sodom yn wahanol, ac yn dangos ei fod yn ei ystyried yn un îs-raddol iddo er ei fod yn frenin. Gofynodd y brenin iddo am y carcharorion oedd wedi cael eu rhyddhau ganddo, a chynnygiodd yr holl gyfoeth yn anrheg iddo. Yn ei ateb, dywed Abram ei fod wedi gwneyd addunedi'r Arglwydd na chymerai ddim o'r cyfoeth, a'i fod am gadw ei addunedi; a thrwy hyn dengys ei fod yn ffyddlawn i'w addunedi ac yn ofni Duw. Dywed hefyd mai y rheswm dros iddo wneyd yr addunedi oedd rhag i frenin Sodom ymffrostio mai efe oedd wedi cyfoethogi Abram. Dengys hyn ei fod yn ddyn o annibyniaeth meddwl mawr. Yr oedd Mamre, dan lwŷn derw yr hwn yr oedd Abram yn trigo yn Hebron, ynghyd ag Escol ac Aner, brodyr Mamre, gydag ef yn y rhyfel, ac y mae Abram yn caniatâu iddynt hwy gymeryd eu rhan o'r ysbail. Cyfeirir at Melchisedec, heblaw yn y wers hon, yn Psa. cx. 4; Heb. v., vi., a vii. Yr oedd yn gysgod o Grist yn y pethau canlynol:—1. Yr oedd ei offeiriadaeth yn un gyffredinol. 2. Yr oedd yn uwchraddol i Abram—bendithiodd ef a chymerodd ddegwm ganddo. 3. Yr oedd yn frenin ac yn offeiriad. 4. Ni chrybwyllir am ddechreu na diwedd i'w offeiriadaeth. 5. Y mae ei enw "brenin cyfiawnder a brenin heddwch" yn cysgodi Crist fel Tywysog tangnefedd, ac fel un ag y mae teyrnwïalen ei deyrnas yn deyrnwïalen uniondeb.

DOSBARTH HYNAF.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Gan y GOLYGYDD.

SABBOTH, MEDI 7FED. HEB. IV. 1, 2.

ADN. 1: *Ofnwn gan hyny, gan fod addewid wedi ei adael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg o fod yn ol.* Y mae yr adran hon yn un o'r rhai, fel y sylwa Tholuck, "nad oes ond ychydig o'r esbonwyr wedi llwyddo i olrhain allan yn glir gysylltiad y meddyliau." Y rheswm am hyny yw fod esbonwyr wedi dyfod â'u syniadau eu hunain yn ormodol, a'u rhoddi yn y geiriau, yn lle rhoddi eu hunain i fyny yn hollol i'r geiriau. Wedi dangos o'r blaen unoliaeth bygythion y ddwy oruchwyliaeth, dengys yr awdwr yn awr unoliaeth yr addewidion. Wrth "fyned i mewn i'w orphwysfa ef" y golygir, nid gorphwysfa y nefoedd, ond yr orphwysfa ysbrydol—gorphwysfa Duw yn Nghrist o dan yr Efengyl, yr hon yn ddiau a berfeithir yn y nefoedd. Y mae y credadyn yn myned i mewn trwy ffydd i'r orphwysfa hon ar y ddaear. Y mae "addewid" am fyned i mewn i'r orphwysfa hon "wedi ei adael" (*gadael* a ddylasai y gair fod, gan mai yn y rhyw fenywaidd y mae y gair addewid yn Nymraeg). Paham y dywedir fod yr addewid wedi ei "gadael,"—yn hytrach na'i rhoddi? Dyma yr agoriad i'r ystyr. Y mae yr addewid fawr hon, sylwedd yr addewid am Ganaan, wedi ei *gadael* i ni—nid yw yr addewid wedi ei dyhysbyddu o dan yr Hen Destament. Yn wir, i ni y mae yr addewid hon yn arbenig; nid y gweddillion sydd wedi eu gadael, ond cyfoeth yr addewid; yr orphwysfa ysbrydol yn Nghrist o dan yr Efengyl yw sylwedd yr addewid. Beth ynte sydd i'w "ofni?" "Bod yn debyg o fod yn ol." Nid y tebygolrwydd o fod yn golledig a feddylir. Yr hyn y cynghorir hwynt i'w ofni ydyw—tybied eu bod hwy wedi syrthio yn fyr, eu bod yn rhy ddiweddar; tybied fod yr addewid wedi ei dyhysbyddu o dan yr Hen Destament, ac nad oes dim o honi wedi ei adael i ni. Fel hyn yr aralleiria un esboniwr: 'Ofnwn, cymerwn ofal, gan hyny (gan fod anghrediniaeth o hyd yn cau allan) rhag, tra y mae addewid eto i'w chyflawni, i neb o honoch dybied ei fod ef wedi dyfod yn rhy ddiweddar:' hyny yw, ei fod yn byw mewn amser pan y mae yr holl addewidion wedi eu hen gyflawni, ac nad oes iachawdwriaeth yn rhagor i'w dysgwyl, neu yr un a all hawlio ein hymdrech difrifol i'w chyrhaedd! Gwnai tybiaeth felly beri i ni esgeuluso a cholli yr addewid.

Adn. 2: *Canys i ninnau y pregethwyd yr efengyl, megys ag iddynt hwythau.* Dywedir hyn i ddangos fod rhywbeth wedi ei adael i ninnau, ïe, *mwy* nag oedd gan y tadau. "Y pregethwyd yr efengyl" neu y cyhoeddwyd newyddion da." Neu, "ni a efengyleiddiwyd." Golyga y gair gwreiddiol drwytho mewn efengyl, neu wrteithiad llwyr, triniaethiad trwyadl. *Eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy.* Neu "y gair a bregethwyd," —"gair y traddodiad." Trwy ffugyr o ymadrodd mynych yn y Bibl, golyga y geiriau "ni bu fuddiol" lawer mwy na'r hyn a ddywedir. Bu y gair o'i anghredu yn ddinystr iddynt. *Am nad oedd wedi ei gyd-dymheru â ffydd yn y rhai a'i clywsant.* Ymddengys fod mwy o awdurdod llawysgrifau o blaid y darlleniad "Am nad oeddynt (sef y bobl) wedi eu cyd-dymheru trwy ffydd â'r rhai a glywsant." Ni buasai hyn ond yr un peth a dyweyd nad oedd y rhai a wrthodasant gredu yn un â'r rhai a gredasant. Nid yw yn bosibl fod yr awdwr yn bwriadu dyweyd peth fel yna. Ac hyd yn nod pe buasai yn bwriadu ei ddyweyd, nid hawdd yw meddwl y buasai yn ei ddyweyd yn y dull yma—nad oedd un dosbarth o'r bobl "wedi eu cyd-dymheru trwy ffydd" â dosbarth arall o'r bobl. Darlleniad arall ydyw—"Am nad oedd wedi ei gyd-dymheru trwy ffydd â'r rhai a glywsant." Credwn mai hwn yw y gwir ddarlleniad. Nid oes llawer o wahaniaeth rhyngddo â'r darlleniad cyffredin "*â* ffydd *yn*"—"*trwy* ffydd *â'r*." Nid oedd y gair a bregethwyd wedi ei gyd-dymheru â ffydd yn ysbryd y gwrandawyr, megys y mae yr ymborth trwy ei gyd-dymheru a'r hylif treuliadol yn cael ei gyd-sylweddu â'r corff; ac felly ni bu yn fuddiol iddynt.

Ond y mae yma gwestiwn pwysig yn cyfodi. Pa beth y mae yr awdwr yn fwriadu ddangos trwy hyn? Ai anmherffeithrwydd tufewnol yn yr Israeliaid, ai anmherffeithrwydd allanol yn y datguddiad? Credwn gyda rhai o'r esbonwyr goreu, mai yr olaf. Cynnwysai y "gair a glybuwyd" *addewid* am Ganaan fel gorphwysfa, a'r *ddeddf* fel ammod cysylltiedig. Nis gallasai "gair" fel hwn gael ei uno â'r gwrandawyr trwy ffydd. Ceir y gwrthgyferbyniad i hyn yn adn. 12, lle y dangosir fel y mae "Gair Duw" o dan yr Efengyl yn "cyrhaeddyd trwodd hyd at wahaniad yr enaid a'r ysbryd, y cymalau a'r mêr." Gorchymyn oer oedd y gyfraith y tu allan i'r dyn, nid oedd ewyllys Duw ac ewyllys y dyn yn cael eu huno; am hyny, ni bu gair Duw trwy Moses yn fuddiol. Felly, nid yr hyn y mae yr awdwr yn ei ddyweyd ydyw nad oedd ffydd i'w huno; ond, nas gallasent gael eu huno trwy ffydd Natur y datguddiad fel deddf. Yn ol hyn, y cyferbyniol i ffydd yn adn. 2, yw, nid anghrediniaeth, ond gweithredoedd. Ac â hyn y cytuna adn 3, &c.

Yn unol â'r esboniad hwn, dyna a ddywedir yn adn. 2: 'Ninnau hefyd, megys y rhai oeddynt yn byw yn amser Moses, a dderbyniasom genadwri fendigedig, addewid y cawn fyned i mewn i wlad o orphwysfa. Ond cawsom ni hi mewn ystyr uwch a gwell. Y mae y gair a roddwyd i ni yn annhraethol well na'r gair a roddwyd i'r Israeliaid trwy Moses. Yn gyntaf, nis gallasai y gair a lefarwyd gan Moses ddwyn y gwrandawyr i'r ffydd; arosai yn rhywbeth y tu allan iddynt. Cyhoeddai addewid, a chysylltai ammod â hi, ond ni roddai nerth i gyflawni yr ammod. Yn ail, gorphwysfa ddaearol oedd cynnwys yr addewid hono, ond gorphwysfa ysbrydol a thragywyddol yw yr un a addewir i ni,' adn. 6—10.

Sabboth, Medi 14eg. Heb. iv. 3—7.

Adn. 3: *Canys yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa.* Hyny yw, 'yr ydym ni yn myned i mewn i'r orphwysfa trwy *gredu*.' Dyma y gwahaniaeth rhwng y cyfammod newydd a'r hen gyfammod—credu yn gyferbyniol i weithio. "Yn myned i mewn" —yr orphwysfa bresennol yn Nghrist dan yr Efengyl, yr hon a berffeithir yn yr orphwysfa nefol a thragywyddol. Ac er mwyn dangos fod yr Hen Destament ei hunan yn profi annigonolrwydd y ddeddf a'i gweithredoedd i ddwyn dynion i'r orphwysfa, y mae yn chwanegu—*Megys y dywedodd efe, Fel y tyngais yn fy llid, os ânt i mewn i'm gorphwysfa i.* Hyny yw, "ni chânt fyned." Gan eu bod hwy yn cael eu cau allan trwy eu hanghrediniaeth a'u hanufudd-dod, y mae hyny yn cynnwys y câi y rhai oll a gredent fyned i mewn. Fel y sylwa Dr. Thomas, "y mae yr addewidion cyfoethocaf yn cael eu cynnwys yn y bygythion mwyaf ofnadwy." *Er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd.* Addefir fod cysylltiad ac amcan y geiriau hyn yn dra anhawdd eu deall. Cymerai ormod o le i fanylu ar y gwahanol olygiadau, ac i ychydig y byddai hyny yn fuddiol. Y mae un esboniwr galluog yn synu, ac nis gallwn lai na synu gydag ef, fod bron yr holl esbonwyr yn cymeryd "y gweithredoedd" am weithredoedd *Duw*, a'i weithredoedd mewn *creu*. Un rheswm yn erbyn y golygiad hwn yw y gair ER *(from)* *ἀπό*. Onid yw y gair hwn yn dangos fod

"y gweithredoedd" (beth bynag oeddynt) nid yn *gorphen* pan grëwyd y byd, ond yn *dechreu* y pryd hwnw? Y pwynt cychwynol yw gorpheniad y greadigaeth. Y mae "y gweithredoedd wedi eu gwneuthur *er* seiliad y byd"—yn myned ymlaen, yn parhau i gael eu gwneuthur o greadigaeth y byd trwy yr oesoedd. Nis gall *er* olygu moment orphenol unrhyw waith, ond y foment ddechreuol *(from)*—*o'r* pryd hwnw allan. Yn ol y golygiad arall, gwneir i'r adnod ddyweyd —"Er fod gwaith y greadigaeth wedi ei orphen pan orphenwyd gwaith y greadigaeth!" Rheswm arall yn erbyn yr esboniad hwn ydyw—ei fod yn annaturiol ac anmherthynasol â'r hyn sydd o'r blaen. Buasai yn dyfod i rywbeth fel hyn:—'Y mae credinwyr yn myned i mewn i orphwysfa Duw—tyngodd Duw yn ei lid na chai anghredinwyr fyned i mewn—er fod gwaith y greadigaeth wedi ei orphen er ys talm!' Neu ynte fel hyn: 'Nid yw anghredinwyr yn myned i mewn i orphwysfa Duw, *er* ei fod Ef wedi gorphwys oddiwrth waith y greadigaeth.' Pa ystyr a all fod i'r gair *er* pan yn cysylltu pethau mor hollol wahanol i'w gilydd? Rheswm arall sydd yn ymddangos i ni yn erbyn y golygiad yw—fod yn annhebyg i'r eithaf y buasai dull mor ddyeithriol, mor anarferedig, yn cael ei ddefnyddio i osod allan waith y greadigaeth—"er bod *y gweithredoedd wedi eu gwneuthur*." Paham y gelwir gwaith y greadigaeth yn "weithredoedd?" A phaham y rhoddir y fannod, "*y* gweithredoedd?" A phaham y dywedir "y gweithredoedd *wedi eu gwneuthur?*" Nis gallwn lai na theimlo fod yr holl ddull o eirio yn rhyfedd ac annaturiol, ar y dybiaeth mai at waith y greadigaeth y cyfeirir.

Beth yw "y gweithredoedd" ynte? Credwn mai gweithredoedd *dynion*—gweithredoedd yn gyferbyniol i ffydd. Edrychwn ai nid yw y golygiad hwn yn ymasio yn naturiol â rhediad y meddyliau. Dengys yr awdwr yn yr ail adnod nad oedd y gair trwy Moses wedi ymgymysgu trwy ffydd âg ysbryd y rhai a'i clywsant, ac felly na bu yn fuddiol iddynt. Gair o'r tu allan iddynt ydoedd. Ond dengys yn y 3edd adnod, ein bod ni, Israel Duw o dan y Testament Newydd, yn myned i mewn i orphwysfa Duw, yr hon nid aeth yr Israel gynt i mewn iddi, a'n bod yn myned i mewn trwy *ffydd:* "y rhai a gredasom." Beth sydd yn fwy naturiol i ddyfod i mewn yma na'r cyferbyniad rhwng ffydd a *gweithredoedd?*

'Trwy *ffydd* y mae myned i mewn i orphwysfa Duw. Anghrediniaeth sydd yn cau allan o'r orphwysfa. Nid trwy weithredoedd y mae ei hennill. Y mae *gweithredoedd* wedi ac yn cael eu gwneuthur er dechreuad y byd, ond er hyny nid ydynt yn dwyn dynion (neu Israel) i orphwysfa Duw.' Mewn gair: "y mae pob peth a ellir ei gynnwys o dan yr enw *gweithredoedd* wedi cael ei wneuthur er amser creadigaeth y byd hyd yn awr; ond nid yw erioed wedi bod yn ddigonol i ddwyn dyn i'r wir *orphwysfa.* Y casgliad gan hyny yw, fod yn rhaid cael rhyw ffordd hollol newydd o iachawdwriaeth, nid gweithredoedd dynol nac ymdrechion dynol, ond ffydd yn yr iachawdwriaeth a ddarparodd Duw, tuag at ddwyn dynion i'r orphwysfa." Fel hyn, edrychir ar "weithredoedd" yn yr ystyr eangaf —gweithredoedd dynion yn gyffredinol, *gwaith* yr hil ddynol, pob gweithgarwch, pob ymdrech, o'r dechreuad hyd yn awr

Adn. 4: *Canys efe a ddywedodd mewn man am y seithfed dydd fel hyn: A gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddiwrth ei holl weithredoedd. Canys*—'i egluro y mater hwn ymhellach.' Dengys mai wrth "weithredoedd" yr adnod o'r blaen y golygai, nid gweithredoedd Duw, ond gweithredoedd dynion yn wrthwyneb i'r eiddo Duw. Gyda golwg ar *Dduw*, y mae efe eisoes wedi gorphwys ar y seithfed dydd o ddyddiau y greadigaeth; ond gyda golwg ar *ddynion*, nid ydynt eto yn gallu myned i mewn i'w orphwysfa ef, er eu bod yn gwneuthur gweithredoedd o greadigaeth y byd hyd yn awr. Yr oedd gweithredoedd Duw yn orphenedig—yn dufewnol berffaith, ac felly yn allanol gyflawn. Ond yr oedd gweithredoedd dynion yn dufewnol anmherffaith, ac felly nid oes son fod dynion yn allanol yn gorphwys; y mae y gwaith a'r llafur o hyd yn parhau, a pharhau a wna nes y daw dynion i syrthio i mewn i drefn Duw. *Mewn man.* Dull o gyfeirio at yr hyn oedd hysbys. Felly ii. 6: "un mewn rhyw fan."

Adn. 5: *Ac yma drachefn, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i.* Cyfystyr â llŵ, "ni chânt fyned i mewn." Dechreuodd yr awdwr yn adn. 4 roddi *hanes* gorphwysfa neu Sabboth Duw. Dechreua gyda gorphwys oddiwrth y gwaith o greu. Ond y cam cyntaf yn y dadguddiad o orphwysfa Duw oedd hwnw. Dyma radd bellach—gorphwysfa Canaan, am yr hon y tyngodd Duw na chai Israel anghrediniol fyned i mewn iddi. Ond nid yw hyn yn dyhysbyddu yr addewid. Y mae enaid yr orphwysfa yn aros.

Adn. 6: *Gan hyny, gan fod hyn wedi ei adael, fod rhai yn myned i mewn iddi, ac nad aeth y rhai y pregethwyd iddynt*

yn gyntaf i mewn, o herwydd anghrediniaeth:

ADN. 7: *Trachefn, y mae efe yn penu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw, ar ol cymaint o amser; megys y dywedir, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd, na chaledwch eich calonau.*

Yn ol cyflead y geiriau yn ein cyfieithiad ni, y mae yr ymadroddion yn anghyflawn, a'r gystrawen yn wallus. Nid oes yr un ferf na gosodiad yn dilyn y "gan hyny," adn. 6. Ond yn ol cyflead diwygiedig, y mae y gwall hwn yn cael ei gywiro: "Gan hyny——y mae efe drachefn yn penu, &c."

Yn ol rhai esbonwyr, nid yw adn. 6 a 7 ond megys yn symio i fyny yr hyn a brofwyd yn yr adnodau blaenorol, sef fod yr addewid wedi ei gadael i ni, am na chyflawnwyd hi yn hanes Israel. Ond y mae eraill yn dal fod yr awdwr yn symud i bwynt newydd o gyferbyniad rhwng gwaith Crist a gwaith Moses. Y mae y cyferbyniad rhwng gwaith y ddau yn ddeublyg, megys ag yr ydoedd yn pen. iii. 2—6 rhwng y personau. Yr anmherffeithrwydd cyntaf yn ngwaith Moses oedd hyn (iv. 2—5)—nad oedd ei waith ef yn cyfranu dim nerth tuag at ei gyflawni, nid oedd yn uno ei hunan â'r gwrandawyr trwy ffydd, ac felly nis gallasai arwain i'r orphwysfa. Yr ail oedd hwn:—nad oedd yr orphwysfa ei hunan i'r hon y gallasai Israel gael eu dwyn gan Moses, ac y dygwyd hwynt yn weithredol gan Josua, ond yn unig gorphwysfa ddaearol, gysgodol; tra y mae Crist yn arwain i orphwysfa wirioneddol a sylweddol, yr hon yn ei natur sydd yn cyfateb i orphwysfa Sabboth Duw. Ond y mae yr awdwr yma, megys yn pen. iii., yn ail-adrodd y pen cyntaf o wahaniaeth wrth osod allan yr ail. Gellir symio y cwbl fel hyn;—

1. Ffydd oedd yn ennill gorphwysfa Canaan; yr oedd anghrediniaeth yn cau allan o honi. Nid oedd "y gair a glybuwyd" gynt yn rhoddi nerth i gydffurfio â'r ammod, ac nis gallai felly sicrhau yr orphwysfa.

2. Ond wedi i'r rhai anufudd farw cyn cyrhaedd yr orphwysfa, ac ymhen oesoedd wedi i gorff y genedl ymsefydlu ynddi—"wedi cymaint o amser"—dyma Dduw yn rhybuddio Israel yn amser Dafydd, drachefn, megys y rhybuddiodd hwynt yn yr anialwch o'r blaen, rhag iddynt syrthio yn fyr o'r orphwysfa. Profa hyn fod gorphwysfa yr Hen Destament yn gyferbyniol i un y Testament Newydd fel y cysgod i'r sylwedd. Y mae cyfoeth yr addewid, y wir orphwysfa, nid wedi ei dreulio allan, ond wedi ei adael yn etifeddiaeth i ni.

SABBOTH, MEDI 21AIN. HEB. IV. 8—11.

ADN. 8: *Canys pe dygasai Jesus hwynt i orphwysfa, ni soniasai efe ar ol hyny am ddiwrnod arall.* Gŵyr ein darllenwyr oll mai y Jesus hwn yw Josua yr Hen Destament, a gwell yn ddiau fuasai i'r enw gael ei gadw yn yr hen ffurf. Y mae ymresymiad yr adnod hon yn hollol eglur. Pe buasai dygiad y genedl i Ganaan dan Josua yn gyflawniad o'r addewid am orphwysfa, ni buasai Duw yn cyhoeddi yr addewid drachefn yn amser Dafydd, "ar ol cymaint o amser," nac yn rhybuddio y genedl rhag anufuddod, rhag trwy hyny iddynt syrthio yn fyr o'r orphwysfa, megys y gwnaethai eu tadau. Yr oeddynt eisoes yn yr orphwysfa ddaearol er's oesoedd. Felly rhaid mai nid hono oedd sylwedd yr addewid.

ADN. 9: *Y mae gan hyny orphwysfa eto yn ol i bobl Dduw.* Ychydig o adnodau sydd yn y Bibl ag y mae ffurf y cyfieithiad wedi camarwain y darllenydd Cymreig yn fwy am eu hystyr na'r adnod hon. Dealla y rhan fwyaf o lawer y geiriau "eto yn ol" yn golygu amser, amser dyfodol, y sefyllfa y tu draw i angeu. Ac wrth yr "orphwysfa" deallir yr orphwysfa nefol. Ond prin y gall neb goleddu y dyb yna am feddwl y geiriau ag sydd wedi talu dim sylw i ymresymiad yr awdwr trwy y bennod. Y mae yr ymresymiad blaenorol yn gwneyd yr ystyr yn hollol eglur. Nid yw gorphwysfa y Sabboth, na gorphwysfa Canaan, wedi dyhysbyddu cynnwys addewid Duw am orphwysfa. Mae yr addewid mewn grym eto. Mae yr orphwysfa yn aros—"eto yn ol" i gael ei mwynhau ar y ddaear gan gredinwyr, sef yr orphwysfa ysbrydol yn Nghrist o dan yr Efengyl. O dan yr Efengyl y mae sylwedd yr orphwysfa. Cysgod o honi oedd y Sabboth a Chanaan—un mewn amser a'r llall mewn lle—cysgodau o honi, a chynnorthwyon i ffydd i fyned i mewn iddi, i'r graddau prin ag yr oedd hyny yn bosibl cyn amser yr Efengyl. Duw mewn dadguddiad oedd yr orphwysfa o'r dechreuad, yn ol ffurf a graddau y dadguddiad. O dan yr Efengyl y mae y dadguddiad llawn.

Ond y mae dau beth yn yr adnod yn galw am sylw. Y mae yma air newydd am yr "orphwysfa," ac enw newydd ar gredinwyr. 1. Gelwir yr "orphwysfa" yn awr wrth enw newydd na ddefnyddiodd yr awdwr o'r blaen, sef "cadw Sabboth," neu "gadwraeth Sabboth." Paham? Gair uwch yw hwn am orphwysfa. Y mae yr awdwr yma yn cario allan y syniad a ddygodd allan gyntaf yn adn. 4—Duw yn gorphwys ar y seithfed dydd oddiwrth waith y greadigaeth, ac yn ei fendithio, ac felly yn ei

wneyd yn Sabboth. Dangosodd yn adn. 6—8 nad oedd gorphwysfa Canaan yn wir yn orphwysfa. Yn awr, dengys ar y llaw arall, fod yr orphwysfa ag y mae pobl Dduw i gael eu harwain iddi dan yr Efengyl, sef trwy Grist, yn wir orphwysfa, am ei bod yn dwyn y nodwedd o orphwysfa *Sabboth*, yn cyfateb i orphwysfa *Duw*, wedi gorphen gwaith y greadigaeth. Yn adn. 4, ac nid yn y drydedd, y mae y syniad am Sabboth Duw yn dyfod i fewn gyntaf. Gorphwysodd Duw oddiwrth ei waith ar y seithfed dydd, nid yn unig am ei fod wedi ei orphen yn allanol, ond am fod y gwaith o ran ei ansawdd dufewnol yn berffaith a gorphenol. Yr oedd yn "dda iawn," adn. 4. Ond nid oedd dynion yn amser Moses, nac hyd yn nod Josua, yn gallu cyrhaedd i orphwysfa oddiwrth eu llafur a'u poen a'u hymdrech, am fod "y gweithredoedd" (adn 3) yn dufewnol anmherffaith, wedi eu halogi â phechod. Y mae y wir orphwysfa yn y dyfodol, sef trwy Grist o dan yr Efengyl; dyma orphwysfa yn cyfateb i orphwysfa *Duw*, gorphwysfa *sanctaidd*, gorphwysfa *Sabboth*. Rhaid iddi fod yn gynnwysedig yn hyn, fod dyn yn gallu gorphwys oddiwrth ei weithredoedd yn yr un ffordd ag y gorphwysodd Duw oddiwrth yr eiddo Ef; sef trwy *orphen* ei waith yn dufewnol, a'i gyflwyno i Dduw heb ystaen pechod arno. Credwn nad oes yma gyfeiriad at y dydd cyntaf o'r wythnos fel Sabboth; ac eglur yw mai nid gorphwysfa y nefoedd a feddylir 2. Gelwir credinwyr yma yn "bobl Dduw." Ni alwasai hwynt wrth yr enw hwn o'r blaen. Dyna y rheswm, dybygid,—megys y mae y Sabboth Iuddewig wedi ei sylweddoli mewn ffurf fwy ysbrydol dan yr Efengyl, felly yr Eglwys Gristionogol yw y gwir Israel, neu "bobl Dduw," bellach Cluda bethau goreu yr hen oruchwyliaeth i'r Efengyl; yn hytrach dengys mai yn yr Efengyl y maent yn eu sylwedd a'u gogoniant

Adn. 10: *Canys yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, hwnw hefyd a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau.*

Y mae llawer o amrywiaeth golygiadau, neu yn hytrach wahaniaeth mawr rhwng y ddau brif olygiad, ar ystyr yr adnod hon. Y cwestiwn yw—pwy yw "yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef?" Un golygiad yw—fod y geiriau yn ddesgrifiad o gredinwyr yn gyffredinol, fel rhai yn myned i'r wir orphwysfa ysbrydol, ac yn gorphwys oddiwrth eu gweithredoedd eu hunain trwy ddarfod byw iddynt eu hunain, megys y gorphwysodd Duw oddiwrth ei weithredoedd yntau. Rhaid i ni gyfaddef, fel y sylwa Principal Edwards, nas gallwn weled y priodoldeb, nac hyd yn nod y gweddusrwydd, o gymharu pechadur yn darfod byw iddo ei hun â gorphwysiad Duw oddiwrth waith y greadigaeth. Ymddengys i ni yn sicr fod yr anghydryw-iaeth *(incongruity)* rhwng gweithredoedd hunan-geisiol pechadur â gweithredoedd Duw yn y greadigaeth yn condemnio y golygiad ar unwaith. Nid ydynt yn bethau y gellir eu cymharu â'u gilydd. Nid oes un elfen gyffredin yn perthyn iddynt. Nid ydynt yn dyfod o dan yr un dosbarth o ran eu natur, heblaw mai gweithredoedd dyn yw y naill a gweithredoedd Duw yw y lleill. Y mae rhesymau cryfion eraill yn erbyn y golygiad: megys amser y ferf "a orphwysodd" yn y gwreiddiol; hefyd, yr ail-adroddiad a gynnwysai y geiriau yn ol y golygiad hwn. Gallai mai yr wrthddadl benaf yn erbyn y golygiad arall, sef mai Crist a feddylir, yw gwaith yr awdwr yn peidio enwi Crist, ond yn ei alw "yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef." Y mae amryw resymau yn tori grym yr wrthddadl hon. Yn un peth, y mae Iesu newydd ei enwi yn adn. 8, yr hwn nas gallodd arwain y bobl i orphwysfa Yn gyferbyniol i'r Iesu hwnw, dyma un arall, "yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef." A rhesymol iawn yw gofyn, os credinwyr a feddylir, paham y dywedir am danynt fel hyn—"yr hwn a aeth i mewn?" &c. Paham na ddywedasid, "Y rhai a aethant i mewn?" neu, "pob un a aeth i mewn?"

Rheswm cryf dros y golygiad mai yr Iesu a feddylir, yw cyfatebiad prydferth yr adnod hon, yn ol yr esboniad yma, a'r adran gyferbyniol yn pen. ii. 9. Gellir eu cymharu fel y canlyn:—

1. Bwriadwyd dyn i arglwyddiaeth ar y greadigaeth.
2. Ond nid ydym eto yn gweled dyn wedi dyfod i'r arglwyddiaeth hon.
3. Eithr yr ydym yn gweled Iesu wedi ei ddyrchafu iddi.

Yn gyfatebol i hyny, y mae yr adran sydd dan sylw, ond yn unig yn nghysylltiad ffurfiol y tair braich:

1. Derbyniodd dyn alwad i fyned i mewn i'w orphwysfa.
2. Ni arweiniwyd ef iddi gan Josua. Y mae gorphwysfa arall eto i'w dysgwyl.
3. Y mae hono yn orphwysfa o natur *Sabbothol:* canys y mae yr Iesu, yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, yn gorphwys mewn modd Sabbothol, fel y mae Duw yn gwneyd.

Nid yn unig aeth yr Iesu i mewn i'w orphwysfa ef, ond wrth wneyd hyny "gorphwysodd oddiwrth ei weithredoedd

ei hun." Felly agorodd yr orphwysfa i'w bobl. "Efe oedd ein Josua ni. Nid yn unig aeth ei hun i mewn, ond arweiniodd bobl Dduw i mewn, ymladdodd eu brwydrau, sicrhaodd eu hetifeddiaeth" (Edwards). Gorphenodd Duw weithredoedd y greadigaeth gyntaf: ac yr oeddynt mor berffaith, fel tra yn gorphwys oddiwrthynt yr oedd yn gallu gorphwys ynddynt. Gorphenodd y Duwddyn waith y greadigaeth newydd; ac yr oedd ei weithredoedd yntau mor berffaith nes y gorphwysodd oddiwrthynt ac ynddynt.

Sabboth cyntaf Duw—Sabboth Duw y Tad—oedd y seithfed dydd.

Ail Sabboth Duw—Sabboth Duw y Mab—yw y Sabboth efengylaidd.

Trydydd Sabboth Duw—Sabboth Duw yr Ysbryd Glân—fydd Sabboth y Milflwyddiant, pan grëir y nefoedd newydd a'r ddaear newydd.

Adn. 11: *Byddwn ddyfal gan hyny i fyned i mewn i'r orphwysfa hono, fel na syrthio neb yn ol yr un siampl o anghrediniaeth.*

Dychwelir at yr annogaeth. Nid aeth dyn i mewn i'r orphwysfa trwy ei weithredoedd er seiliad y byd. Ond aeth yr Iesu i mewn, ac ennillodd hi i'w bobl. Byddwn ninnau "ddyfal" gan hyny i fyned i mewn trwy undeb âg ef: rhag dygwydd i ni syrthio yn fyr o honi, megys y tadau. "*I'r* un siampl"—y mae y naill ddarlleniad a'r llall yr un mor gywir fel cyfeithiad. "Ond y mae '*syrthio i'r un siampl*' yn ymadrodd rhy ddyeithr i'w fabwysiadu" (Thomas, Edwards, &c).

Sabboth, Medi 28ain. Heb. iv. 12, 13.

Adn. 12: *Canys bywiol yw gair Duw a nerthol, a llymach nag un cleddyf daufiniog; ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mêr; ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon.*

Yn ol Principal Edwards, dyma sail unoliaeth y ddwy oruchwyliaeth yn eu bygythion a'u haddewidion, y bywyd sydd yn Ngair Duw. Yr un yw hwn ymhòb oes, ac efe a saif byth. Esbonia Dr. Owen ac eraill yr adnod hon am Berson y Mab, neu y Gair Personol. Ond yn sicr nid yw y golygiad hwnw yn ymasio âg ymresymiad yr Apostol, a dinystria gysylltiad yr adnodau. Nodweddion bywiol y Gair ysgrifenedig neu lefaredig sydd yma, ac yn neilldiol Gair dadguddiad y Testament Newydd yr hwn a glywsom ni. "Bywiol" fel barnwr, medd rhai esbonwyr. Dyna oedd fel deddf. Ond "bywiol" i achub, dan yr Efengyl, i roddi bywyd, yn gyferbyniol i'r ddeddf farw, neu y llythyren sydd yn lladd. Nid yw y ddeddf ond yn gofyn, nis gall roddi nerth i gyflawni ei gofynion. Ond y mae yr efengyl yn ddadguddiad o gariad —anadl fywiol, neu ysbryd yn bywhau. Darlunir ei heffeithiolrwydd. Am y gair fel deddf, nid oedd yn uno ei hunan trwy ffydd â'r rhai a'i clywsent. Ond yn gyferbyniol, y mae gair yr Efengyl yn treiddio i ddirgeloedd yr enaid. I'r "enaid" yn gyntaf; yna, yn ddyfnach, i'r "ysbryd;" yna, yn ddyfnach eto, "meddyliau a bwriadau y galon"—i gylch gweithgarwch ymwybodol yr enaid.

Adn. 13: *Ac nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef: eithr pob peth sydd yn noeth ac yn agored yn ei lygaid ef am yr hwn yr ydym yn son.*

Llygaid pwy? Y Gair wedi ei bersonoli fel barnwr, medd rhai. Duw—awdwr y gair, medd eraill, "â'r hwn y mae a wnelom," neu "gyda'r hwn y mae i ni gyfrif," yr hyn yw y cyfeithiad cywiraf, yn hytrach nag "am yr hwn yr ydym yn son." *Agored*, "gafael yn ngwddf gwrthwynebydd." Neu, daflu y pen yn ol, nes dynoethi y gwddf. Annaturiol, dybygem, yw dwyn i mewn yr ystyr o ymladd yma, gan nad yw y gair ei hun yn gorfodi hyny. Credwn mai yr un syniad sydd yn rhedeg trwy yr adnod—dirgelion mwyaf cuddiedig yr ysbryd yn amlwg yn llygaid y barnwr hwn, sef Gair Duw, neu yr Efengyl i'r hon yr ydym ni yn gyfrifol.

Adolygiad y Wasg.

Cwestiynau *ar y Chwe' Phennod Cyntaf yn yr Epistol at yr Hebreaid. Gan* Griffith Ellis, M.A., *Bootle*. Newport: W. Jones. 1890.

Parotowyd y Cwestiynau hyn, fel y dengys y Wyneb-ddalen, ar gyfer maes llafur y dosbarthiadau hynaf yn yr Ysgolion perthynol i Undeb Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calfinaidd. A barnwn eu bod yn cyfarfod â'r anghen, ac yn ateb yr amcan yn rhagorol. Fel y gallesid dysgwyl oddiwrth eu hawdwr, dangosant astudiaeth ofalus o'r Epistol. Nid ydynt ar un llaw yn llithro yn arwynebol dros yr adnodau, ac ar y llaw arall nid ydynt yn gorfanylu gyda phethau bychain. Cymerant afael yn yr hyn sydd yn bwysig tuag at ddeall rhediad y meddwl a'r ymresymiad. Ac o'n rhan

ni, nis gallwn feddwl am ganmoliaeth uwch i unrhyw gwestiynau na'u bod yn arwain y dysgybl ar hyd canol y llwybr rhwng y ddau eithaf a nodwyd. Y maent yn hynod o amserol; a byddant o'u defnyddio yn dra gwasanaethgar i Ysgolion Sabbothol y Cyfundeb trwy Gymru yn maes y llafur presennol. Pris y llyfr yw Ceiniog.

Llawlyfr ar Genesis. *Rhan I. Gan y Parch.* W. Lewis, *Pontypridd.* Newport: W. Jones. 1890.

Wele eto gynnorthwy hynod werthfawr i'r dosbarthiadau ieuengaf yn maes eu llafur hwythau am 1890—91, sef y 25 pennodau cyntaf o lyfr Genesis. Y mae yr awdwr wedi gwneyd ei enw yn adnabyddus ac yn glodfawr trwy Gymru eisoes ynglŷn â chynllun Undeb yr Ysgolion Sabbothol, trwy y Llyfrau Elfenol rhagorol a barotowyd ganddo. Credwn fod y llyfr hwn yr un mor deilwng. Cynnwysa lawer mewn ychydig. Ceir yma nodiadau eglurhaol, daearyddol, &c., gyda Map, a chyfarwyddiadau ar gyfer yr Arholiad. Diau y gwneir defnydd mawr o hono. Ei bris yw Dwy Geiniog.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Gronant, Gorphenaf 21 a'r 22ain, hysbysid fod yr Ysgol Wrth-babyddol a gynnelir yno yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus. Gwneir ymdrech mawr gan yr eglwys i ddwyn y draul; rhoddir cynnorthwy gan y Gymdeithasfa. Agorwyd y mater gosodedig—"Person Crist"—gan y Parch. Robert Owen, Wyddgrug, a chafwyd ymdriniaeth dda a buddiol.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaernarfyrddin, a gynnaliwyd yn Soar, Pontyberem, Gorphenaf 22 a'r 23ain, penderfynwyd rhoddi gwahoddiad i'r Parchn. T. Levi, Aberystwyth, a W. James, Aberdâr, i dalu ymweliad â'r Sir ar ran Jubili y Genadaeth Dramor. Rhoddwyd derbyniad serchog i Dr. Harries, Chicago, a chafwyd anerchiadau rhagorol ganddo. Cafwyd anerchiad gwresog gan y Parch. J. Gwynoro Davies, Abermaw, ar ysbryd cenadol. Pasiwyd i roddi llythyr cyflwyniad i Mri. Barac Rees a John Griffiths, Llanelli, ar eu symudiad y naill i Eglwys y Graig, Pontypridd, a'r llall i Nantyglo. Gwnaed trefniadau i gario allan symudiad cryf tuag at leihau dyled Capel Siloh, Llanelli.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Gorphenaf 22ain, hysbyswyd gan y cenadon a fu yn Oldham ac Ashton fod yr eglwysi hyny yn rhoddi galwad unfrydol i Mr. John Hughes, Caer, i ddyfod atynt yn weinidog. Cadarnhawyd yr alwad. Ymddyddanwyd â Mr. Robert Roberts, Bolton, ar derfyn ei flwyddyn brawf fel pregethwr, a derbyniwyd ef fel aelod o'r Cyfarfod Misol. Darllenwyd hefyd ei dystysgrif ynglŷn âg Athrofa y Bala. Rhoddwyd iddo y derbyniad mwyaf siriol. Dygwyd y tystiolaethau uwchaf i'w lafur a'i ddiwydrwydd yn yr Athrofa, ac amlygwyd llawenydd am y llwyddiant a ddylynodd ei ymdrechiadau.

Yn Nghyfarfod Misol Môn, a gynnaliwyd yn Llanrhyddlad, Awst 4ydd a'r 5ed, cafwyd anerchiad gan y cyn-lywydd ar ei waith yn cyflwyno y gadair i'w olynydd, Dr. John Roberts, Menai Bridge; a diolchwyd yn gynhes i'r Parch. J. V. Williams am ei wasanaeth a'i anerchiad. Gwnaed sylw ar farwolaeth y diweddar Mr. David Davies, Llandinam, ac arwyddwyd cydymdeimlad dwys â Mrs. Davies a'r teulu.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fynwy, a gynnaliwyd yn Seion, Tredegar, Gorphenaf 31ain, cyflwynwyd tystysgrif a bathodyn aur gan Mr. R. W. Jones, B.A., Gelligaer, i Mr. Thomas Jones, Brynhyfryd, Rhymni, y rhai a ennillwyd ganddo yn arholiad uchaf ein Cyfundeb ynglŷn â'r Ysgol Sabbothol. Dygid tystiolaeth uchel i dalentau dysglaer y gŵr ieuanc hwn, yr hwn sydd yn ddiweddar wedi dechreu pregethu. Cymhellwyd yn wresog lyfr newydd a elwir "Yr Ymofynydd Methodistaidd," gan y Parch. W. Samlet Williams, neu frasolwg mewn holiadau ac atebion ar hanes ac elfenau cyfansoddiad Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru, o'i ddechreuad yn 1736 hyd y flwyddyn 1889, wedi ei ddarparu yn benaf i ieuenctyd y Cyfundeb. Etholwyd y Parch. John Pryse, Llanofer, yn ysgrifenydd y Cyfarfod Misol.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Frycheiniog, a gynnaliwyd yn Llechfaen, Awst 5 a'r 6ed, galwyd sylw at gasgliad Jubili y Genadaeth Dramor; hysbyswyd fod y Dosbarth hwn wedi gwneyd cychwyniad, a hyderent y gwneid casgliad rhagorol. Annogwyd i sicrhau gwasanaeth rhai o'r brodyr sydd yn arwain y symudiad hwn i ymweled â'r Sir ar ei ran. Galwyd sylw at, a gwnaed amryw drefniadau ynglŷn

â'r Gymanfa Ganu a fwriedir ei chynnal yn mis Hydref yn Aberhonddu.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, a gynnaliwyd yn Gleiniant, Awst 6 a'r 7fed, darllenwyd papyr rhagorol gan y Parch. R. Hughes, B.A., Llandinam, ar "Y Deg Gorchymyn." Diolchwyd am y rhan a gafwyd, a dymunwyd ar Mr. Hughes i orphen ei bapyr yn y Cyfarfod Misol nesaf. Galwyd sylw at y Casgliad at y Drysorfa Gynnorthwyol, yr hwn oedd yn llai eleni na'r flwyddyn flaenorol. Enwyd nifer o frodyr at yr Ysgrifenydd, y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam, yn bwyllgor i ystyried pa fodd y gellir ychwanegu y casgliad hwn. Rhoddwyd canmoliaeth uchel iawn i gynnwys y Drysorfa, ac annogwyd yn wresog ar i ymdrech gael ei wneyd i eangu ei chylchrediad yn y Sir hon. Galwyd sylw at yr *excursions* sydd yn dyfod o Loegr i lanau moroedd Cymru ar y Sabboth. Pasiwyd penderfyniad cryf yn condemnio yr arferiad; a phenodwyd y Parch. D. Lloyd Jones i ohebu â chwmnïau y rheilffyrdd mewn perthynas i hyn. Gwnaed trefniadau ar gyfer y Gymanfa Gerddorol nesaf a gynnelir yn Machynlleth. Gwnaed sylwadau ar farwolaeth tri o flaenoriaid a fuasent feirw er y Cyfarfod Misol blaenorol:—Mr. D. Rees, Llawryglyn; Mr. Edward Jones, Berthlas; a Mr. D. Davies, Llandinam. Sylwyd am Mr. Davies, fod Cymru oll yn teimlo colled am dano, ond mai o fewn cylch ei Gyfarfod Misol ei hun y mae y golled i'w theimlo fwyaf.

ARHOLIAD ATHROFA Y BALA, 1889.

[Trwy ryw amryfusedd, ni chyhoeddwyd yr Adroddiad hwn yn y Drysorfa y flwyddyn ddiweddaf. Felly rhoddir ef yma o flaen yr Adroddiadau o Arholiadau y Bala a Threfecca am 1890, y rhai a barheir yn y Rhifynau nesaf.]

ADRODDIADAU YR ARHOLWYR.

Adroddiad yr Arholydd mewn Duwinyddiaeth:—

Y mae yn hyfrydwch genyf ddadgan y boddhad mawr a gefais wrth edrych drwy bapyrau y myfyrwyr mewn Duwinydd iaeth, yn yr Arholiad hwn. Yr oedd y papyrau ar y ddwy bennod yn yr Epistol at y Colossiaid yn dangos fod y gwŷr ieuainc wedi cael parotoad manwl a rhagorol iawn yn y Dosbarthiadau; a'u bod ar y cyfan wedi gwneuthur defnydd da o'u manteision. Dangosai y papyrau uwchaf gydnabyddiaeth eang a manwl âg iaith y Testament Newydd yn y gyfran hon, ac â'r gwahanol ddarlleniadau; a phrofent fod eu hysgrifenwyr wedi myned i mewn i ysbryd ac ystyr yr Epistol, fel ag i gael gafael gref yn egwyddorion yr ymresymiad. Y mae mwyafrif y papyrau yn dda a chanmoladwy iawn—*level* uchel o deilyngdod yn cael ei chadw i fyny trwy y Dosbarth. Nid oes ond ychydig yn disgyn yn isel. Ac un rheswm yn ddiau am fethiant y rhai hyn yw, diffyg cydnabyddiaeth â'r iaith Seisonig.

Gallaf ddyweyd yn gyffelyb am y papyrau ar Martensen. Er fod lliaws o'r syniadau yn ddyeithr i'r Cymry, a'r meddyliau yn fynych yn ddwfn ac athronyddol, yr oeddwn yn synu gynifer oedd wedi llwyddo i gael gafael yn y meddwl yn hollol gywir, ac i'w gyflwyno yn eu hatebion mewn ymadroddion mor glir a phriodol.

Yr oedd yr Arholiad hwn yn brawf newydd, at y lliaws a gafwyd o'r blaen, o alluoedd ac ymroddiad yr Athrawon. Y mae yn amlwg fod y ddau Athraw wedi cymeryd trafferth ddirfawr yn mharotöad y Darlithiau a roddwyd ganddynt ar y naill destyn a'r llall. Da iawn genyf hefyd allu dwyn tystiolaeth i'r gallu a'r wybodaeth a amlygir gan y rhan fwyaf o'r efrydwyr, ac i'r llafur cydwybodol ag y mae yn rhaid eu bod wedi ymroddi iddo yn ystod y tymmor.

Griffith Parry.

Adroddiad yr Arholwyr Clasurol:—

Dengys llawer o'r traethodau gryfder meddwl a choethder arddull, ac ambell un ddiffyg enaid neu dlodi iaith, neu'r ddau. Mewn llenyddiaeth Seisonig, y mae'r gwaith wedi ei wneyd yn drwyadl. Nid ydyw'r papyrau ar "Hanes" yn llawn cystal, er hyny gwelem fod gan y myfyrwyr syniad eglur am y Rhyfel Mawr a'r Rhyfel Sanctaidd.

Mewn Rhif a Mesur ceir rhai papyrau yn dangos diofalwch, ond nid ydyw y rhai hyn ond eithriadau. Ar y cyfan, ceir atebion cywir ac arddull dda, yn dangos gwaith cydwybodol, a'r manylder meddwl a ddaw o astudio Rhif a Mesur.

Mae y cyfieithiadau o'r Lladin a'r Groeg i'r Saesoneg yn rhagorol iawn ar y cyfan. Y mae cryn ansicrwydd yn cael ei ddangos yn y cyfieithiadau o'r Saesoneg i Ladin a Groeg, er fod rhai efrydwyr wedi llwyddo yn amlwg yn yr adran yma. Y mae arwyddion o ddiffyg gwreiddioldeb mewn rhai o'r atebion—cedwir yn rhy fanwl hyd yn nod at ffurf yn ogystal a sylwedd yr hyn a geir yn y llawlyfrau.

Yr ydym yn teimlo fod cynnydd amlwg wedi cymeryd lle yn ystod y flwyddyn yn arddull a destlusrwydd y papyrau.

Owen Owen,
O. M. Edwards.

Duwinyddiaeth.

Rhif llawn 100.

Colossiaid.

John Davies	... 88	J. Hughes	... 68
J. T. Pritchard	... 74	R Morris	.. 64
R. H. Evans	... 72	H. E. Griffith	... 61
T. E. Jones	... 72	T. Lloyd	... 60

W. Davies	... 58	W. Foulkes	... 46
R. H. Hughes	... 57	T. Pierce	... 45
J. P. Williams	... 57	W. R. Jones	... 39
James Jones	... 54	T. Owen	... 38
R. H. Thomas	... 52	H. Williams	... 35
David Jones	... 52	J. J. Evans	... 33
W. Williams	... 51	M. R. Owen	} 30
W. Roberts	... 50	I. C. Roberts	
T. R. Jones	} 48	J. H. Owen	... 28
D. Hughes		D. E. Jones	... 17

MARTENSEN.

Richard Morris	... 86	I. C. Roberts	... 57
T. E. Jones	} 81	T. Pierce	... 56
J. Davies		J. J. Evans	... 55
H. E. Griffith	... 76	T. R. Jones	... 54
James Jones	... 72	W. R. Jones	... 53
J. T. Pritchard	} 70	J. H. Owen	... 52
W. Davies		R. H. Hughes	} 50
W. Foulkes		D. Jones	
J. P. Williams	} 69	T. Owen	... 47
D. Hughes		H. Williams	} 46
John Hughes	... 68	T. Lloyd	
R. H. Evans	... 64	M. R. Owen	... 45
R. H. Thomas	... 63	W. Williams	... 44
W. Roberts	... 61	D. E. Jones	... 12

TRAETHAWD SAESONEG. Rhif llawn 100.

J. T. Pritchard	} 74	J. P. Williams	... 50
Richard Morris		I. C. Roberts	} 49
W. Roberts	... 73	T. E. Jones	
M. R. Owen	... 69	T. Owen	... 48
R. H. Hughes	... 68	W. Davies	... 45
W. R. Jones	... 67	J. Hughes	... 43
R. H. Evans	... 66	W. Foulkes	} 40
H. E. Griffith	... 65	T. Pierce	
J. H. Owen	... 63	T. R. Jones	
James Jones	... 60	H. Williams	} 38
John Davies	... 59	W. Williams	
J. J. Evans	... 58	D. E. Jones	... 36
D. Hughes	... 55	D. Jones	... 35
R. H. Thomas	... 54		

Y BEDWAREDD FLWYDDYN.

Llenyddiaeth Seisonig, 300,—J. H. Owen, 252. Algebra, 170,—J. H. Owen, 145. Trigonometry, 170,—J. H. Owen, 121. Cyfansoddiad Groeg, 100,—J. H. Owen, 39. Eto Lladin, 120, —J. H. Owen, 64. Awduron Groeg, 200,—J. H. Owen, 69. Eto Lladin, 160,—J. H. Owen, 74.

Y DRYDEDD FLWYDDYN.

GROEG. Cyfanrif 200.

John Davies	... 146	James Jones	... 128
R. H. Hughes	} 138	William Roberts...	118
M. R. Owen		T. R. Jones	... 85
J. T. Pritchard	... 130	J. J. Evans	... 78

LLADIN. Cyfranrif 160.

R. H. Hughes	} 117	J. T. Pritchard	... 110
John Davies		T. R. Jones	... 109
M. R. Owen	... 114	William Roberts...	96
James Jones	... 112	J. J. Evans	... 81

CYFANSODDIANT GROEG. Cyfanrif 100.

William Roberts...	90	R. H. Hughes	} 50
James Jones	... 71	M. R. Owen	
T. R. Jones	... 60	John Davies	... 46
J. T. Pritchard	... 52	J. J. Evans	... 29

CYFANSODDIANT LLADIN. Cyfanrif 120

William Roberts	103	T. R. Jones	... 63
M. R. Owen	... 99	R. H. Hughes	.. 62
James Jones	... 95	J. J. Evans	... 60
John Davies	... 73	J. T. Pritchard	... 57

LLENYDDIAETH SEISONIG. Cyfanrif 300.

J. T. Pritchard	... 291	R. H. Hughes	... 252
Js. Jones	... 285	J. J. Evans	... 240
W. Roberts	} 270	T. R. Jones	... 222
J. Davies		M. R. Owen	... 215

RHIF A MESUR.

	Algebra 170.	Trigon. 170.	Cyf. 340
T. R. Jones	145	169	314
J. J. Evans	119	145	264
W. Roberts	140	118	258
James Jones	118	136	254
John Davies	109	95	204
J. T. Pritchard	95		95

YR AIL FLWYDDYN.

GROEG. Cyfanrif 100.

T. E. Jones	... 92	I. C. Roberts	... 53
H. E. Griffith	... 89	J. P. Williams	... 41
R. H. Thomas	... 82	Thomas Owen	... 34
Richard Morris	... 73	D. Hughes	... 27
R. H. Evans	... 57		

LLADIN. Cyfanrif 100

Richard Morris	... 92	David Hughes	} 51
T. E. Jones	... 85	J. P. Williams	
H. E. Griffiths	... 76	T. Owen	... 50
R. H. Thomas	... 74	I. C. Roberts	... 46
R. H. Evans	... 72		

AWDURON GROEG. Cyfanrif 150.

Richard Morris	... 133	I. C. Roberts	... 100
T. E. Jones	... 129	R. H Thomas	... 87
J. P. Williams	... 126	R. H. Evans	... 83
David Hughes	... 110	T. Owen	... 69
H. E. Griffith	... 106		

AWDURON LLADIN. Cyfanrif 150.

T. E. Jones	... 111	R. H. Evans	} 86
H. E. Griffith	... 106	David Hughes	
Richard Morris...	104	I. C. Roberts	... 79
T. Owen	} 87	R. H. Thomas	... 73
J. P. Williams			

LLENYDDIAETH SEISONIG. Cyfanrif 250.

Richard Morris	... 250	H. E. Griffith	... 205
R. H. Evans	... 235	I. C. Roberts	... 191
D. Hughes	... 225	T. Owen	... 175
T. E. Jones	... 220	R. H. Thomas	... 158
J. P. Williams	... 217		

HANES Y SAESON. Cyfanrif 120.

Richard Morris	... 114	R. H. Thomas	... 68
J. P. Williams	... 105	R. H. Evans	... 67
T. E. Jones	... 104	I. C. Roberts	... 65
H. E. Griffith	... 98	T. Owen	... 70
David Hughes	... 96		

RHIF A MESUR.

	Algebra—130	Geometry—130	Cyf—260
T. E. Jones	120	130	250
Richard Morris	120	130	250
R. H. Evans	119	120	238
H. E. Griffith	117	100	228
D. Hughes	83	76	159
J. P. Williams	68	80	148
T. Owen	57	60	117
R. H. Thomas	60	27	87
I. C. Roberts	60		60

Y FLWYDDYN GYNTAF.

LLADIN. Cyfanrif 180.

Thomas Pierce	... 114	W. R. Jones	... 74
William Davies	... 107	D. E. Jones	} 72
William Foulkes	94	W. Williams	
John Hughes	... 92	Hugh Williams	... 48
David Jones	... 79		

GROEG. Cyfanrif 180.

William Davies	... 168	W. Williams	... 100
W. R. Jones	... 114	H. Williams	... 90
W. Foulkes	... 112	David Jones	... 79
Thomas Pierce	... 110	D. E. Jones	... 24
John Hughes	... 107		

LLENYDDIAETH SEISONIG. Cyfanrif 250.

W. Foulkes	... 222	H. Williams	... 196
W. R. Jones	... 219	W. Williams	... 169
J. Hughes	... 207	D. Jones	... 120
T. Pierce	... 200	D. E. Jones	... 115
W. Davies	... 198		

HANES Y SAESON. Cyfanrif 120.

W. Davies	... 99	H. Williams	... 85
J. Hughes	... 96	W. Williams	... 52
W. Foulkes	... 91	D. Jones	... 40
W. R. Jones, T. Pierce	90	D. E. Jones	... 39

RHIF A MESUR.

	Algebra—130	Geometry—130	Cyf—260
T. Lloyd	130	127	257
W. Davies	127	124	251
Thomas Pierce	117	130	247
J. Hughes	85	123	208
H. Williams	88	117	205
D. E. Jones	109	91	200
D. Jones	59	111	170
W. Foulkes	91	78	169
W. R. Jones	90	78	168
W. Williams	38	33	71

Y BEDWAREDD FLWYDDYN.

Cyfanrif 1520.

1	J. H. Owen	... 927

Y DRYDEDD FLWYDDYN.

Cyfanrif 1520.

1	James Jones	... 1131
2	William Roberts ...	... 1119
3	John Davies ...	... 1084
4	T. R. Jones ...	... 995
5	J. T. Pritchard ...	... 953
6	J. J. Evans ..	... 898
7	R. H. Hughes ...	... 794
8	M. R. Owen ...	... 760

YR AIL FLWYDDYN.

Cyfanrif 1460.

1	Richard Morris ...	... 1240
2	T E. Jones ...	... 1204
3	H. E. Griffith ...	... 1109
4	R. H. Evans ...	... 1042
5	J. P. Williams ...	... 951
6	David Hughes ...	... 926
7	R. H. Thomas ...	... 798
8	T. Owen	... 735
9	I. C. Roberts ...	... 730

Y FLWYDDYN GYNTAF.

Cyfanrif 1290.

1	W Davies	... 996
2	T. Pierce	... 902
3	J. Hughes	... 889
4	W. Foulkes	... 843
5	W. R. Jones... ...	... 815
6	H. Williams ...	... 743
7	T. Lloyd, 4 o bapyrau	... 364
8	D. Jones	.. 626
9	D. E. Jones	... 479
10	W. Williams ...	... 459

Gwobrwyon.

Y Bedwaredd Flwyddyn, J. Henlyn Owen, £10.

Y Drydedd Flwyddyn—James Jones, W. Roberts, John Davies, T. R. Jones, J. T. Pritchard, J. J. Evans, R. H. Hughes, M. R. Owen, £10 yr un.

Yr Ail Flwyddyn—T. E. Jones, H. E. Griffith, R. H. Evans, J. P. Williams, David Hughes, R. H. Thomas, Thomas Owen, £7 yr un; I. C Roberts, £4.

Y Flwyddyn Gyntaf—W. Davies, T. Pierce, J. Hughes, W. Foulkes, W. R. Jones, H. Williams, T. Lloyd—£7 yr un.

Gwobrwyon Arbenig.

Y Bedwaredd Flwyddyn—J. H. Owen, £4.

Y Drydedd Flwyddyn—Ysgoloriaeth Roberts, £20, James Jones; Ysgoloriaeth J. R. Jones, £10, William Roberts.

Yr Ail Flwyddyn—Gan y Pwyllgor, £10, ac Ysgoloriaeth Charles, Richard Morris; Ysgoloriaeth Herbert Lewis, £10, T. E. Jones; Gan y Pwyllgor, £5, H. E. Griffith; Ysgoloriaeth Charles, R. H. Evans.

Y Flwyddyn Gyntaf—W. Davies, £5, T. Pierce, £3.

CYFARFODYDD PREGETHU.

TALYSARN, HYFRYDLE, BALADEULYN.

CYNNALIWYD Cyfarfod Pregethu blynyddol y dyffryn hwn nos Sadwrn a Sabbath, Mehefin 21 a'r 22ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. William Jones, Felinheli; J. Hughes, D.D., Engedi; G. Roberts, Carneddi; Hugh Jones, D.D., Liverpool; D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam; a T. J. Wheldon, B.A., Ffestiniog.

PENYGROES.

Mehefin 21 a'r 22ain. Pregethwyd gan y Parchn. Ellis Edwards, M.A., Bala; a Thomas Levi, Aberystwyth.

RHOSGADFAN, ARFON.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol yn y lle hwn nos Sadwrn a'r Sabbath, Mehefin 28 a'r 29ain. Pregethwyr:—Parchn. W. R. Jones, Caergybi; a W. Thomas, Maesteg, Gorllewin Morganwg.

BRYNRHOS, ARFON.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yma Gorphenaf 19 a'r 20fed. Pregethwyd gan Mr. Edward Jones (Maer), Pwllheli; a'r Parch. J. Pryce Davies, M.A., Caerlleon.

BWLCHGWYN.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Bwlchgwyn, ger Gwrecsam, Sabbath a Llun Gorphenaf 27 a'r 28ain. Pregethwyd gan y Parchn. David Jones, Trefeglwys; a G. Parry, D.D., Carno.

RHUTHYN.

Cynnaliwyd cylchwyl flynyddol yr achos Seisonig yn y dref hon, y Sabbath, Gorphenaf 20fed. Gwasanaethwyd gan y Parch. Edwin Williams, M.A., Trefecca.

SPENNYMOOR.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol y lle hwn Sabbath, Gorphenaf 13eg, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. Roberts, Bethesda.

LLANSTEPHAN.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol y lle hwn Sabbath a Llun, Awst 3 a'r 4ydd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. H. Barrow Williams, a H. T. Stephens, Birchgrove.

LLANILLTYD, FARDRE.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y lle hwn ar y Sabbath a'r Llun, Awst 3 a'r

4ydd, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. W. Jones, Ton; D. Jones, Pont ycymmer; a D. M. Phillips, o Brifysgol Caerdydd.

YNYSHIR, CWMRHONDDA.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yr Eg lwys uchod, Awst y 10fed a'r 11eg. Pregethwyd gan y Parchn. William Lewis, Cwmparc; W. Meidrym Jones, Llanelli; a James Donne, Llangefni.

AMRYWION.

Nos Fercher, Gorphenaf yr 16eg, cynnaliwyd Cyfarfod Sefydliad y Parch. W. Evans, gynt o Gaernarfon, yn weinidog ar yr eglwys Gymreig yn Millom. Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan y Parchn. G. Jones, Barrow; T. Tait (B.), Millom; T. Roberts, Bethesda; a Meistri J. Jones, Shipyard; P. Jones, Dalton; J. W. Woodruff; a H. Jones, Holborn Hill. Darllenodd y cadeirydd, Mr. J. Jones, Shipyard, lythyr oddiwrth y Parch. Evan Jones, Caernarfon, yn dwyn tystiolaeth uchel i gymeriad a ffyddlondeb Mr. Evans. Y Sabboth dilynol pregethodd y Parch. T. Roberts, y boreu a'r hwyr yn Gymraeg, a'r prydnawn yn Saesoneg.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. JENKIN JENKINS, PONTRHYDYFEN.

Bu farw y gweinidog hwn nos Iau, Gorphenaf 17eg, yn y 70ain flwydd o'i oedran, wedi ei eni yn yr Efailfach, ger Pontrhydyfen, yn mis Mai, 1821. Gwasanaethodd fel bugail ar yr eglwys yr ymunodd â hi fel aelod, ac yn yr hon y dechreuodd bregethu, am 23 o flynyddoedd. Bu yn pregethu am 44 o flynyddoedd. Cafodd ei ordeinio yn y flwyddyn 1867. Cymerodd ei gladdedigaeth le ddydd Mawrth, Gorphenaf yr 22ain, yn yr hwn yr oedd lliaws o weinidogion a blaenoriaid Cyfarfod Misol Gorllewin Morganwg. Yr oedd yr ymadawedig yn ŵr a fawr gerid ac a berchid ar gyfrif ei fywyd sanctaidd, ei ysbryd addfwyn, ei daerineb mewn gweddi, ei ddawn neilltuol i gadw cyfarfodydd eglwysig yn wresog a buddiol, a'i weinidogaeth wlithog ac eneiniedig.

Nodiadau Misol.

MR. DAVID DAVIES, LLANDINAM.

Gwelir fod erthygl yn y Rhifyn presennol ar y gŵr hynod hwn, wedi ei hysgrifenu gan un oedd yn ei adnabod yn dda, ac yn meddu pob cymhwysderau a manteision i'w ddarlunio yn gywir. Dyn mawr ac anghyffredin iawn oedd Mr. Davies. Yr oedd yn berchen meddwl o nerth a chraffder mawr, barn gywir a synwyr ymarferol nodedig. Meddai ryw allu anghyffredin i feistroli cwestiynau anhawdd ynglŷn âg anturiaethau masnachol. Gallai weled trwy y peth. Gwnai ei gyfrifon heb gyfrif—heb bin na phwyntel—trwy fath o weledfad mewnol, neu reddf o farn ddiwyro. Yr oedd ganddo farn o'r fath fwyaf ymarferol. Dywedai am Mr. Savin, un fu yn *bartner* âg ef yn rhai o'i anturiaethau boreuol, ei fod yn caru gweithio allan gynlluniau mawr *am eu bod yn fawr*, heb edrych nemawr i'r cwestiwn *a wnaent dalu ai peidio*. Nid felly y gwnai efe. Yr oedd un arall o brif elfenau llwyddiant yn amlwg yn Mr. Davies—ewyllys gref. Wedi gweled a deall y mater ger ei fron yn drwyadl, a thynu ei gynllun, gweithiai ef allan gydag egni a phenderfyniad, a chyrhaeddai ei amcan bron gyda sicrwydd deddfau natur. Llwyddodd ei holl anturiaethau i raddau anghyffredin. Casglodd gyfoeth y tu hwnt i neb bron yn y Cyfundeb, nac ymhlith cenedl y Cymry. Ond efe oedd hyd y diwedd yn meddiannu y cyfoeth ac nid y cyfoeth yn ei feddiannu ef. Bendithiwyd ef nid yn unig â chyfoeth mawr, ond â'r fendith fwy o helaethrwydd calon, o ras a dawn i'w ddefnyddio i'r dybenion goreu. Yr oedd yn ddiwygiwr mawr yn yr ystyr hon yn y Cyfundeb. Efe oedd y cyntaf a ddechreuodd gyfranu *wrth y miloedd* o bunnau at achosion crefyddol. Cyfranodd filoedd lawer ei hunan yn uniongyrchol. A chyfranodd lawer yn anuniongyrchol trwy ddylanwad ei esiampl ar eraill. Cododd Mr. Davies safon haelioni crefyddol yn ein gwlad. Yr oedd dwy linell nodedig o brydferth yn nghymeriad Mr. Davies. Cyfunai farn a theimlad. Edrychai gyda chraffder a manylder i deilyngdod pob achos a ddygid ger ei fron—"wrth farn y llywodraethai efe ei achosion." Ond ynglŷn â hyn yr oedd ganddo galon lawn o dynerwch i dosturio ymhob achos o gyfyngder. Prydferthwch arall neilltuol yn ei gymeriad oedd ei waith yn cadw ei ostyngeiddrwydd crefyddol heb ei anmharu gan lwyddiant bydol. Ni wnai unrhyw ymhoniad yn y cylchoedd crefyddol ar gyfrif ei sefyllfa uchel yn y byd. Yr oedd yno yn gyd-ostyngedig â'r rhai isel-radd, heb hòni na cheisio dim uwchafiaeth. "Gwnaeth farn, hoffodd drugaredd, ac (yn ol y Saes.) rhodiodd yn ostyngedig gyda'i Dduw." Bydd ei goffadwriaeth a dylanwad daionus ei fywyd yn parhau yn hir.

CARDINAL NEWMAN.

Nos Lun, Awst yr 11eg, bu farw y dyn mawr a rhyfeddol hwn, yn agos i ddeg a phedwar ugain oed, yn yr *Oratory*, Birmingham. Ni bu yn glaf ond am tua thri diwrnod. Ei afiechyd oedd ennyniad yr ysgyfaint. Tua hanner can' mlynedd yn ol, efe oedd cychwynydd y symudiad Tractaraidd neu Uchel-eglwysig yn Rhydychain, yr hwn a greodd fath o chwyldroad yn yr Eglwys Sefydledig, er ei fod ar ol hyny wedi myned i ddwylaw Dr. Pusey, ar enw yr hwn yr adnabyddid ef. Yn y flwyddyn 1845 aeth drosodd i Eglwys Rhufain. Bu am bum' mlynedd yn Rheithor y Brifysgol Babaidd yn Dublin. Gyda'r eithriad yna, treuliodd hanner olaf ei oes yn yr *Oratory*, Edgbaston, Birmingham. Dyrchafwyd ef i urdd Cardinal yn y fl. 1879.

Parodd ei enciliad i Eglwys Rhufain y gofid dwysaf i'w gyfeillion, ac i'w filoedd edmygwyr Protestanaidd. Ysgrifenodd un o'r llyfrau mwyaf hynod a dyddorol i egluro y cam pwysig hwn o'i eiddo dan y teitl *Apologia pro vita suâ*. Gellir edrych ar y llyfr fel hunan-fywgraffiad Meddwl. Dyna yw y llyfr—Meddwl mawr, ond â nodweddion rhyfedd yn perthyn iddo, yn adrodd hanes ei yrfa ei hunan yn ei ymchwil am y gwirionedd: ei ymdaith lafurus, ei drofëydd, ei siomedigaethau, ei ddyheuadau, ei ofnau a'i bryder, ei frwydrau a'i flinderau; ac yn y diwedd, fel creadur wedi blino yn cael ei ymlid, ei ffoedigaeth am dangnefedd i fynwes anffaeledigrwydd Eglwys Rhufain. Un o'r pethau mwyaf annhebyg iddo ef oedd ei waith yn cyhoeddi y llyfr hwn—un mor lawn o'r gwylder sydd yn tarddu o urddas personol a hunan-barch, natur mor *shy*, mor dyner-deimladwy, yn ymgilio gyda'r fath adgasrwydd greddfol rhag hylldremiad dyeithriaid i gyfrinachau ei galon, ni buasai dim ond un peth yn ddigon cryf i beri iddo gyfodi y llen fel hyn oddiar gysegr ei hanes mewnol. Ond yr oedd yr un peth hwnw yn ddigon cryf—eiddigedd dros ei gymeriad fel dyn cywir. Ymosodiad CHARLES KINGSLEY ar ei wirionedd a'i uniondeb a dynodd y llyfr allan.

Er mor ofidus oedd ei wrthgiliad oddiwrth Brotestaniaeth, nid oes ond un farn am ragoriaethau goludog ei athrylith a dwfn ysbrydolrwydd ei grefydd bersonol. Cydnabyddir ei arddull yn un ddihafal—yn gynllun o berffeithrwydd. Dengys beth a all yr iaith Seisonig ei wneyd yn nwylaw meistr. Ond nis gallwn fanylu yn awr ar hyn; nac ar ei bregethau, y rhai ydynt yn sefyll wrthynt eu hunain, fel y sylwa Deon CHURCH, mewn llenyddiaeth Seisonig; nac ar ei weithiau eraill mewn rhyddiaeth a barddoniaeth. Dysgleiriai ei gymeriad mewn gostyngeiddrwydd, hunan-ymwadiad llwyr, cymundeb â Duw, addfwynder a symlrwydd plentyn. Nid oedd dim yn sylwedd iddo ond y byd ysbrydol. Yr oedd yn byw ynddo ac iddo.

MIL O GENADON YN EISIEU.

YN y *Convention* a gynnaliwyd yn ddiweddar yn Keswick, cytunwyd i anfon cais at Gyfeisteddfod Cymdeithas Genadol yr Eglwys Sefydledig, ar iddynt wneuthur apêl am o leiaf fil o genadon newyddion. Dygwyddodd hyn gymeryd lle yn gyd-amserol âg apêl o'r Gynnadledd Genadol fawr a gynnaliwyd yn Shanghai yn China, yr hon hefyd a alwai am fil o weithwyr ychwanegol i'r maes Cenadol. Ymddengys fod y teimlad yn gryf ac yn gyffredinol trwy yr holl feusydd cenadol fod y cynhauaf yn fawr a'r gweithwyr yn anaml.

Y GYNNADLEDD FEDDYGOL YN BERLIN.

TERFYNODD cyfarfodydd y Gynnadledd Gyd-genedlaethol o feddygon yn Berlin, Awst 9fed. Cynnelir y cynnulliad hwn o feddygon y byd bob tair blynedd. Hon oedd y ddegfed a gynnaliwyd. Traddododd Proffeswr Virchow, un o wŷr enwocaf y byd meddygol, araeth yn yr hon y llongyfarchai y Gynnadledd ar ei llwyddiant. Dywedai mai hwn oedd y cynnulliad llïosocaf o wyddonwyr a fu erioed, oll yn cael eu bywhau gan un ysbryd o frawdgarwch. Cynnrychiolid yr alwedigaeth feddygol yn Lloegr mewn araeth alluog gan y meddyg enwog Syr Joseph Lister. Cynnygid diolchgarwch iddo gan y Duc Karl Theodor o Bavaria, yr hwn sydd yn fwy enwog fel meddyg llygaid *(oculist)* nag fel duc. Yr oedd mwy na phum' mil o feddygon a llawfeddygon wedi ymgynnull o bob parth o'r byd, i ymdrin â'r cynnydd a wnaed yn y gelfyddyd feddygol yn ystod y tair blynedd diweddaf. Darllenwyd chwe' chant o bapyrau. Un o'r pethau a wnaeth yr argraff ddyfnaf ar y Gynnadledd oedd papyr neu araeth y Proffeswr Koch, yn rhoddi adroddiad o'i ymchwiliadau i natur y *tubercle bacillus* yn yr ysgyfaint, y pryfyn bychan yr hwn a ddarganfyddodd efe fel yr achos o'r darfodedigaeth. Efe hefyd a ddarganfyddodd y *cholera bacillus*. Dywedai ei fod yn credu ei fod yn awr ar yr iawn lwybr i gael allan y feddyginiaeth i iachâu o'r darfodedigaeth. Cynnelir y Gynnadledd nesaf yn Rhufain, yn 1893.

Lloffion.

GWRTHOD CANIATAD I OFYN.

Bydd y cwbl sydd yn dy gymhell i ddyfod, os gwrthodi, yn troi yn dy erbyn. Collfarnodd Napoleon y Cyntaf un i farw am ryw drosedd; anfonodd genad ato i'w hysbysu ei fod i farw. Gofynodd y collfarnedig, trwy y genad, am ganiatâd i fyned o flaen Napoleon i ofyn am faddeuant. Gwrthodwyd iddo; "oblegid," meddai Napoleon, "os daw ef o fy mlaen I i ofyn am faddeuant, nis gallaf byth ei attal oddiwrtho." Nis gall Duw attal yr un drugaredd oddiwrth y sawl a ofynant ganddo, ond y mae yr adeg yn agos na cheir caniatâd i fyned ato i ofyn ganddo.—*Y Parch. Joseph Thomas, Carno.*

Y BIBL YN CANMOL EI HUN I'R GYDWYBOD.

Pan y darllenwch yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac yn enwedig yr Efengylau neu hanes yr Apostolion, neu pan yn unig y clywoch eu darllen, ymhob parth o'r byd, mewn unrhyw un o'r tri chant o ieithoedd a thafodieithoedd i'r rhai erbyn hyn y mae y Bibl wedi ei gyfieithu—y peth cyntaf sydd yn taro dynion yw, eu bod yn apelio, nid yn gyntaf at eich gallu i ymresymu neu i ddadleu, ond at rywbeth dyfnach—at eich enaid, at eich calon, at eich cydwybod, at eich teimlad o bechod, at eich trueni, at eich anghen am danguefedd oddifewn, am gysur, am obaith, at eich teimlad o wendid, at eich anghen am faddeuant, ac am gymhorth a chydymdeimlad mewn bywyd ac angeu. Nid non, yn sicr, yw y ffordd gydag ysgrifenwyr sydd yn llunio crefydd dwyllodrus, ac yn ceisio gosod i fyny chwedlau celwyddog o wyrthiau gau i'w chefnogi. Y mae Iesu Grist yn ei waith yn achub y lleidr wrth ei ochr ar y groes pan yn marw, yn ddelw o Gristionogaeth a'r Testament Newydd, yn gweithio ar eneidiau gwŷr a gwragedd pechadurus o bob dosbarth ac ymhob gwlad. Yr elfen ysbrydol sydd ymlaenaf ymhob man—nid yr un bynciol neu athronyddol, neu eglwysig, nid yr un ddefodol, nid y dymher sydd yn ymwneyd â chredoau, ac erthyglau, ac anathemau—ond yr un sydd yn dwyn perthynas â phechodau a thrallodion yr enaid.—*Y Parch. Edward White.*

BYD, BEDD A BARN.

"Buan ehêd y bywyd,
Ceir Bedd i waghau 'r byd;
Gyda gair gwedi gorwedd,
Ceir Barn i waghau 'r bedd."

GEIRIAU Y DOETHION.

Y mae gan dy gyfaill, a chan gyfaill dy gyfaill, gyfaill; am hyny na ddadguddia dy gyfrinach i'th gyfaill.

Y mae traed duwiau dialedd wedi eu pedoli â gwlân.

Peidiwch a rhynu uwch ben eira y llynedd.

Gwell dyoddef cam filwaith na'i wneuthur unwaith.

Pe buasai ffolineb yn boen, buasai llefain ymhob tŷ

Wrth wneyd yr ydym yn dysgu.

Y mae y ddraenen yn dechreu pigo yn foreu.

Rhaid dysgu dynion fel pe na byddech yn eu dysgu.

Y mae niwed i'w fesur wrth falais.

Bob yn gam y mae yr Arglwydd yn arwain ei bobl. Digon yw ei fod Ef yn gweled y diwedd o'r dechreuad. Ni raid iddynt hwy ond gweled y cam nesaf.

Y rhai sydd yn byw yn dduwiol â'u golwg ar Dduw, a gânt farw yn gysurus â'u golwg ar y nefoedd.

Cronicl Cenadol.

DOSBARTH SHANGPOONG.

Rhanau o Lythyrau oddiwrth y Parch. R. Evans.

YMWELIAD AG AMRYW BENTREFI.

Mewn amryw lythyrau a ysgrifenwyd yn Mawrth ac Ebrill, rhydd Mr. R. Evans hanes teithiau a gymerodd trwy ran o'r dosbarth sydd dan ei ofal. Ni chaniatâ ein gofod i ni roddi ond dyfyniadau o rai o honynt.

"Ymwelais," meddai, "â nifer go fawr o bentrefi Cristionogol ac eraill. Cawsom fwy nag arfer o bleser a symbyliad i fwy o weithgarwch; ac yr wyf yn credu i ni fod o gryn fendith i eraill. Yr ydym yn sicr fod rhai o'r Cristionogion wedi cael adnewyddiad ysbryd, ac yr ydym yn credu fod rhai eraill wedi cael argyhoeddiad. Codaf yma yr hyn a ysgrifenais yn fy nyddlyfr ymhob lle.

Yn Mawkyndeng.—Wrth ddechreu yr oedfa methai yr athraw â myned ymlaen gan deimlad, wrth feddwl am y drefn yn gallu achub pechaduriaid mor fawrion. Diolchai am y goleuni mwy oedd efe wedi gael yn ddiweddar ar ogoniant a chariad Duw, a'i halogrwydd ei hunan. Rhyfeddai fod Duw mor lân a sanctaidd, nid yn unig yn achub, ond yn gwneyd cymaint a chreaduriaid mor annheilwng. Nid oes ond un teulu yn y lle hwn heb fod yn yr Eglwys; ac ar y cyfan y mae golwg pur siriol ar yr Achos. Mae Cristionogion y pentref hwn wedi dyoddef cryn lawer o erledigaeth o herwydd eu crefydd. Yn y pentref nesaf—Shilliang-Myntang—ar ol treulio peth amser i ymweled â'r tai ac i ymddyddan â'r bobl, cawsom gyfarfod cyffredinol, pryd y canasom lawer, ac yr anerchodd nifer o honom y gynnulleidfa. Boreu drannoeth arholais yr ysgol. Yr oedd yn bresennol naw yn gallu darllen y Testament ac ateb cwestiynau syml, tri yn darllen y llyfr cyntaf, a phedwar yn sillebu. Wedi hyny cynnaliasom gyfarfod gyda'r Cristionogion. Mae cynnydd mawr wedi bod ar yr Achos mewn nifer yn ystod y flwyddyn, ac y mae pawb yno yn ymddangos yn zelog. Y maent oll wedi rhoddi i fyny yfed, ac oni buasai am anwybodaeth, buasem yn derbyn nifer o honynt i'r Eglwys, gan eu bod yn awyddus.

Oddiyma aethom i Tangrain, lle yr oedd yr Achos yn edrych yn lled lewyrchus,

a phawb yn iach a siriol, ac yn ymddangos yn falch iawn o'n gweled. Cawsom gyfarfodydd da a gwyneb yr Arglwydd, er fod anhawsderau o'n tu ni. Yr oedd y siaradwyr oll wedi crygu ac heb fod yn teimlo yn dda. Nos Sadwrn cynnaliasom gyfarfod gweddi a seiat ar ol, pryd y derbyniasom un yn gyflawn aelod. Ar y Sabbath cawsom oedfaon yn y boreu a'r prydnawn, a chyfarfod i fedyddio a chyfranogi o Swper yr Arglwydd ganol dydd. Yr oedd y cyfarfod hwn yn un rhyfedd iawn, ac yn debyg i'r un a gawsom yma flwyddyn yn ol. Gelwais ar dri i weddïo, a'r trydydd oedd U Kypa Ka Hat Gweddïai yn dda, meddylgar a gafaelgar. Wedi cydnabod mawredd a daioni yr Arglwydd, dywedai ein bod ni, er ei holl ddaioni yn dyfod o'i flaen yn unig gyda'n gwefusau, ond cyn iddo orphen dyweyd y gair diweddaf, torodd goleuni mawr arno, a thorodd allan i wylo yn ddilywodraeth am gryn amser. Ceisiodd ymgryfhau a myned ymlaen drachefn, ond torodd i lawr eilwaith yn yr un man, a thorodd pawb bron allan i wylo; ac nid oedd yno ddim ond wylo am bump neu ddeng mynyd. Ar ol hyny darfyddodd y wylo, ond parhaodd teimlad dwfn.

Nos Sabboth cynnaliasom gyfarfod eglwysig, pryd y derbyniwyd dau deulu i'r eglwys ar brawf. Nid oedd ond tua blwyddyn er pan oedd un o'r dynion wedi dyfod at Gristionogaeth, ac nid oedd yn gallu darllen; er hyny yr oedd yn deall yr efengyl yn hynod o dda, ac yn gallu ateb cwestiynau hanesyddol y Bibl nes ein synu. Yn y cyfarfod hwn ymdriniwyd hefyd â materion oeddynt wedi bod o dan sylw yn yr Henaduriaeth. Cyn cychwyn ymaith boreu Llun, derbyniwyd gwraig yn ol oedd wedi cael ei gyru o'r pentref flwyddyn yn ol, priodwyd pâr ieuanc, a rhoddwyd cynghorion i'r Cristionogion. Fel hyn y mae gwaith mawr yn ein haros, ac yn cael ei wneyd ymhob pentref. Ar ol yr holl gyfarfodydd rheolaidd bydd anghen cynghori a dysgu yr arweinwyr ymhob pentref, nes y bydd pob dydd yn hir a ninnau yn flinedig. Ond prin y byddwn yn cael amser i feddwl am ein blinder hyd nes y byddwn wedi gorphen ein taith.

Y pentref nesaf oedd Brato. Mae golwg led lewyrchus ar yr Achos yn y pentref hwn hefyd, er fod y gwrandawyr yn llai nag oeddynt ar ddiwedd y flwyddyn o'r blaen. Aeth un teulu oedd newydd ddyfod yno yn ol i'r pentref oblegid marwolaeth eu plentyn. Bu farw un o'r plant yn fuan ar ol dyfod at Gristionogaeth, a chan nad oeddynt wedi gwreiddio yn y ffydd, yr oedd y brofedigaeth yn rhy lem iddynt. Wedi cyrhaedd Brato, pregethodd athraw Tangrain, yr hwn oedd wedi dyfod gyda ni. Ar ddiwedd yr oedfa cawsom gyfarfod eglwysig i ymdrin â'r ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd. Ar ol y cyfarfodydd hyn, daeth nifer i'r tŷ lle yr oeddym yn aros, ac aeth y siarad ynghylch y modd y mae Duw yn profi ei bobl.

Boreu drannoeth cynnaliasom gyfarfod, pryd y bedyddiwyd pump, pedwar mewn oed ac un plentyn, ac y cydgyfranogasom o Swper yr Arglwydd. Dechreuwyd y cyfarfod hwn drwy i dri o'r brodyr weddïo. Yr oedd arogl esmwyth ar y gweddïau, a chafwyd goleuni mawr a theimlad cynhes wrth geisio dyweyd ychydig am ddyoddefiadau yr Arglwydd Iesu. Fel hyn y mae yr Arglwydd, ymhob pentref, ac mewn rhyw ffordd neu gilydd, yn dwyn tystiolaeth i air ei ras. Y mae Efe yn profi yn amlwg ei fod yn foddlawn i'n gweddïau, drwy ein gwneyd yn awyddus i weithio drosto, a rhoddi llwyddiant ar ein gwaith. Y mae rhywrai bron ymhob pentref yn dangos eu bod wedi cael eu hargyhoeddi gan y gwirionedd. Mae hyn yn perthyn i hanes y flwyddyn ddiweddaf yn fwy neilldual na'r un flwyddyn arall o'i blaen.

O Brato aethom i Lapangap, lle y cawsom noswaith o lafur a llawer o bleser. Mae y pentref hwn yn bedair rhan ar wahan, ond yn agos i'w gilydd. Cynnaliasom gyfarfodydd, rhai y prydnawn ar ol cyrhaedd, a rhai boreu drannoeth, yn y pedair rhan; a dangosai y bobl duedd i wrando. Yr oedd y dyn cloff (U Kha Silla) yn zelog am gael ei dderbyn, ac yn siomedig am na chawsai. Mae hwn yn ddyn sydd wedi credu â'i holl galon. Mae wedi cyrhaedd ei Destament, a charia ef gydag ef i bob man. Bydd ef ac amryw eraill yn cael eu derbyn yn fuan

Oddiyma aethom i Nangjerong. Buom yn y pentref hwn ddwy flynedd yn ol; a bu ein hymweliad y pryd hwnw yn fendithiol i beri i'r bobl feddwl. Yn awr y mae yno ddau deulu, os nad tri, wedi penderfynu rhoddi eu hunain i Grist. Yr oeddym yn cysgu yn nhŷ offeiriad y pentref. Mae ei wraig wedi troi at Gristionogaeth, ac yn ymddangos yn ddynes gall a charedig. Cynnaliasom gyfarfod mewn gwahanol fanau yn y pentref, hyd nes oedd hi yn hwyr y nos, yn gystal a boreu drannoeth; a daeth cynnulleidfaoedd da o ddyniou a merched, i wrando yn yr holl leoedd. Dyma y pedwerydd pentref sydd yn erfyn am athrawon, ar ol iddi fyned yn rhy ddiweddar i'w rhoddi yn ein hamcan-gyfrifon am y flwyddyn. Daeth un o'r Cristionogion ieuainc oddiyma gyda ni drwy yr holl daith hyd Shangpoong. Cafodd oleuo llawer ar ei feddwl am Gristionogaeth, a chawsom ninnau, yn y pentref, ac ar y ffordd o'r naill i'r llall, gyfleusderau da i'w ddysgu yn fwy manwl am drefn yr Efengyl.

Y lle nesaf yr aethom iddo oedd Mawryntwng. Yr oedd Cristionogion y pentref yn ein dysgwyl, a chawsom dderbyniad cynhes ganddynt. Yr oeddynt ar ganol adeiladu capel newydd, a'r gwaith wedi sefyll er ys tridiau am fod yr athraw yn wael. Efe oedd y pensaer celfydd, ac er fod pawb yn gynuorthwywyr ewyllysgar, gan na fu y bobl erioed yn adeiladu tŷ cyffelyb iddo, nis gallent fyned ymlaen heb yr athraw. Yr wyf yn credu fod y dyn hwn â'i galon yn y gwaith. Gweithiodd yn galed â'i ddwylaw bob dydd am fisoedd ar ol yr ysgol er parotoi y coed. O'i gymharu â

chapelau heirdd Cymru, nid yw capel fel hwn i'w adnabod wrth yr enw; ond o'i gymharu â'r ysgoldŷ oedd ganddynt o'r blaen yn Mawryntwng, y mae yn welliant mawr iawn. Mae ei hyd yn 36 a'i led yn 24 o droedfeddi.

Wedi cyrhaedd yno pregethodd U Kypa Ka Hat, Tangrain, yn bur dda yn ei ddull zelog ei hun. Yn y Cyfarfod Eglwysig ar ol yr oedfa, derbyniwyd dwy hen wraig yn gyflawn aelodau, a dau ddyn i'r Eglwys ar brawf. Boreu drannoeth cawsom gyfarfod i fedyddio y ddwy hen chwaer uchod, a chydgyfranogi o Swper yr Arglwydd. Yr oedd yr Arglwydd yn amlwg wrth y bwrdd yn y cyfarfod hwn.

Mawlyber oedd y lle nesaf yr aethom iddo. Mae Cristionogion y pentref hwn wedi symud i fan sydd yn ymddangos yn iachach a lle mae y dwfr yn well. Mae nifer y Cristionogion yn llawer llai, am fod nifer wedi symud i leoedd eraill, sef i Mawkaiew a Mawkyndeng, yn ystod y flwyddyn; ond y mae y rhai sydd yn parhau yno yn ymddangos yn well.

Yn yr hwyr pregethodd U Mon Bhoi yn bur dda, a chawsom seiat ar ol. Amcan hon yn benaf oedd parotoi ar gyfer y cymundeb boreu drannoeth. Yr oedd yma amryw o ddynion lled flaenllaw yn yr eglwys er ys blynyddoedd heb awydd cael eu bedyddio a chyfranogi o Swper yr Arglwydd. Yr oeddwn wedi bod yn ceisio codi awydd ynddynt lawer gwaith, ond i ddim pwrpas; a gwnaethum yr un peth y noson hono, a bum yn fwy llwyddiannus. Yr oedd rhyw nerth rhyfedd yn cydfyned â'r pethau a ddywedwyd, a daeth dychryn ar y dynion hyny ac arnom oll. Llanwyd ni oll âg ofn gwynebu yr Arglwydd yn y farn wedi diystyru ei orchymynion. Wedi diweddu y cyfarfod aethant adref i ymgynghori â'u gwragedd; a daethant ataf boreu drannoeth, gan ddyweyd nas gallent feiddio peidio ymostwng i ordinhadau yr Arglwydd Iesu a chofio ei angeu, ar ol bod yn y seiat y noson flaenorol. Teimlwn yn dra diolchgar eu bod wedi cael eu gorchfygu. Yn y cyfarfod a gawsom y boreu hwnw yr oedd y ddwy ordinhad mewn gogoniant mawr, a Duw yn cael ei ogoneddu drwyddynt.

Y lle nesaf yr aethom iddo ar ein taith oedd Jewksëar. Cyrhaeddasom yno prydnawn Sadwrn. Yr oedd y ffordd yn anhygyrch a'r glaswellt a'r corsenau yn uchel. Bob blwyddyn bydd y gwellt wedi ei losgi bron yn llwyr yr adeg yma, gan y bydd y gwlaw wedi peidio er ys rhai misoedd. Ond y mae y tymmor hwn yn wahanol i'r un arall er pan y mae neb yn cofio. Nid oes nemawr ddiwrnod neu noson yn myned heibio nad ydym yn cael gwlaw, yr hyn sydd yn cadw y gwellt yn wyrdd-las, fel nad yw eto yn gymhwys i dân. Er fod mwy o ŵyd i aniffeiliaid yr adeg yma nag arfer, eto y mae llawer yn ofni y gwna ddrwg i'r cnydau, gan fod y gwlybaniaeth yn rhwystro i'r dywarchen farw, fel na bydd y tir yn gymhwys i hau yndo.

Nos Sadwrn cawsom gyfarfod gweddi, ac ar ol hyny anerchwyd y cyfeillion ar amryw faterion anghenrheidiol, sef y fantais o bresennoli eu hunain ymhob cyfarfod fydd yn bosibl, undeb a brawdgarwch, &c. Ar y Sabboth pregethodd U Long Hadem, ac U Shillong, Mawlyber; ac am un o'r gloch gweinyddwyd y Sacramentau o Fedydd a Swper yr Arglwydd. Yr oedd hwn hefyd yn gyfarfod hyfryd a bendithiol iawn.

Ar ol y cyfarfodydd ddydd Sul, aethom i Tynding, sef pentref oddeutu dwy filldir o Jewksëar, a sefydlasom eglwys fechan o saith yno. Yn yr hwyr cynnaliasom gyfarfod i ganu gyda'r bobl, ac i egluro yr elengyl iddynt. Yr oedd yr ystafell yn orlawn o ddynion a merched, y rhai a ymddangosent yn frwdfrydig iawn. Mae dau deulu wedi troi at Gristionogaeth yn ddiweddar yn y pentref hwn; ac y mae teuluoedd eraill yn agoshau. Mae yma eneth fach, merch i deulu eilunaddolgar, eisiau yn fawr dyfod yn Gristion. Nid oedd dim a'i boddlonai nes cael llyfr i ddysgu darllen. Ar y dechreu trodd ei rhieni hi ymaith gydag addewid neu fygythiad; ond nid oedd dim yn tycio, na dim a roddent iddi a'i boddlonai. Wylodd nes gorchfygu ei rhieni a chael llyfr.

Mewn pentref arall o'r enw Sait-tad, tua milldir neu ddwy o Tynding, yr oedd teulu o ŵr a gwraig a geneth fach. Erfyniai yr eneth, yr hon oedd o naw i ddeg oed, drwy ystod misoedd yr haf, ar ei rhieni droi at Gristionogaeth. Wylai yn fynych, a dywedai y byddai hi yn sicr o farw os na thröent yn Gristionogion. Parhai hi i ddyweyd hyn, a pharhai ei rhieni yn gyndyn. Oddeutu mis yn ol, daeth y frech goch i'r pentref, a bu yr eneth fach farw; a hi oedd yr unig un a fu farw o'r clefyd yn y pentref. Gwyddai pawb yn y lle am dani, ac am yr hyn a ddywedai; ac y maent oll wedi synu. Mae yn ddiammheu y bydd ffrwyth ar bregeth yr eneth fach hon wedi iddi hi farw.

Gan mai Sabboth ydoedd, nid aethom â gwely na bwyd o Jewksëar i Tynding, ond yn unig blanced neu ddwy ac ychydig o dê a siwgr a bara ac ymenyn yn fy mhoced. Yr oedd yno wellt wedi ei barotoi i doi y tŷ, taenasom ef ar y llawr pridd, gydag un o'r blancedi drosto, a chysgais yn dawel hyd y boreu. Wedi cael cyfarfod arall yma boreu Llun, troisom yn ol at ein cyfeillion a'n pethau i Jewksëar. Yma dracheſn cawsom gyfarfod. Ac wedi rhoddi meddyginiaeth i'r cleifion, cychwynasom am Konshnong.

Nid oes dim cynnydd yn y pentref hwn (Konshnong) er y flwyddyn o'r blaen, ond derbyniasom ddau i'r eglwys ar brawf. Gwraig ieuanc oedd un, o'r enw Ka Sah, a llanc ieuanc oedd y llall o'r enw U Burom. Yr oedd y llanc yn ateb y cwestiynau a roddwyd iddo yn dda iawn. Boreu drannoeth cynnaliasom gyfarfod ar ochr y ffordd, i ddal pobl wrth fynedat eu gwaith, a chawsom gynnulleidfa dda. Wedi bod yno am gryn amser aethum i gael boreufwyd, ac arosodd y cyfeillion i ganu a siarad gyda'r bobl. Ymhen amser cyfododd dadl, ac aeth un hen ŵr mor ddigllawn fel y cododd ac yr aeth ymaith dan felldithio. Nid oedd dim yn y ddadl o du y Cristionogion i beri y fath beth,

mwy na bod eu rhesymau yn gryfach nag eiddo yr hen ŵr. Ac ni bu yr hen greadur yn llwyddiannus i wneyd dim drwg, ond yn hytrach gwnaeth ei hun yn wawd i'w gyfeillion ei hun, a chwarddasant oll yn galonog am ei ben.

Kyrwen oedd y pentref nesaf yr aethom iddo. Wedi cyrhaedd aethum i edrych am yr holl Gristionogion yn eu tai. Yn yr hwyr pregethodd U Mon Bhoi, a chawsom gyfarfod eglwysig ar ol, pryd y derbyniwyd tri yn gyflawn aelodau, ac un ar brawf. Bachgen oddeutu dwy ar bymtheg oed oedd y diweddaf, ac yr oedd yn bleser ei glywed yn ateb y cwestiynau a roddwyd iddo. Boreu drannoeth bedyddiwyd pump, a chawsom gydgyfranogi o Swper yr Arglwydd. Mae yr achos yn y pentref hwn yn llwyddo, ac yn debyg o lwyddo yn y dyfodol. Mae yr ysgol ddyddiol yn lled flodeuog, ac y mae yno un dyn da ar y blaen, sef U Kypa Ka Kongkha, yr hyn sydd yn rhoddi sefydlogrwydd i'r achos.

Y lle nesaf yr aethom iddo oedd Mawkaiew. Hwn oedd y pentref diweddaf o'r daith ac agosaf i Shangpeong. Wedi cyrhaedd yma y peth cyntaf yn ein haros oedd claddu un o'r dynion oeddynt wedi cychwyn y daith gyda ni. Yr oedd hyn yn orchwyl torcalonus, gan ein bod oll yn teimlo fod Duw wedi taro yn agos iawn atom. Enw y dyn oedd U Màn. Yr oedd rhywbeth neilduol yn ei gymeriad fel y mae yn werth dyweyd gair am dano. Yr oedd ganddo gydwybod dyner iawn. Yr oedd yn gyflawn aelod yn Sohpai; ond dygwyddodd iddo syrthio. Ni welais neb erioed â mwy o gywilydd arno. Ar ol i mi faddeu iddo, ysgrifenodd lawer o lythyrau ataf i ofyn i mi faddeu drachefn a thrachefn iddo, ac am i mi weddïo drosto. Llawer gwaith y gofynodd a oeddwn i yn credu fod Duw wedi maddeu iddo. Yr oedd wedi adnabod Duw fel Un sanctaidd iawn, a'i hunan fel un halogedig; ac yr oedd arno ofn mawr i'r Duw sanctaidd a glân beidio edrych arno mewn trugaredd. Pan oeddym yn Brato bu gorfod i mi geryddu dau neu dri o'r rhai oedd gyda mi am chwerthin a chanu tonau a geiriau crefyddol bob yn ail, ac yr oedd U Màn yn dygwydd bod yn yr un ystafell â hwy. Efe oedd yr unig un a ddaeth ataf i ddyweyd fod yn ddrwg ganddo ac i erfyn fy maddeuant. "Mae arnaf ofn," meddai, "ein bod yn rhoddi esiampl ddrwg i bobl anwybodus." Gweddïai lawer iawn, ac erfyniai lawer yn ei weddïau am faddeuant. Credem oll fod Màn yn ddyn duwiol iawn, a'i fod yn un o fendigedigion blant y Tad, a'i fod wedi etifeddu y deyrnas a barotowyd iddynt er cyn seiliad y byd.

Yn yr hwyr pregethais I, a chawsom gyfarfod eglwysig ar ol er parotoi ar gyfer yr ordinhad o Swper yr Arglwydd boreu drannoeth. Yr oedd y cyfarfod boreu drannoeth yn un rhyfedd iawn. Wrth ganu ar y dechreu, bu raid i un neu ddau eistedd i lawr gan mor ddrylliedig oedd eu teimladau. Yr oedd Duw yn wir yn y lle hwn. Cafodd David yr athraw ei gynhyrfu drwyddo yn y cyfarfod, ac y mae yn fwy ymroddgar a gweithgar byth er hyny. Meddyliodd yn gryf am roddi blwyddyn o amser i weithio yn y gwahanol bentrefi heb ddim tâl. Pan wnaeth y peth yn hysbys i'w wraig wylodd gan erfyn arno beidio, am y credai y byddai hi a'r plentyn yn sicr o newynu. Geneth dda yw hithau hefyd, ond nid oedd ei ffydd mor gref ag eiddo ei gŵr. Pa fodd bynag, penderfynodd roddi ei fis gwyliau i'r Arglwydd, â'r hyn y cytunodd ei wraig yn rhwydd; ac aeth ef ac un arall drwy holl eglwysi y dosbarth. Mae yn sicr eu bod wedi gwneyd llawer o les, a dywedent eu bod wedi cael bendith iddynt eu hunain.

Yr wythnos ddilynol yr oedd Henaduriaeth leol i gael ei chynnal yn Mynsaw. Dyma y gyntaf a fu yn y pentref hwn, ac yr oedd yno barotöadau mawrion ar ei chyfer. Yr oeddynt wedi gorphen eu capel newydd, a chael meinciau yuddo; ac yr oeddynt wedi prynu pedwar neu bump o foch i'w lladd yn fwyd i'r ymwelwyr. Mae y cyfarfodydd hyn yn gwneyd lles mawr mewn gosod pwysigrwydd ar Achos yr Arglwydd hyd yn nod yn ei wedd allanol, ac mewn dwyn y bobl allan i gyfranu. Cawsom gyfarfodydd da iawn, ac yr oedd y pregethu yn nerthol ar y Sabboth. Pregethai rhai lled ddiamcan gydag awdurdod a llawer o arddeliad, yr hyn oedd yn profi yn amlwg na waeth gan yr Arglwydd pa offerynau i'w defnyddio.

Ar ol hyn, cynnaliwyd Henaduriaeth arall debyg yn Mawryntung, ar y 7fed o Fawrth, pryd nas gallwn I fod yn bresennol. Dywedai y bobl fod y cyfarfodydd yn rhai da drwyddynt, a bod Cristionogion y lle wedi rhoddi derbyniad tywysogaidd i'r dyeithriaid. Wrth fynychu y cyfarfodydd hyn y mae Cristionogion y gwahanol bentrefi yn dyfod i adnabod eu gilydd ac i gymeryd dyddordeb yn eu gilydd, yr hyn sydd yn bwysig iawn i'r wlad, gan mai eu pentrefi eu hunain ydyw pobpeth y brodorion yn eu stad naturiol.

DOSBARTH SHELLA.

Rhanau o Lythyr oddiwrth y Parch. W. Williams.

Mewn llythyr dyddiedig Mehefin 7fed, ysgrifenai Mr. Williams fel y canlyn o Laitkynsew, lle yr arfera cenadwr Shella dreulio misoedd yr haf:—

"Y mae wedi bod yn gwlawio yn drwm yma yr wythnosau diweddaf, ac wedi bod yn mellтenu ac yn taranu yn ddifrifol hefyd. Cafodd bachgen ieuanc—un o blant yr ysgol yn Laitkynsew—ei ladd gan y fellten, a tharawyd tŷ yr athraw ddwy neu dair gwaith ganddi. Cafodd y bachgen ei ladd o fewn ychydig lathenі i'r tŷ yma ar y tir Cenadol, tra yr oedd yn cynnorthwyo gwraig yr athraw i wneyd rhyw waith yn ymyl y tŷ. Y mae yn ddrwg iawn genyf dros yr athraw. Yr oedd wedi treulio ei gwbl i adeiladu tŷ da ar y *compound*, ac y mae yn ymddangos fod y wraig yn anfoddlawn i fyw yn hŵy yn y tŷ gan ofn. Dywed amryw fod y mellt yn arfer taraw y fan lle yr adeiladodd y tŷ. Y mae yn sefyll ar fan pur uchel. Y mae wedi costio o tua R250 i R300 iddo.

Bum i lawr yn Shella am ychydig ddydd-iau ; daethum i fyny boreu heddyw. Ddoe —y Sabbath, bedyddiwyd mam U Timothy, a chyfranogodd hefyd o Swper yr Arglwydd. Y mae wedi bod yn gwrando er ys blynydd-oedd lawer, ac yr oedd bob amser yn cadw y Sabboth, ac yn gwneyd pob peth allanol fel Cristion, ond bu yn hir iawn cyn rhoddi ei hun i'r eglwys. Y mae yn deall yr efengyl yn dda, ac y mae yn ymddangos fod y cam a gymerodd yn un cywir. Teimla ei bod yn bechadur, a'i bod mewn anghen am yr Iesu yn Waredwr. Adroddodd yr adnod hono amryw weithiau, "Ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch."

Yr ydys wedi gorfod ceryddu amryw yn yr eglwys yn Shella yn ddiweddar, a thori allan ddau neu dri o ddynion ieuainc pur flaen-llaw.

Y mae newyddion cysurlawn yn dyfod o Maram : y mae y gwaith da yn myned rhag-ddo. Heb fod yu hir, yr wyf yn bwriadu myned i aros i Maram, yn un o'r ysgoldai, am o fis i chwech wythnos. Yn Maram y dylasai cenadwr Shella fod yn ystod y tym-mor gwlyb.

Y mae pobl Shella wedi clywed fod dau ym-geisydd meddygol am ddyfod allan oddiyna i'r wlad yma, ac y maent yn cael eu tueddu i anfon cais gartref am un o honynt. Cred-ant y bydd yno ddigon o waith i mi ac yntau yn y Dosbarth. Y mae yma bobl lawer a chleifion lawer yn y gymydogaeth hon. Caw-swn i, un heb fod yn feddyg, ddigon o waith o foreu hyd hwyr yn y cyfeiriad hwn, pe bawn yn gweled fy ffordd yn glir i hyny. Y mae yma waith arall ag y mae yn rhaid ei gyflawni. Gobeithio y daw amryw o Genadon newyddion allan gyda Dr. a Mrs. Griffiths y flwyddyn hon.

Llydaw.

RHANAU O LYTHYR MR. EVAN JONES.

Pont l'Abbé, Awst 6, 1890.

Y MAE cyfnewidiad mawr wedi ac yn cy-meryd lle yn syniadau y werin am y gwaith da yr ydym yn ymwneyd âg ef, a mynych yr addefir wrthym mai gan Brotestaniaeth y mae y gwirionedd. Ymledu a dyfnhau y mae yr argyhoeddiad hwn yn meddyliau y werin, ac y mae yr offeiriaid trwy eu tra-hausder, eu balchder, eu cnawdolrwydd, a'u hariangarwch, yn cyflym bellhau dynion oddiwrthynt. Nid yw nifer y rhai a fynych-ant ein cyfarfodydd yr adeg yma o'r flwyddyn un amser yn lliosog, o herwydd prysurdeb gyda'u hamgylchiadau tymmorol. Y mae er hyny amryw yn parhau yn ffyddlon yn wyneb llawer o anhawsderau. Byddwn yn rhoddi pob egni ar waith y tymmor hwn o'r flwyddyn yn neilluol i wasgaru traethodau ar hyd a lled y wlad, ac yn cymeryd teithiau arbenig i'r amcan hyny. Y Sabboth olaf yn Mehefin aethum yn nghwmni y ddau Fibl-gludydd ar daith o gryn bellder mewn cerbyd, gyda *mil* o draethodau i'w rhanu. Cyrhaeddasom Plonéour, pentref oddeutu pedair milldir o Pont l'Abbé, tua 9 o'r gloch y boreu, yr adeg yr oedd gwasanaeth yr Offeren yn terfynu. Llwyddasom i wasgaru nifer dda o draethodau ar waith y bobl yn ymwahanu ac yn y tai yr ymwelsom â hwynt. Ni chyfarfuasom â ne-mawr un i wrthod cymeryd traethodyn. Aeth-om yn ein blaen o Blonéour i bentref o'r enw Pouldreuzic, tua phum' milldir ymhellach, a chyrhaeddasom ar adeg o'r fwyaf cyfleus. Yr oedd y bobl yn ymadael o'r gwasanaeth ll o'r gloch — gwasanaeth yr Offeren *Vraz* (neu fawr), a gosodasom ninnau ein hunain mewn cyfleusdra i ranu traethodau, y rhai a dder-byniwyd gyda phob parodrwydd a sirioldeb ymron yn ddieithriad. Nichafodd yr offeiriad ddianc heb roddi cynnyg iddo, a bu yn ddigon grasol i dderbyn traethodyn yn erbyn y fasnach feddwol. Gwasgarasom ddim llai na 400 yn y pentref, y rhai yr ydym yn bur hyderus a ddarllenwyd. Y mae y plwyf hwn a'r pentref yn bur werinol, a gadawodd y trigolion argraff hynod o ffafriol arnom. Teimlwn yn dra hyderus am ddyfodol y lle hwn i Grist, ond gresyn fod can lleied o weithwyr ar y maes. Y meusydd yn wynion i'r cynhauaf, ond y gweision yn hynod brin! Cychwynasom o'r lle yn llawen ein calon, ac aethom yn ein blaen i Plogastel Sant Germain. Deallasom yn fuan ein bod ymhlith dynion pur wahanol i'r eiddo Pouldreuzic. Y mae dylanwad offeiriadol ar y bobl wedi eu gwneyd yn dwyllodrus ac antoesol, ac y mae an-wybodaeth dybryd yn ffynu yma. Yr oedd yn ddiwrnod *pardon* yno, a phawb yn ym-roddi i yfed a meddwi. Y mae y trigolion yn ha.ner anwaraidd, ac ni theimlem yn ddiogel yno dros nos. Rhanasom amryw draethodau, ond gofidiem weled amryw oeddem wedi eu dosbarthu wedi eu dinystrio cyn i ni ymadael. Ymddangosai y bobl a gyf-arfuasom yn Plogastel o leiaf hanner canrif ar ol eu hoes. Cyrhaeddasom Bont l'Abbé tua phump o'r gloch y prydnawn, wedi dos-barthu o saith i wyth cant o draethodau. Hyderwn na bu y daith hon yn ofer, ond y bydd dan fendith yr Arglwydd er goleuo a deffro ami un o'i gysgadrwydd a'i dywyll-wch ysbrydol. Y mae y cyfnewidiad amlwg sydd wedi cymeryd lle yn syniadau y bobl mewn perthynas i'r efengyl i'w briodoli i raddau mawr i ddylanwad y traethodau sydd yn cael eu hau ymhob cyfeiriad.

Dydd Sadwrn, Gorphenaf 26ain, cymerodd amgylchiad hynod le yn Pont l'Abbé, un ag sydd wedi creu cryn gyffro yn y lle, sef *claddedigaeth Protestanaidd* llanc ieuanc dwy ar bymtheg mlwydd oed. Yr oedd y dyn ieuanc wedi derbyn llawer o addysg grefyddol gan fy mrawd pan oedd yn aros yn Pont l'Abbé, ac wedi trysori llawer o'r Bibl ar ei gof. Mynychodd lawer o'n cyfarfod-ydd hefyd, ac yr ydoedd wedi ymddyeithrio yn hollol oddiwrth yr Eglwys Babaidd a'r offeiriaid. Y mae ei daid a'i ewythr yn aelodau creyddol o'n heglwys Brotestanaidd yn Quimper, ac yn bur ffyddlon. Bu efe yn dihoeni am gryn amser dan y darfodedigaeth, ac yn yr adeg y cafodd ei gaethiwo i'w wely gwnaeth yr offeiriad amryw gynnygion i weini arno, a rhoddi y cymun iddo, ond gwrthodai yn benderfynol roddi derbyniad na chefnogaeth i'r offeiriad. Yr oedd yn

llwyr argyhoeddedig nad oedd un fendith i'w derbyn o law yr offeiriaid Pabaidd. Ond ni chai lonydd, deuai yr offeiriad yno yn llechwraidd pan oedd tad y dyn ieuanc yn absennol. O'r diwedd, yn hollol groes i'w ddymuniad, ond pan oedd wedi cyrhaedd ymron i'r terfyn, ac yn analluog i wrthwynebu, rhoddwyd y cymun iddo. Dyben hyn oll ydoedd er mwyn ei hawlio yn Babydd yn ei farwolaeth. Y mae haerllugrwydd y bobl hyn yn ddiderfyn. O herwydd rhyw rheswm neu gilydd, yn un peth am nad oedd y tad yn foddlawn talu yn y blaen, gwrthododd yr offeiriad ddwy groes i flaenori y claddedigaeth. Yr ail waith, pan aed i ofyn am danynt, ar waith yr offeiriad eto yn gwrthod, dywedwyd wrtho os na wnai, y gofynid gwasanaeth y gweinidog Protestanaidd. "A ydych am ddianrhydeddu eich hunain?" ebai yr offeiriad. Atebwyd ef na byddai yn ddianrhydedd o gwbl, ond i'r gwrthwyneb. Yna daeth cenad ataf i ddyweyd yr helynt, ac i ofyn i mi geisio gan fy mrawd ddyfod drosodd i gyflawni y gwasanreth. Aethum yn ebrwydd i Quimper at fy mrawd, a daeth gyda mi yma ynghyd ag un o ddiaconiaid yr eglwys yn Quimper. Yr oedd lliaws mawr yn yr angladd; a cherddem ein tri o flaen yr arch yn bennoeth, fel y mae yr arfer yn y wlad hon, ac yr oedd nifer mawr, os nad y rhan fwyaf o'r dynion yr un modd. Dangoswyd y parch mwyaf i'r claddedigaeth pan yn myned tua'r gladdfa. Wrth y bedd darllenodd fy mrawd y rhanau arferol, ac anerchodd y dorf liosog ar y sefyllfa ddyfodol, a'r sicrwydd o'r adgyfodiad. Rhoddwyd y gwrandawlad mwyaf astud a pharchus, a chollwyd llawer o ddagrau. Dywedai llawer wrth ddychwelyd yr hoffent gael eu claddu felly, ac nid gan yr offeiriad meddw. Y mae yr offeiriaid yn flin a chwerw, ond diau y bydd i'r amgylchiad gyrhaedd amcan daionus ac y cawn weled ffrwyth iddo.

JUBILI Y GENADAETH.

Mae y symudiad gyda Chasgliad y Jubili yn myned ymlaen yn rhagorol. Bydd rhai Cyfarfodydd Misol, mae yn amlwg eisoes, wedi gwneyd mwy na'r gyfran fuasai yn briodol yn syrthio arnynt tuag at wneyd cyfanswm y casgliad trwy yr holl Gyfundeb yn ugain mil o bunnoedd. Ac os bydd i'r Cyfarfodydd Misol eraill wneyd yn gyffelyb, rhaid y bydd y cyfanswm yn llawer mwy na hyny. Ar yr un pryd, dymunem adgofio caredigion y Genadaeth ymhob lle nad oes ond pum' mis hyd Mawrth 31ain, 1891, pryd y bydd y casgliad yn cael ei gau i fyny, ac y mae yn bwysig i'r gwaith gael ei ddwyn ymlaen yn ddioedi tuag at iddo gael ei gwblhau y pryd hwnw. Os oes rhyw eglwysi heb fod casglyddion wedi eu penodi ynddynt, gofaler am i hyny gael ei wneyd ar unwaith. Dymunwn ar i'r swyddogion eglwysig benodi y personau mwyaf cymhwys i alw gyda phob un o aelodau y gynnulleidfa, ac eraill sydd yn teimlo dyddordeb yn llwyddiant yr Efengyl. Yr ydym yn mawr hyderu na adewir i'r cyfleusdra hwn fyned heibio heb fod pob un o'n haelodau yn mynu cael rhan yn y gwaith. Mor fuan ag y bydd yn bosibl ar ol y 30ain o Fawrth, cyhoeddir Adroddiad o Gasgliad y Jubili, yn cynnwys enw pob cyfranydd o hanner coron ac uchod. Gofaler am gael enwau y plant yn yr Adroddiad. Bydd llawer o honynt hwy yn fyw yn y flwyddyn y byddys yn coffhau Canmlwyddiant y Genadaeth, a da fydd gan ldynt y pryd hwnw weled eu henwau yn yr Adroddiad. Gellir cael Llyfrau Casglu a phapyrau yn egluro amcan y symudiad, ond ymofyn â'r Ysgrifenydd.

COFGOLOFN AR FEDD Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Bydd *D. Hughes, Esq.*, 4, *William Moult Street, Liverpool*, yn barod i dderbyn,

HYD Y DYDD OLAF O FIS MEDI,

unrhyw danysgrifiadau y dymuna cyfeillion eu hanfon at yr amcan hwn. Fe ddeallir nad oes bwriad i benodi casglyddion at yr achos, na gwneyd dim pellach na hysbysu yn y dull hwn fod y cyfleusdra yn agored i'r rhai fyddo yn dewis cyfranu. Felly y penderfynwyd gan y Gymanfa Gyffredinol.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
O Gapel David Street, Liverpool	14	0	4
Dienw, Aberystwyth, tuag at y gwaith yn Sylhet	1	0	0
A B C Ch (Aberstwyth), tuag at Gofn i'r diweddar Barch. T. Jerman Jones	1	0	0
Mr. R. Evans, Bantry, eto	0	5	0
Tuag at Ysbytty Mawphlang, trwy law Mr. W. P. Jones, Preswylfa, Caergybi:—			
Mr. W. Roberts, Railway Guard, Holyhead.....	1	0	0
Mr. J. Jones, *Foundry*, eto	0	10	0
Mr. J. Hughes, Vulcan St., eto	0	10	0
	2	0	0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P. 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.